



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith:

Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru.

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ebrill 2018  
Ymatebion erbyn: 23 Gorffennaf 2018

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## Trosolwg

Mae Deddf Cymru 2017 yn datganoli cymhwysedd i roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan hyd at 350MW ar y môr ac ar y tir, yn ogystal â llinellau trydan uwchben cysylltiedig hyd at ac yn cynnwys 132KV, i Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn datganoli cymhwysedd ar gyfer gorchmynion diwygio a grymuso harbyrau a thrwyddedau morol, a swyddogaethau cadwraeth natur morol yn yr ardal alltraeth.

Mae'r pwerau newydd hyn yn cynnig cyfle i wneud gwelliannau sylweddol i'r prosesau presennol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru er mwyn ysgogi'r gwaith o gyflenwi seilwaith cynaliadwy a thwf gwyrdd, gan sicrhau bod ein dyheadau mewn perthynas â chynnwys y gymuned, amrywiaeth o ran ynni, allyriadau carbon a sicrwydd cyflenwad yn cael eu gwireddu ar yr un pryd.

Nod yr ymgynghoriad hwn yw cynnwys rhanddeiliaid ar ein cynigion i sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith sy'n ymateb i anghenion busnes a'r gymuned, er mwyn cefnogi twf economaidd cynaliadwy a datgarboneiddio ein cyflenwad ynni. Gan y bydd y pwerau hyn i roi caniatâd i gynlluniau seilwaith mwy yn cael eu datganoli ar 1 Ebrill 2019, mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn gofyn am sylwadau ar drefniadau interim nes y bydd proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith ar waith.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 23 Gorffennaf 2018 a gallwch ymateb gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

[planconsultations-g@gov.wales](mailto:planconsultations-g@gov.wales)

Dylech gynnwys 'Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith – WG34221' yn y llinell destun.

Post: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith  
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**

Ffyniant i Bawb: Y strategaeth genedlaethol

<http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi

<http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf>

Deddf Cymru 2017:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted/data.htm>

**Manylion cyswllt**

Am ragor o wybodaeth:

E-bost: [planconsultations-g@gov.wales](mailto:planconsultations-g@gov.wales)

Ffôn: Lewis Thomas ar 0300 025 3201

**Diogelu data**

Sut y caiff y sylwadau a'r wybodaeth a roddir gennych eu defnyddio

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid

Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Ni chaiff eich data eu cadw am fwy na thair blynedd

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch;
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire SK9 5AF

Ffôn : 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan : [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ  
Cyfeiriad e-bost : [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

## **Cynnwys**

<b>Pennod</b>	<b>Tudalen</b>
---------------	----------------

1	Cefndir	7
---	---------	---

### **Rhan 1: Y byrdymor**

2	Newidiadau i'r cyfundrefnau presennol	13
---	---------------------------------------	----

### **Rhan 2: Yr hirdymor: Proses rhoi caniatâd seilwaith newydd i Gymru**

3	Egwyddorion	21
---	-------------	----

4	Prosiectau cymwys	31
---	-------------------	----

5	Proses unedig ar gyfer rhoi caniatâd	53
---	--------------------------------------	----

### **Rhan 3: Diwygiadau i'r gyfundrefn brynu gorfodol yng Nghymru**

6	Dirprwyo penderfyniadau a dyfarnu costau	68
---	--	----

## **Atodiadau**

A	Costau
---	--------

B	Cwestiynau'r ymgynghoriad
---	---------------------------

## **Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

Rhaid i'r broses gynllunio ein helpu i adeiladu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi cymunedau cynaliadwy a gwella ansawdd ein bywyd gan cefnogi Ffyniant i Bawb. Mae newidiadau'n hanfodol er mwyn cyflawni ein nodau mewn perthynas ag amrywiaeth o ran ynni, allyriadau carbon, sicrwydd cyflenwad, cyflenwi seilwaith cynaliadwy a thwf gwyrdd.

Mae heriau amlwg ar y gorwel. Gyda Brexit ar ddigwydd, rhaid i Gymru gynnal mantais gystadleuol ac i fod yn lle deniadol i fuddsoddi ynddo. Yn y gorffennol, rwyf wedi cydnabod yr angen i wella'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yng Nghymru er mwyn ei gwneud yn lle gwell i bawb fyw ynddo. Hefyd, mae angen gwella ein seilwaith a chynnal cysylltiadau rhwng ein cymunedau.

Mae Deddf Cymru 2017, a gafodd Gydsyniad Brenhinol y llynedd, yn gam ymlaen yn y broses o roi rhagor o reolaeth dros roi caniatâd i brosiectau ynni yn ogystal â phorthladdoedd a harbyrau, trwyddedau morol a fframweithiau rheoleiddio pwysig eraill i Gymru. Er nad yw'n rhoi'r setliad datganoli parhaol rydym yn dymuno ei gael, mae'n rhoi cyfle i ni nodi ein dyheadau i ysgwyddo rhagor o gyfrifoldeb datganoledig mewn perthynas ag ynni a seilwaith arall.

Yn yr ymgynghoriad hwn, rwy'n cynnig nifer o ddiwygiadau a fydd yn parhau â'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru i symleiddio ac uno cyfundrefnau caniatâd, sef amcan a nodir yn Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Bydd fy nghynigion yn adeiladu ar y broses gynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a gyflwynwyd yn llwyddiannus yn 2016.

Bydd fy nghynnig i gyflwyno Caniatâd Seilwaith penodol yng Nghymru sy'n cwmpasu prosiectau ar y tir ac ar y môr yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

- Darparu proses dryloyw, cyson a syml, ond trwyadl, sy'n atgyfnerthu rôl cymunedau lleol
- Bod yn addas at y diben i Gymru a gallu wynebu heriau yn y dyfodol
- Symleiddio ac uno prosesau gwneud penderfyniadau
- Gwella safonau presennol gwasanaethau
- Cynnig sicrwydd wrth wneud penderfyniadau

Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau proses gyfannol sy'n gallu ystyried p'un a yw datblygiad arfaethedig yn dderbyniol. Bydd fy nghynigion yn sicrhau'r canlyniad gorau i gymunedau, i fusnesau, yr amgylchedd ac i Gymru yn ei chyfanrwydd, gan sicrhau ar yr un pryd y bydd buddsoddiad yn cael ei gyfeirio at yr ardaloedd hynny a fydd yn cael y budd mwyaf.



**Lesley Griffiths**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

## Rhestr Termau

<b>Ar y môr</b>	Rhanbarth Glannau Cymru a Rhanbarth Alltraeth Cymru fel y'i diffinnir gan adran 322 Deddf Morol a Mynediad i'r Arfordir 2009, i'r graddau y mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Gweinidogion Cymru
<b>Deddf 2008</b>	Deddf Cynllunio 2008
<b>GBG</b>	Gorchymyn Prynu Gorfodol
<b>DCO</b>	Gorchymyn Caniatâd Datblygu
<b>DAC</b>	Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol
<b>Deddf Trydan</b>	Deddf Trydan 1989
<b>KV</b>	Cilofolt
<b>LIR</b>	Adroddiad ar yr Effaith Leol
<b>ACLI</b>	Awdurdod Cynllunio Lleol
<b>FfDC</b>	Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
<b>NSIP</b>	Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
<b>MW</b>	Megawat
<b>PINS</b>	Yr Arolygiaeth Gynllunio
<b>YsgG</b>	Yr Ysgrifennydd Gwladol
<b>CSC</b>	Caniatâd Seilwaith yng Nghymru; Math newydd o ganiatâd a all fod ar ffurf caniatâd safonedig neu offeryn statudol, sef canlyniad proses unedig a phwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd.
<b>PSC</b>	Prosiect Seilwaith yng Nghymru; Y mathau o brosiect sydd o bwys i Gymru a'r datblygiad y rhoddir caniatâd ar ei gyfer ar ffurf Caniatâd Seilwaith yng Nghymru.
<b>CMCC</b>	Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

# 1. Cefndir

## Trosolwg a heriau

- 1.1 Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o helpu i gefnogi ffyniant economaidd, hyrwyddo datblygu cynaliadwy a mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, gan ddiogelu ein gallu i gael amgylchedd o ansawdd. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn wynebu nifer o heriau y mae'r system gynllunio'n helpu i'w goresgyn.
- 1.2 Bydd trefniadau economaidd, deddfwriaethol a gwleidyddol y Deyrnas Unedig yn newid pan fydd yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn economaidd, gallai Cymru fod o dan anfantais o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig o bosibl petai trefniadau israddol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith. Er mwyn cynnal mantais gystadleuol ac annog buddsoddiad parhaus yng Nghymru, dylid sicrhau'r amgylchedd cywir sy'n cynnig sicrwydd o ran penderfyniadau ac amserlenni.
- 1.3 Mae Polisi Adnoddau Naturiol<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i ostwng lefelau llygredd, sicrhau bod mwynau'n cael eu hechdynnu mewn modd cynaliadwy a chynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy er mwyn helpu i addasu a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae ystyried materion amgylcheddol ar wahân i amcanion economaidd yn annerbyniol ac mae angen sicrhau bod y materion a'r amcanion hynny'n cael eu hystyried gyda'i gilydd. Mae'r Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu ar gyfer cynllunio a chyfoethogi adnoddau naturiol Cymru'n well ar lefel genedlaethol a lleol yn ogystal â'n bwriad i ddatgarboneiddio economi Cymru gyda tharged i gynhyrchu 70% o'i thrydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030.
- 1.4 Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru. Disgwylir i'r Comisiwn nodi anghenion a blaenoriaeth strategol mewn perthynas â seilwaith. Mae ein strategaeth genedlaethol<sup>2</sup> eisoes yn nodi bod angen sicrhau sicrwydd cyflenwad ynni, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol, darparu gwasanaethau o safon fel ffyrdd o wella llesiant pobl Cymru. I gael unrhyw seilwaith sy'n parhau i symud Cymru ymlaen, rhaid bod cyfrwng priodol ar gyfer rhoi caniatâd ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflenwi'n effeithiol.

## Deddfwriaeth newydd

- 1.5 Mae addasiadau diweddar i'r gyfraith wedi ceisio atgyfnerthu amcanion y system gynllunio ac maent wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r cefndir ar gyfer ymdrin â seilwaith yng Nghymru.
- 1.6 Isod, nodwn y newidiadau perthnasol hynny:

---

<sup>1</sup> [Llywodraeth Cymru – Polisi Adnoddau Naturiol, 2017](#)

<sup>2</sup> [Llywodraeth Cymru – Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol, 2017](#)



## Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

- 1.7 Caiff rôl y system gynllunio ei phennu gan y Ddeddf Cynllunio (Cymru) gyntaf, sy'n nodi diben statudol<sup>3</sup> ar gyfer y system gynllunio o ran sicrhau bod y ffordd y caiff tir ei ddatblygu a'i ddefnyddio yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwy wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 1.8 I gefnogi'r gwneud penderfyniadau trwy y bwrpas hwn, mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi proses benodol ar gyfer cyflenwi seilwaith strategol yng Nghymru o'r enw Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DAC"). Mae'r broses ar gyfer prosiectau DAC yn fath arbennig o gais cynllunio a wneir i Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd a roddwyd ganddynt. Y diben yw sicrhau bod penderfyniadau ynghylch y prosiectau hynny sydd o bwys i Gymru yn cael eu gwneud mor gyflym ac mor dryloyw â phosibl, a hynny er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i gymunedau a datblygwyr. Mae'r broses, ymhlith pethau eraill, yn cwmpasu prosiectau cynhyrchu ynni ar y tir o 10MW i fyny ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu gwynt ac o 10MW i fyny i'r terfyn datganoledig o 50MW ar gyfer pob math arall o orsaf gynhyrchu. Mae rhestr lawn o brosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y gyfundrefn DAC wedi'i rhagnodi yn y Rheoliadau<sup>4</sup>.

## Deddf Cymru 2017

- 1.9 Cafodd Deddf Cymru 2017 ("Deddf Cymru") Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2017. Mae hyn yn datganoli rhagor o gyfrifoldeb yn rhagolygol ar gyfer rhoi caniatâd i brosiectau cynhyrchu ynni hyd at ac yn cynnwys 350MW ar y tir ac yn nyfroedd Cymru<sup>5</sup>, yn ogystal â darpariaethau canlyniadol yn nyfroedd Cymru. Nid yw hyn yn newid swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â gorsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir. Fel sefyllfa ddiodyfyn, effaith gyfreithiol darpariaethau yn Neddf Cymru yw i osod caniatâd ar y tir o fewn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref") a chaniatâd ar y môr o fewn y broses a nodir yn a.36 o Ddeddf Trydan 1989 ("y Ddeddf Trydan").
- 1.10 Mae'r Ddeddf hefyd yn datganoli'n rhagolygol y cyfrifoldeb am roi caniatâd ar gyfer llinellau trydan uwchben sy'n 132KV<sup>6</sup> neu lai os ydynt yn gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig yng Nghymru. Bydd y pwerau rhoi caniatâd hyn hefyd yn cael eu gosod yn ddiodyfyn yn y broses o wneud cais cynllunio o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.
- 1.11 Nid yw'r pwerau yn Neddf Cymru sy'n ymwneud â chymhwysedd gweithredol ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir ac ar y môr a llinellau trydan uwchben wedi dechrau eto. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi pennu dyddiad dechrau, sef 1 Ebrill 2019.

<sup>3</sup> A.2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

<sup>4</sup> Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) 2016

<sup>5</sup> A.39-42 o Deddf Cymru 2017.

<sup>6</sup> A.42 o Ddeddf Cymru 2017.

- 1.12 O ran seilwaith arall, o 1 Ebrill 2018 ymlaen, bydd Gweinidogion Cymru yn cael cymhwysedd datganoledig ar gyfer rhoi caniatâd i Orchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau (ac eithrio porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir)<sup>7</sup>. Ar hyn o bryd, bydd y rhain yn parhau i gael caniatâd o dan Ddeddf Harbyrau 1964.

### **Rheswm a chwmpas yr ymgynghoriad**

- 1.13 Mae Deddf Cymru yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol i'r Gynulliad a Weinidogion Cymru i roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu rhwng 50MW a 350MW (ac eithrio caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir, y mae gan Weinidogion Cymru eisoes gymhwysedd gweithredol llawn ar ei gyfer) a llinellau trydan uwchben hyd at ac yn cynnwys 132KV.
- 1.14 Ar gyfer llawer o'r swyddogaethau eraill a gaiff eu datganoli i Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf, bydd pwerau o dan ddeddfau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Mae hyn yn rhoi cyfnod pontio priodol i'r rhai sy'n defnyddio'r prosesau hynny. Mae'r darpariaethau mewn perthynas â chaniatâd ynni yn wahanol i rannau eraill o Ddeddf Cymru<sup>8</sup> am eu bod yn tynnu gorsafoedd cynhyrchu Cymraeg yn benodol o'r broses bresennol ar gyfer Gorchmynion Caniatâd Datblygu o dan Ddeddf 2008<sup>9</sup>. Mae'r gyfundrefn ar gyfer Gorchmynion Caniatâd Datblygu yn drefniant rhoi caniatâd 'siop un stop' sy'n briodol ar gyfer penderfynu ar brosiectau ynni ar y raddfa hon. Un o agweddau allweddol y broses yw'r gallu i gaffael tir yn orfodol ochr yn ochr â chael caniatâd i ddatblygu.
- 1.15 Yn lle trosglwyddo swyddogaethau DCO i Weinidogion Cymru, mae'r Ddeddf Cymru yn gosod y broses o roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni wedi'u datganoli a llinellau trydan uwchben yn y Ddeddf Trydan yn nyfroedd Cymru a'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ar y tir.
- 1.16 Nid yw'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref wedi'i phrofi o ran penderfynu ar brosiectau o'r math hwn ac ar y raddfa hon, a gellir ystyried ei bod yn anaddas i roi caniatâd ar gyfer seilwaith ynni ar raddfa fawr, yn enwedig prosiectau llinol.
- 1.17 Bydd Llywodraeth y DU yn dechrau'r pwerau rhoi caniatâd ynni sydd yn Neddf Cymru ar 1 Ebrill 2019. Mae angen gwneud newidiadau ychwanegol i ddeddfwriaeth eilaidd er mwyn galluogi Cymru i gael y pwerau rhoi caniatâd newydd hynny yn effeithlon. Mae hon yn amserlen fer iawn ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu trefniadau rhoi caniatâd digonol yn ystod y cyfnod hwnnw.
- 1.18 Yn unol â hynny, mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi sut y bydd y pwerau newydd a geir yn Neddf Cymru yn cael eu rhoi ar waith.

---

<sup>7</sup> A.34 o Ddeddf Cymru 2017

<sup>8</sup> A.39-A.42 o Ddeddf Cymru 2017

<sup>9</sup> Atodlen 1 i Ddeddf Cymru 2017 – Cymal Cadw M3 – 184

## Rhan 1: Y byrdymor

- 1.19 Yn Rhan 1 o'r ymgynghoriad hwn, gwnaethom nodi ateb trosiannol a fydd ar waith o 1 Ebrill 2019, ar ôl i'r pwerau newydd ddod i law. Bydd hyn yn golygu bod angen gwneud newidiadau i brosesau rhoi caniatâd sydd eisoes yn bodoli. Er ein bod yn ystyried y bydd y newidiadau hyn yn darparu proses ddigonol ar gyfer rhoi caniatâd, nid yw'n darparu trefniant priodol yn yr hirdymor.
- 1.20 Hefyd, mae materion yn dod i'r amlwg ym meysydd caniatâd ynni a phrynu gorfodol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw yn y byrdymor. Mae'r papur hwn yn cynnig gwneud newidiadau buddiol i'r broses bresennol drwy gael caniatâd cynllunio ar gyfer DAC er mwyn diogelu safle blaenllaw Cymru ym maes datblygu carbon.

## Rhan 2: Yr hirdymor

- 1.21 Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn nodi ateb hirdymor yn Rhan 2, a fydd, yn y pen draw, yn disodli'r trefniadau trosiannol. Gan fod angen newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth, ni all fod ar waith cyn y dyddiad dechrau arfaethedig.
- 1.22 Yn Rhan 2, rydym yn amlinellu ein mesurau ar gyfer sefydlu proses cwbl bwrpasol a hyblyg ar gyfer rhoi caniatâd i brosiectau seilwaith yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu cynigion deddfwriaethol a chyflwyno polisi newydd. Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, rydym wedi cydweithio'n agos â nifer o randdeiliaid, ac rydym bellach yn gofyn am safbwyntiau a sylwadau ehangach ar ein cynigion. I grynhoi ein cynigion:

### *Math newydd o ganiatâd*

- 1.23 Rydym yn cynnig sefydlu math newydd o ganiatâd a weinyddir gan Weinidogion Cymru o'r enw Caniatâd Seilwaith yng Nghymru, sy'n cwmpasu prosiectau ar y tir ac ar y môr, gan gynnwys prosiectau seilwaith mawr yng Nghymru. Bydd yn disodli'r llwybr rhoi caniatâd presennol ar gyfer caniatâd cynllunio ar gyfer DAC o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, yn ogystal â chyfundrefnau statudol eraill.

### *Siop un stop*

- 1.24 Byddai'r Caniatâd Seilwaith yng Nghymru yn 'siop un stop' ar gyfer y prosiectau seilwaith hynny sydd o fewn ei gwmpas. Bydd hyn yn golygu bod modd i awdurdodiadau neu drwyddedau eraill sydd eu hangen ar gyfer y datblygiad fynd rhagddynt a chael eu hystyried ar yr un pryd a bod yn rhan o'r un caniatâd. Bydd hyn yn sicrhau proses gyson sy'n effeithlon yn weinyddol ar gyfer penderfynu ar seilwaith ynni, gwastraff, dŵr a thrafnidiaeth mawr yng Nghymru.

### *Polisi clir a chyson*

- 1.25 Ynghyd â'r broses rhoi caniatâd, byddai trothwyon a pholisi clir yn cael eu cyflwyno ar gyfer asesu prosiectau unigol. Bydd darparu llwybr pendant ar gyfer ceisiadau a sefydlu egwyddor datblygiad penodol mewn polisi yn rhoi mwy o sicrwydd o ran canlyniadau ac amserlenni, a byddai hyn yn annog buddsoddiad yng Nghymru.

### *Proses hyblyg*

- 1.26 Bydd ffocws ar hyblygrwydd drwy gydol y gwaith o gynllunio'r broses. Gan y gallai'r gyfundrefn ar gyfer Caniatâd Seilwaith yng Nghymru gwmpasu nifer o fathau o brosiectau o feintiau amrywiol, gall dull gweithredu cymesur alluogi mathau penodol o benderfyniadau i gael eu harchwilio a'u gwneud yn gyflym, lle bo'r effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn gyfyngedig. Yn yr un modd, lle bo cynigion unigol yn gymhleth, gellir cyflawni mwy o waith craffu, gan aros o fewn amserlen benodedig ar yr un pryd. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael i ganolbwyntio ar y cynlluniau a materion lle mae craffu a phrofi cyhoeddus yn hanfodol.

### *Atgyfnerthu rôl y gymuned*

- 1.27 Byddai darparu siop un stop yn symleiddio gallu'r cyhoedd a chymunedau i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses o roi Caniatâd Seilwaith yng Nghymru ac yn ei gwneud hi'n haws iddynt gael dweud eu dweud. Rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i ddarpar ymgeiswyr ymgysylltu â chymunedau lleol cyn cyflwyno eu cais er mwyn sicrhau y gall y cynllun gael ei lywio gan sylwadau cymunedau sy'n cynnig lleoliad. Bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol ("ACLLau") yn gwneud cyfraniad penodol at y gwaith o ddogfennu'r effaith ar eu hardal leol. Caiff trafodaethau llawr agored llawn eu cyflwyno i'r broses archwilio er mwyn galluogi cyfranogiad teg a chynhwysol.

### Rhan 3: Diwygiadau i'r gyfundrefn brynu gorfodol yng Nghymru

- 1.28 Yn Rhan 3, gosodwyd gyfres o ddiwygiadau technegol i'r broses brynu gorfodol gan gynnwys meini prawf ar gyfer dirprwyo penderfyniadau gan Arolygwyr ar GBG a gyflwynwyd gan awdurdodau caffael i'w cadarnhau gan Weinidogion Cymru. Hefyd, rydym yn bwriadu ehangu'r pŵer i ddyfarnu costau yng Nghymru mewn perthynas ag ymholiadau GBG sy'n cael eu gwneud i hwyluso defnydd a datblygu tir.

### Amcanion y Llywodraeth

- 1.29 Mae'r cynigion yn y papur hwn yn cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu<sup>10</sup> yn yr ystyr eu bod yn ceisio rhagweld Cymru sy'n ffyniannus ac yn sicr, yn unedig ac yn gysylltiedig o ran gallu gweithredu'n fwy effeithiol ar unrhyw argymhellion a wneir gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn cydnabod bod penderfyniadau cynllunio'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd person a bod y system gynllunio gywir yn allweddol er mwyn

---

<sup>10</sup> [Llywodraeth Cymru – Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, 2016](#)

cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Ceir ymrwymiad penodol yn y strategaeth genedlaethol<sup>11</sup> i sefydlu proses bwrpasol ac unedig ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith sy'n ymateb i anghenion busnes a'r gymuned, er mwyn cefnogi twf economaidd cynaliadwy a datgarboneiddio'r cyflenwad ynni. Mae cynllun gweithredu economaidd<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi hyn.

### **Y camau nesaf**

- 1.30 Nodir cyfres o gwestiynau'r ymgynghoriad yng nghorff y ddogfen hon. Er mwyn gallu cyfeirio atynt yn hawdd, darperir ffurflen ymateb ar wahân ochr yn ochr â'r papur hwn yn *Atodiad B*. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 23 Mehefin 2018.
- 1.31 Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn bwriadu cyflwyno ein cynigion yn Rhan 1 i ddod i rym ar 1 Ebrill 2019. Bydd ein cynigion yn Rhannau 2 a 3 angen Bil Cynulliad i'w gyflwyno maes o law

---

<sup>11</sup> [Llywodraeth Cymru – Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol, 2017](#)

<sup>12</sup> [Llywodraeth Cymru – Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, 2017](#)

## RHAN 1 – TREFNIADAU INTERIM

### 2. Newidiadau i'r cyfundrefnau presennol

#### Newid y trothwyon DAC

- 2.1 Penderfynodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y byddai pwerau newydd mewn perthynas â rhoi caniatâd ynni sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cymru yn dechrau ar 1 Ebrill 2019.
- 2.2 Mae angen newidiadau mawr i'r fframwaith deddfwriaethol er mwyn galluogi trefniant cwbl briodol a phwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd i brosiectau o'r fath. Nid oes modd gwneud hynny cyn 1 Ebrill 2019. Mae Deddf Cymru yn gosod y broses o roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu i mewn i'r broses cynllunio mewn sefyllfa ddiodyn ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir ac mi fydd angen gorsafoedd cynhyrchu alldraeth sy'n is na 350MW caniatâd adran 36 o dan y Ddeddf Trydan gan Weinidogion Cymru a thrwydded forol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ddiodyn hon yn creu nifer o anghysondebau y mae angen eu cywir. Yn y Rhan hon, rydym yn cynnig trefniadau interim ar gyfer y prosiectau cynhyrchu ynni datganoledig arfaethedig hynny. Bwriad y trefniadau interim hyn yw darparu proses ymarferol ar gyfer rhoi caniatâd a byddant yn cywiro'r anghysondebau hyn. Bydd y trefniadau interim hyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a'r dyddiad y daw proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd i rym (gweler Rhan 2).
- 2.3 Er na all y trefniadau hyn ddarparu'r ystod lawn o bwerau sydd eu hangen ar y datblygwr gan Weinidogion Cymru, fel pwerau i awdurdodi gorfodol, maent yn darparu proses resymegol o roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu rhwng 50MW a 350MW a llinellau trydan uwchben hyd at ac yn cynnwys 132KV.

#### *Gorsafoedd cynhyrchu trydan ar y tir*

- 2.4 Ar hyn o bryd, mae pob gorsaf gynhyrchu â chynhwysedd cynhyrchu gosodedig o 10MW i fyny i'r terfyn uchaf datganoledig presennol yn brosiect DAC a gaiff ganiatâd o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Y terfyn uchaf datganoledig yw:
- 50MW ar gyfer pob math o orsaf gynhyrchu ar y tir nad yw'n orsaf wynt ar y tir;
  - Diderfyn ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir.
- 2.5 Mae Deddf Cymru yn codi'r terfyn uchaf datganoledig i 350MW ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir nad ydynt yn orsafoedd gwynt ar y tir. Heb ddiwygio, bydd y broses o roi caniatâd ar gyfer pob gorsaf gynhyrchu sydd ddim yn cynhyrchu o wynt ar y tir rhwng 50MW a 350MW yn rhan o'r broses gynllunio a benderfynir gan ACLlau. Credwn fod hon yn sefyllfa wrthnysig. Mae'r dystiolaeth sy'n sail i'r trothwyon ynni presennol ar gyfer DAC yn dangos bod perfformiad ACLlau o ran gwneud penderfyniadau amserol ar brosiectau ynni mawr yn anfoddhaol. Ni fyddai'n rhesymegol ymdrin â phrosiectau llai ar lefel genedlaethol, gyda phrosiectau cynhyrchu mwy yn cael caniatâd ar lefel leol.

- 2.6 Yn ein hymateb<sup>13</sup> i'r ymgynghoriad ar DAC yn 2015, gwnaethom nodi mai'r amcan yn y tymor canolig fyddai cwmpasu unrhyw brosiectau sydd newydd gael eu datganoli uwchlaw'r terfyn uchaf, sef 50MW, fel DAC. Nid ydym wedi newid y farn hon ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir yn y cyfnod interim, ac rydym yn cynnig ymestyn y trothwy DAC presennol i 350MW ar y tir.

### *Storio a chynhyrchu*

- 2.7 Rydym yn cydnabod bod technolegau'n datblygu a fydd yn arwain at fwy o gynhyrchu glân ac effeithlonrwydd ynni yng Nghymru ac yn helpu'r broses o newid i economi carbon isel. Mae technolegau storio yn datblygu'n gyflym iawn. Mae cost, effeithlonrwydd a datblygiad technolegau storio yn golygu eu bod yn dod yn rhan gyffredin a dichonadwy o'n rhwydweithiau ynni. Rydym yn cefnogi'r broses o gael gwared ar rwystrau i dechnoleg o'r fath.
- 2.8 Rydym wedi cytuno i drin technolegau storio fel dulliau cynhyrchu ynni<sup>14</sup> at ddibenion rhoi caniatâd. Serch hynny, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen i brosiectau o'r fath gael eu trin yn wahanol i brosiectau cynhyrchu confensiynol. Ar hyn o bryd, rhaid i brosiectau storio bach (rhwng 10MW a 50MW) geisio caniatâd cynllunio o dan y broses DAC. Nid oes unrhyw brosiect storio wedi cael caniatâd drwy'r broses hon eto am fod y gost a'r amser sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau yn cael eu hystyried yn rhy uchel i weithredwyr storio. Cyn i'r broses DAC ddod i rym yn 2016, roedd yn ymddangos bod y perfformiad o ran rhoi caniatâd i brosiectau o'r fath yn rhesymol ar lefel leol ac mae effeithiau prosiectau o'r fath yn aml yn fach iawn<sup>15</sup>.
- 2.9 Er mwyn cael gwared ar y rwystrau rhag rhoi caniatâd ac er mwyn adlewyrchu maint ffisegol ac effeithiau technolegau storio sy'n cael eu datblygu, rydym yn cynnig cael gwared ar brosiectau storio o'r broses DAC bresennol, i wneud penderfyniadau ar lefel leol. Credwn fod hon yn ffordd fwy cymesur o benderfynu ar brosiectau o'r fath. Ni fydd y cynnig hwn yn cynnwys cynlluniau pwmp-storio hydrodrydanol sydd, ar sail prosiectau blaenorol, yn parhau i gael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y prosiectau storio hynny sydd â chynhwysedd y tu hwnt i'r terfyn uchaf datganoledig presennol o 350MW.
- 2.10 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn ystyried<sup>16</sup> ffyrdd o symleiddio'r broses gynllunio ar gyfer prosiectau storio ynni a ph'un a ddylai storio barhau i gael ei drin yn yr un modd â chynhyrchu confensiynol. Bydd ein cynigion yn ystyried unrhyw newidiadau deddfwriaethol a wneir neu a gynigir gan Lywodraeth y DU.

---

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – Crynodeb o ymatebion ac ymateb y Llywodraeth, Tachwedd 2015

<sup>14</sup> [Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol – A Smart, Flexible Energy System: A call for evidence, 2016](#)

<sup>15</sup> [Llywodraeth Cymru – Ymchwil i'r Trothwyon a'r Meini Prawf ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru \(Wedi ei Ragnodi o dan a.62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990\), 2017](#)

<sup>16</sup> [Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol – Upgrading our energy system – Smart systems and flexibility plan – Call for evidence question summaries and response from the Government and Ofgem, Gorffennaf 2017](#)

### *Llinellau trydan uwchben datganoledig*

- 2.11 Ar hyn o bryd, mae caniatâd ar gyfer llinellau trydan uwchben yn cael ei roi o dan y Ddeddf Trydan (hyd at 132KV) neu Ddeddf 2008 (132KV a throdd). Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n rhoi'r ddau fath hyn o ganiatâd. Ar 1 Ebrill 2019, mae Deddf Cymru'n gosod y broses o roi caniatâd ar gyfer y llinellau trydan hyn yn y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i ACLlau benderfynu ar brosiectau o'r fath, os ydynt yn gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu sydd gyda gallu cynhyrchu hyd at ac yn cynnwys 350MW neu orsaf cynhyrchu gwynt ar y tir o unrhyw allu cynhyrchu.
- 2.12 Mae rhai pryderon penodol yn gysylltiedig â gosod y broses hon yn y gyfundrefn gynllunio. Mae rhai coridorau seilwaith penodol yng Nghymru yn mynd heibio nifer o ACLlau, er enghraifft ardal Blaenau'r Cymoedd. Gall y gofyniad i gael caniatadau ar wahân gan nifer o ACLlau arwain at oedi yn y broses o ddatblygu seilwaith o'r fath yng Nghymru. At hynny, mae'r diwydiant datblygu yn ystyried bod y broses bresennol o dan y Ddeddf Trydan yn gymesur ac awgryma ein tystiolaeth fod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud fel mater o drefn o dan y trefniant hwn. O ganlyniad i Ddeddf Cymru, ni fydd cydsynio ar gyfer llinellau trydan uwchben mwyach yn parhau drwy gyfundrefn hon.
- 2.13 Awgryma ein tystiolaeth y gall y seilwaith dosbarthu hwn arwain at broblemau o ran yr effaith weledol, yn dibynnu ar ateb peirianneg y llinell drydan. Anaml y mae ACLlau yn gwrthwynebu ceisiadau o'r fath. Petai gwrthwynebiad, byddai hynny'n ysgogi ymchwiliad cyhoeddus yn awtomatig. Credwn y gall y gofyniad statudol hwn i ysgogi ymchwiliad a chymryd rhan ynddo beri i ACLlau osgoi rhoi eu barn resymegol ar gynlluniau o'r fath, oherwydd y goblygiadau ariannol cysylltiedig.
- 2.14 Yn y pen draw, mae angen llinellau trydan uwchben ar gyfer gwydnwch ac effeithiolrwydd gweithredol y rhwydwaith trosglwyddo a dosbarthu trydan. Mae pob elfen o'r rhwydwaith, ni waeth beth yw ei maint, yn allweddol i'r rhwydwaith yn ei gyfanrwydd, gan sicrhau y gellir dosbarthu pŵer mewn modd cynaliadwy a darbodus i gwsmeriaid. Fel rhan o'r ymgyrch i sicrhau ynni adnewyddadwy, rhaid i'r broses gynllunio ystyried goblygiadau cynhyrchu yn llawn. Felly, mae gan brosesau rhoi caniatâd cenedlaethol rôl i'w chyflawni yn y gwaith o ddarparu llinellau trydan yn amserol.
- 2.15 Rydym yn cynnig y dylai pob llinell drydan ddatganoledig gael ei chynnwys yn y broses DAC bresennol<sup>17</sup> am gyfnod interim. O ystyried yr amserlenni statudol hwy, gall hyn olygu bod y broses o roi caniatâd ar gyfer llinellau o'r fath yn cymryd mwy o amser nag a wna ar hyn o bryd.
- 2.16 Awgryma ein tystiolaeth fod Llywodraeth y DU, ar ôl derbyn cais i adeiladu llinell drydan uwchben, yn cymryd rhwng 4 a 6 wythnos ar gyfartaledd ar hyn o bryd i benderfynu p'un a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer y llinell. Mae gan y broses DAC derfyn amser o 36 wythnos, sy'n gyfnod hwy o lawer. Er bod

<sup>17</sup> A.62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990



penderfyniad diweddar wedi'i wneud ymhell o fewn yr amserlen statudol hon, nid yw hyn yn rhoi'r un lefel o wasanaeth ag y mae datblygwyr yn ei gael nawr.

- 2.17 Ar hyn o bryd, mae Weinidogion Cymru yn benderfynu ar bob prosiect DAC, yn hytrach nag Arolygydd a benodwyd gan y Weinidogion Cymru i archwilio'r cais. Gall penderfyniad ar ôl archwilio'r cais gan Arolygydd gymryd 12 wythnos o'r cyfnod penderfynu 36 wythnos ar gyfer prosiect DAC. Rydym yn cynnig cael gwared ar y gofyniad hwn ar gyfer llinellau trydan uwchben er mwyn sicrhau penderfyniadau mwy amserol. Drwy wneud hyn, bydd Gweinidogion Cymru'n cadw'r pŵer i adfer awdurdodaeth dros y cais DAC os byddant yn ystyried bod hynny'n briodol. Credwn y bydd y newid hwn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng bod yn drwyadl a gwneud penderfyniadau amserol.
- 2.18 Os caiff pwerau i roi caniatâd ar gyfer llinellau trydan datganoledig eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru, bydd angen trosglwyddo eithriadau sy'n atal yr angen am ganiatâd o dan y Ddeddf Trydan<sup>18</sup>. Mae'r eithriadau hyn yn galluogi deiliaid trwyddedau i gyflawni mân waith, gan gynnwys gosodiadau a llinellau dros dro sy'n gysylltiedig ag adeiladau a chyfarpar sydd eisoes yn bodoli, yn gyflym. Er lles parhad i ddatblygwyr ac fel nad oes cais DAC yn ofynnol ar gyfer gwaith cymharol fân, rydym yn bwriadu trosglwyddo'r eithriadau hynny fel datblygiad a ganiateir yn y broses cynllunio gwlad a thref.

**Ffigur 2.1: Trothwyon ynni wedi'u newid ar gyfer DAC**

Y math o ddatblygiad	Trothwy gorfodol arfaethedig
<b>Seilwaith trydan</b>	
<p><b>A. Gorsafoedd cynhyrchu ar y tir (ac eithrio'r rhai sy'n cynhyrchu o wynt ar y tir a nodir yn B a dosbarthiadau storio ynni fel y'u nodir yn C);</b></p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle y disgwylir y bydd ganddi gynhwysedd cynhyrchu gosodedig rhwng 10MW a 350MW</p> <p><b>Newid neu estyniad:</b></p> <p>Newid neu estyniad i orsaf gynhyrchu, lle mae'r effaith yw cynyddu cynnwysedd cynhyrchu gan o leiaf 10MW, fodd bynnag, ni ddylai effaith yr estyniad gynyddu'r gallu cynhyrchu cyffredinol y tu hwnt i 350MW.</p>
<p><b>B. Gorsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir</b></p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle y disgwylir y bydd ganddi gynhwysedd cynhyrchu gosodedig dros 10MW.</p>

<sup>18</sup> A.16(3)(b) o'r Deddf Cynllunio 2008, A.37(2)(a)-(b) o'r Deddf Trydan 1989 a Rheoliadau Llinellau Uwchben (Eithrio) (Cymru a Lloegr) 2009

	<b>Newid neu estyniad:</b> Newid neu estyniad i orsaf gynhyrchu, lle mae ei effaith yw cynyddu cynhwysedd cynhyrchu gan o leiaf 10MW.
<b>C. Storio ynni, ac eithrio pwmp-storio hydrodrydanol.</b>	Ni fydd DAC yn cwmpasu'r dosbarth datblygiad hwn.
<b>D. Llinellau trydan uwchben sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu sy'n cyfateb i ddisgrifiad a nodir yn A-C.</b>	<b>Gosod:</b> Pob llinell drydan uwchben lle y disgwylir i'r foltedd nominal fod hyd at ac yn cynnwys 132KV

Gofynion eraill ar gyfer dechrau prosiectau sydd newydd gael eu datganoli (ar y tir)

- 2.19 Er mwyn dechrau prosiect ynni mawr neu adeiladu llinell drydan uwchben sy'n mynd heibio tir sydd o dan berchenogaeth luosog, mae'n hanfodol bod pwerau i weithredwyr ennill hawliau dros y tir er mwyn adeiladu'r seilwaith angenrheidiol ac er mwyn gallu gosod a gweithredu llinellau yn ddiogel. Mae'r pwerau hyn i weithredwyr wedi'u nodi yn y Ddeddf Trydan<sup>19</sup>.
- 2.20 Rhad i weithredwyr trydan ddal trwydded ar gyfer trosglwyddo a dosbarthu trydan. Yn arferol mae angen caniatâd gan deliaid trwydded i osod eu llinellau trydan a chyfarpar cysylltiedig ar, dros neu o dan dir preifat a chael mynediad i'r tir hwnnw at ddibenion archwilio, cynnal a chadw, atgyweirio, addasu, newid, amnewid neu dynnu'r llinell neu'r cyfarpar. Gan amlaf, gwneir hyn drwy gyd-drafod trefniant cytundebol â'r tîrfeiddiannwr a/neu ddeiliad y tir; gelwir hyn yn fforddfraint wirfoddol. Hefyd, ceir pwerau sy'n golygu bod modd darparu fforddfreintiau angenrheidiol ar gyfer llinellau trydan<sup>20</sup>. Os na all y partiön ddod i gytundeb, gall y deiliad trwydded wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am fforddfraint angenrheidiol. Mae'r pwerau hyn yn bwysig i effeithiolrwydd gweithredol llinellau uwchben.
- 2.21 Yn yr un modd, os na all deiliad trwydded drydan gaffael tir, naill ai'n wirfoddol neu drwy fforddfraint, ceir pwerau i ddeiliaid trwyddedau trydan gaffael tir yn orfodol sy'n angenrheidiol at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â pharhau â'r gweithgareddau y mae'r deiliad trwydded wedi'i awdurdodi i'w cynnal<sup>21</sup>. Gall hyn gynnwys gweithredu gorsaf gynhyrchu, unrhyw is-orsafodded neu linellau trydan.
- 2.22 Ar hyn o bryd, dim ond yr Ysgrifennydd Gwladol a all gymeradwyo fforddfraint angenrheidiol neu orchymyn gaffael tir yn orfodol gan ddeiliad trwydded drydan. Er mwyn darparu rhywfaint o barhad i ymgeiswyr, rydym yn bwriadu ceisio trosglwyddo'r pwerau hyn i Weinidogion Cymru i gyd-fynd â'n prosesau interim ar gyfer rhoi caniatâd.

<sup>19</sup> Atodlenni 3 a 4 i Ddeddf Trydan 1989

<sup>20</sup> Paragraffau 6 ac 8 o Atodlen 4 i Ddeddf Trydan 1989

<sup>21</sup> Atodlen 3 i Ddeddf Trydan 1989

- 2.23 Yn ogystal â hawliau tir, mae angen i ddeiliaid trwyddedau trydan allu gosod a gweithredu llinellau trydan yn ddiogel. Gan fod y rhan fwyaf o linellau dosbarthu wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig, mae'n debygol y byddant yn agos at goed neu lwyni. Mae'r Ddeddf Trydan yn darparu pwerau ar gyfer tocio neu dorri llystyfiant er mwyn cynnal safonau diogelwch a'i glirio at y llinell os yw deiliad y drwydded yn hysbysu deiliad y tir ei fod yn caniatáu iddo wneud hynny a chael gwared ar y rhwystr. Fodd bynnag, gall deiliaid tir anghytuno â chlirio llystyfiant. Mewn achosion o'r fath gall yr Ysgrifennydd Gwladol benderfynu rhoi gorchymyn cwmpo a thocio coed<sup>22</sup>. Rydym hefyd yn bwriadu ceisio trosglwyddo'r pwerau hyn i Weinidogion Cymru os ydynt yn ymwneud â llinellau trydan uwchben datganoledig.
- 2.24 Er na fydd trosglwyddo'r pwerau hyn yn darparu proses cwbl unedig ar gyfer rhoi caniatâd yn y byrdymor, bydd yn rhoi cyfle i gymhathu'r prosesau fforddfraint angenrheidiol neu brynu gorfodol â'r prif ganiatâd, a all arbed amser i ymgeiswyr.

#### Gorsafoedd cynhyrchu ar y môr

##### *Trefniadau interim ar gyfer rhoi caniatâd*

- 2.25 Gan mai dim ond at y marc distyll y mae'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn ymestyn, rhaid i ganiatadau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y môr gael eu trin yn wahanol i orsafoedd cynhyrchu ar y tir yn y cyfnod interim. Y sefyllfa ddiodyfyn a nodir gan Ddeddf Cymru yw y bydd y broses o roi caniatâd ar gyfer prosiectau ar y môr rhwng 1MW a 350MW yn cael ei chyflawni drwy adran 36 o'r Ddeddf Trydan, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Dim ond trwydded forol fydd yn ofynnol ar gyfer prosiectau hyd at 1MW o hyd. Ni welwn unrhyw reswm dros wneud newidiadau i'r sefyllfa hon yn y byrdymor. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn cael pwerau datganoledig i gynnwys datganiadau sy'n dileu hawliau mordwyo cyhoeddus<sup>23</sup> fel rhan o'r caniatâd a datgan parthau diogelwch ar gyfer gwaith gosod ynni adnewyddadwy ar y môr.
- 2.26 Mae angen caniatâd dan y Ddeddf Trydan yng Nghymru rhwng 1MW a 100MW. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gwneud penderfyniadau ar hyn o bryd. Er bod rhai diwygiadau wedi'u gwneud i broses y Ddeddf Trydan yn yr Alban, fe'i defnyddir pwerau o dan y Ddeddf hynny i roi caniatâd ar gyfer y rhan fwyaf o orsafoedd cynhyrchu mawr ar y môr yn ei dyfroedd.
- 2.27 Credwn fod defnyddio proses y Ddeddf Trydan gydag ychydig o ddiwygio yn ateb digonol yn y byrdymor. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw proses y Ddeddf Trydan yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar ddatblygwyr o ran canlyniadau ac amserlenni penderfyniadau, ac nid yw'n darparu'r siop un stop sydd ei angen ar y diwydiant datblygu. Er bod y broblem hon yn parhau, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion a nodir gennym yn Rhan 2 o'r papur hwn fel yr ateb hirdymor.

<sup>22</sup> Paragraff 9 o Atodlen 4 i Ddeddf Trydan 1989

<sup>23</sup> A.36A o Ddeddf Trydan 1989

## Ffioedd

- 2.28 Drwy gael pwerau datganoledig i roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y môr hyd at 350MW, bydd Gweinidogion Cymru yn etifeddu'r gweithdrefnau cysylltiedig o dan y Ddeddf Trydan. Ers i Ddeddf 2008 ddod i rym, ac ers i'r holl brosesau rhoi caniatâd ar gyfer prosiectau ar y môr dros 1MW gael eu symud o broses y Ddeddf Trydan i'r broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu, prin y mae'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu hyd at 1MW wedi newid, gan gynnwys y lefel ffioedd berthnasol.
- 2.29 Y Ddeddf Trydan, fel y'i diwygiwyd, yw'r prif gyfrwng rhoi caniatâd ar gyfer gorsafoedd ar y tir ac ar y môr yn yr Alban o hyd. Mae Llywodraeth yr Alban wedi gwneud newidiadau mawr i'r ffioedd ar gyfer caniatadau o'r fath er mwyn sicrhau y gellir adennill costau'n llawn yn unol ag egwyddorion cyllid cyhoeddus. Rydym wedi archwilio'r dystiolaeth sy'n sail i'r cynnydd mewn ffioedd yn yr Alban<sup>24</sup> ac ni welwn unrhyw reswm pam na ddylai ffioedd gynyddu yng Nghymru. Er y gall hyn arwain at gynnydd sylweddol mewn lefelau ffioedd mewn rhai achosion, credwn fod y cynyddiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod proses effeithlon sy'n ariannu ei hun ar waith.
- 2.30 Mae ein strwythur ffioedd arfaethedig yn wahanol i'r dull presennol o gyfrifo ffioedd ar gyfer caniatadau a.36 o dan y Ddeddf Trydan a bydd yn gymwys i bob math o gais; adeiladu, ymestyn, gweithredu, newid neu un cais sy'n cyfuno unrhyw rai o'r rhain. Er y gall y dull hwn ymddangos yn fwy cymhleth i'r ymgeisydd, credwn fod hwn yn ddull tecach sy'n ffordd well o adennill costau'n llawn ac sy'n adlewyrchu cymhlethdod ac effeithiau cynnig, yn hytrach na'i allbwn. Mae'r ffioedd a nodir yn Ffigur 2.2 yn seiliedig ar y dystiolaeth sy'n sail i'r broses DAC, sy'n adlewyrchu'r gost nodweddiadol i Weinidogion Cymru weinyddu ceisiadau am ganiatâd i ddatblygu, eu harchwilio a phenderfynu arnynt.

**Ffigur 2.2: Ffioedd arfaethedig ar gyfer rhoi caniatâd ynni ar y môr o dan y Ddeddf Trydan**

	Lefel y ffi
Ffioedd cychwynnol	
Ffi am gyflwyno cais	£15,350
Ffioedd archwilio	
(a) Cyfradd ddyddiol i Weinidogion Cymru archwilio cais ar sail sylwadau ysgrifenedig	£870 y dydd

<sup>24</sup> Llywodraeth yr Alban – 'Fees charged for applications under the Electricity Act 1989 (February 2018)

(b) Cyfradd ddyddiol i Weinidogion Cymru archwilio cais ar ffurf gwrandawriad neu ymchwiliad	£920 y dydd
Ffi benderfynu	
Ffi benodedig i Weinidogion Cymru benderfynu ar gais.	£14,700

### **Cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. **A ydych yn cytuno â'n trefniadau interim ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan ar y tir? Os nad ydych, pam?**
2. **A ydych yn cytuno â'n cynigion byrdymor ynghylch storio trydan? Os nad ydych, pam?**
3. **A ydych yn cytuno â'n trefniadau interim ar gyfer llinellau trydan uwchben? Os nad ydych, pam?**
4. **A ydych yn cytuno â'n trefniadau interim ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan ar y môr? Os nad ydych, pam?**
5. **A ydych yn cytuno â'n cynigion i geisio trosglwyddo pŵer ffyrddfreintiau angenrheidiol a chaffael gorfodol sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu?**


## RHAN 2 – PROSES RHOI CANIATÂD NEWYDD AR GYFER SEILWAITH

### 3. Egwyddorion


#### Gweithredu Deddf Cymru 2017

- 3.1 Pan fydd mewn grym yn llawn, bydd Deddf Cymru yn gwneud nifer o newidiadau i'r prosesau rhoi caniatâd ar gyfer seilwaith. Mae'r Ddeddf, i bob pwrpas, yn dileu swyddogaethau newydd ddatganoledig (Paragraffau 1.9 a 1.10) o'r broses Orchymyn Caniatâd Datblygu ("DCO") a nodir yn Neddf 2008. Yn ei le, gosodwyd y mathau hynny o seilwaith mewn cyfundrefnau eraill sy'n bodoli eisoes.
- 3.2 Y sefyllfa ddiodyn yw bod Deddf Cymru yn gosod y broses o roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir rhwng 50MW a 350MW (ac eithrio gorsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir, sydd eisoes wedi'u datganoli), yn ogystal â llinellau trydan cysylltiedig, yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae Deddf Cymru hefyd yn dychwelyd y broses o roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y môr rhwng 1MW a 350MW i'r Ddeddf Trydan a'r broses o roi caniatâd ar gyfer porthladdoedd a harbyrau datganoledig<sup>25</sup> yn Neddf Harbyrau 1964. Nodir y newidiadau arfaethedig hyn yn *Ffigurau 3.1 a 3.2*.

**Ffigur 3.1: Y prosesau rhoi caniatâd presennol**



**Ffigur 3.2: Newidiadau i'r prosesau rhoi caniatâd sy'n codi yn sgil Deddf Cymru 2017 (gan gynnwys trefniadau interim a nodir yn Rhan 1 o'r ymgynghoriad hwn)**



- PP a.57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Caniatâd Cynllunio)
- DAC a.62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol)
- DCO a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008 (Gorchymyn Caniatâd Datblygu)
- ML a.65 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Trwydded Forol)
- EA a.36 o Ddeddf Trydan 1989 (Caniatâd i adeiladu a gweithredu)
- EA a.37 o Ddeddf Trydan 1989 (Caniatâd i adeiladu a gweithredu)
- HO a.14/a.16 Deddf Harbyrau 1964 (Gorchymyn Harbwr)

\* Mae Adran 22 a S.32 o Ddeddf Cymru 2017 yn cynnwys 'porthladdoedd ymddiriedol neilltuedig' o'r rhai sydd wedi'u datganoli. Mae un porthladd o'r fath yn gymwys yng Nghymru, sef porthladd Aberdaugleddau.

<sup>25</sup> Nid yw A.29 ac A.32 o Ddeddf Cymru 2017 yn cynnwys porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir fel rhai sydd wedi'u datganoli. Mae un porthladd o'r fath yn gymwys yng Nghymru, sef porthladd Aberdaugleddau.

- 3.3 Bydd cyfundrefnau eraill, fel y rhai sydd eisoes wedi cael caniatâd o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, Deddf Priffyrdd 1980 a Deddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 yn aros yn ddigynfnewid o ganlyniad i Ddeddf Cymru.

### **Opsiynau o ran gweithredu**

- 3.4 O ganlyniad i Ddeddf Cymru, mae'n ofynnol diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn sicrhau mae'n weithredol yng Nghymru o ganlyniad i'r bwerau datganoledig newydd. Fodd bynnag, bydd faint o ddeddfwriaeth sydd ei hangen yn amrywio yn ôl y ffordd y caiff y pwerau newydd hynny eu gweithredu.
- 3.5 Wrth weithredu Deddf Cymru, ceir hyblygrwydd i ddewis o ddau opsiwn:
- (a) *Defnyddio cyfundrefnau rhoi caniatâd sydd eisoes yn bodoli, gydag addasiadau*
- 3.6 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu ymestyn trefniadau rhoi caniatâd sydd eisoes yn bodoli o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni datganoledig a llinellau trydan uwchben ar y tir ac ar y môr gan ddefnyddio pwerau sydd eisoes yn bodoli o dan y Ddeddf Trydan, a Deddf Harbyrau 1964 i roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y môr yn nyfroedd Cymru a gwaith ar borthladdoedd a harbyrau.
- (b) *Cyflwyno trefniadau unedig a phwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd ar y tir ac yn nyfroedd Cymru*
- 3.7 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu sefydlu cyfundrefn unedig 'siop un stop' ar gyfer rhoi caniatâd i brosiectau ynni ar y tir ac yn nyfroedd Cymru yn ogystal â phorthladdoedd a harbyrau. Ynghyd â threfniadau rhoi caniatâd, byddai polisi clir yn cael ei gyflwyno ar gyfer asesu prosiectau unigol.
- 3.8 Ar gyfer yr opsiwn hwn, bydd angen math cwbl newydd o ganiatâd a all alluogi Gweinidogion Cymru i roi caniatâd ar gyfer prosiectau ynni a phorthladdoedd a harbyrau perthnasol, yn ogystal ag awdurdodiadau neu drwyddedau eraill sydd eu hangen i hwyluso'r datblygiad ar yr un pryd neu fel rhan o'r un caniatâd. Mae'r opsiwn hefyd yn rhoi cyfle i greu proses gyson ar gyfer mathau eraill o seilwaith, fel priffyrdd, meysydd awyr a chynlluniau dŵr.
- 3.9 Cynhaliwyd asesiad o fanteision ac anfanteision yr opsiynau a nodir hwnnw yn *Ffigur 3.3*.

### **Cyfundrefnau rhoi caniatâd sydd eisoes yn bodoli**

- 3.10 Ceir nifer o gyfundrefnau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried p'un a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer datblygu gorsafoedd cynhyrchu datganoledig, llinellau trydan, datblygiadau o gwmpas y marc distyll megis porthladdoedd neu harbyrau, a seilwaith sydd eisoes wedi'i ddatganoli fel argaeau a chronfeydd dŵr a seilwaith trafniadaeth fel ffyrdd, meysydd awyr a rheilffyrdd.

- 3.11 Bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu'n uniongyrchol am geisiadau o dan y cyfundrefnau hyn ac, mewn rhai achosion, bydd y gwaith hefyd yn cael ei hyrwyddo gan Weinidogion Cymru. Mae'r weithdrefn yn amrywio yn dibynnu ar y gyfundrefn, ond ceir nifer o gamau y mae'n rhaid i brosiectau arbennig o fawr fynd drwyddynt.
- 3.12 Gall fod gofynion am raddau amrywiol o ymgynghori cyn gwneud cais statudol, gan gynnwys nodi opsiynau'r cynllun gyda'r bwriad o bennu cynllun a ffefrir. Yn dilyn hyn, gwneir cais i Weinidogion Cymru o dan y pwerau statudol. Yn gyffredinol, cynhelir archwiliad gan Arolygydd Cynllunio annibynnol ar ôl hynny, a all hefyd gynnwys ymchwiliad cyhoeddus er mwyn ystyried y cais yn fanwl yn achos unrhyw wrthwynebiadau. Yna, bydd yr Arolygydd yn llunio adroddiad ac argymhellion i Weinidogion Cymru benderfynu p'un a ddylid rhoi'r pwerau a'r caniatadau sy'n angenrheidiol i brosiect fynd rhagddo.

### **Yr achos dros newid**

- 3.13 Gall y broses nodweddiadol uchod fod yn feichus i'r ymgeisydd a gall gymryd llawer o amser i wneud penderfyniad, a hynny'n aml heb fod modd rhagweld faint o amser, gan nad oes amserlenni statudol ar gyfer unrhyw rai o'r prosesau hyn. Gall hyn arwain at lawer o ansicrwydd a chostau sylweddol i bob parti, yn ogystal â chael effaith andwyol ar eu gwaith cynllunio. Gall yr oedi yn y broses o gyflenwi seilwaith allweddol gael effeithiau niweidiol ar gymunedau, busnesau, yr economi a'r amgylchedd ac, mewn rhai achosion, atal hyrwyddwyr rhag cyflwyno prosiectau newydd. Gall hyn fygwth gallu Cymru i gyflenwi'r seilwaith sydd ei angen a darparu ffyniant i bawb.
- 3.14 Oherwydd yr amser a'r costau posibl na ellir eu rhagweld sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn archwiliad, gall fod yn anodd i gyfranogwyr a'r gymuned gymryd rhan a lleisio'u barn. At hynny, gall y ffaith bod prosesau gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o seilwaith fod yn ddryslyd. Yn aml, gall hyn olygu bod mantais i'r rhai sydd â'r mwyaf o amser ac adnoddau a'r wybodaeth orau. Gellir ystyried bod hyn yn annheg.
- 3.15 Awgryma ein tystiolaeth fod achos dros uno'r cyfundrefnau rhoi caniatâd presennol ar y sail ganlynol:

#### *Cysondeb*

- 3.16 Mae'r cyfundrefnau rhoi caniatâd presennol yn amrywio o ran cysondeb ac mae'r prosesau wedi'u gwasgaru dros gyfres o Ddeddfau sydd wedi cael eu haddasu'n sylweddol, ac mae hyn yn gallu bod yn ddryslyd i'r defnyddiwr. Sefydlwyd y drefn ar gyfer rhai cyfundrefnau rhoi caniatâd penodol mor gynnar â 1964 ac nid ydynt yn briodol mwyach ar gyfer rhoi caniatâd ar gyfer seilwaith ar raddfa fawr. Bydd sicrhau mwy o gysondeb yn arwain at benderfyniadau mwy cymwys ac yn cael gwared ag oedi yn y broses.

#### *Sicrwydd*

- 3.17 Gellir beirniadu rhai prosesau rhoi caniatâd sy'n bodoli eisoes ar gyfer seilwaith am fod yn araf ac yn aneffeithlon, heb amserlen bendant ar gyfer



gwneud penderfyniad. Gall hyn olygu bod materion yn cael eu hymarfer, eu datblygu a'u lliniaru ar y cam archwilio, sef proses sy'n cymryd llawer o amser ac nad yw'n annog yr ymgeisydd i ymgynghori'n effeithiol cyn gwneud cais.

#### *Tebygolrwydd o lwyddiant*

- 3.18 Ar gyfer llawer o gyfundrefnau, nid oes polisi clir yn sail i'r broses gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd ynghylch p'un a fydd cais yn llwyddiannus, a gall olygu bod polisi'n cael ei ddehongli'n wahanol neu'n cael ei bwysoli'n anghyson o un achos i'r llall. O ran seilwaith mawr, mae'n bwysig bod fframwaith strategol clir er mwyn galluogi buddsoddiad cychwynnol. Gall y ffaith nad oes fframwaith polisi clir annog hyrwyddwyr gwaith i beidio â chyflwyno cynigion. Gall hyn arwain at oedi sylweddol ar y cam archwilio gan y byddai polisi clir yn golygu nad oes angen trafod egwyddor y prosiect yn fanwl.

#### *Ansawdd ceisiadau*

- 3.19 Er y ceir eithriadau, nid yw'n ymddangos bod hyrwyddwyr gwaith yn paratoi ceisiadau o safon ddigonol i wrthsefyll archwilio trwyadl. At hynny, nid yw hyrwyddwr bob amser yn ymgysylltu ar gam digon cynnar â phartïon allweddol megis ymgynghoreion statudol ac nid ydynt bob amser yn ymgynghori'n ddigon eang â'r gymuned leol. Gall hyn olygu bod aelodau o'r cyhoedd yn teimlo weithiau na fu modd iddynt ddylanwadu ar ddatblygiad prosiect. Gall y sefyllfa hon hefyd achosi problemau i'r hyrwyddwr, yn yr ystyr y gall problemau nad oedd yn ymwybodol ohonynt cyn cyflwyno'r cais ddod i'r amlwg yn ystod ymchwiliad. Gall lliniaru'r problemau hynny fod yn gostus i hyrwyddwr y cynllun.

#### *Dryswch*

- 3.20 Mae'r cyfundrefnau rhoi caniatâd sydd eisoes yn bodoli yn aml yn canolbwyntio ar b'un a yw gwrthwynebiadau'n ysgogi'r angen am ymchwiliad cyhoeddus. Gall prosesau o'r fath fod yn ddeddfol ac yn wrthwynebus, sydd hefyd yn gallu bod yn ddigon i godi ofn ar y rhai sydd am gymryd rhan yn y broses yn effeithiol. Mae angen prosesau mwy cynhwysol er mwyn i safbwyntiau gwerthfawr gael eu cynnig a'u hystyried.

#### *Cymhlethdod*

- 3.21 Nid yw'r ffaith bod cynllun yn cael caniatâd i ddatblygu o reidrwydd yn golygu y gellir ei roi ar waith ar unwaith. Ar gyfer seilwaith mawr, yn aml mae angen caniatadau, trwyddedau neu awdurdodiadau pellach o dan gyfundrefnau gwahanol i'r gyfundrefn rhoi caniatâd ar gyfer datblygiad er mwyn rhoi cynllun ar waith. Mae'r diffyg siop un stop yn gallu golygu bod gwaith a gweithdrefnau'n cael eu dyblygu. Gall hyn gynyddu costau ceisiadau yn sylweddol, a rhwystro pobl rhag cyflwyno cynigion a pheri rhwystredigaeth a dryswch i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y broses.

## Opsiynau a'r opsiwn a ffefrir

- 3.22 O ddadansoddi'r achos dros newid a'r opsiynau sydd ar gael, mae'n amlwg y ffefrir sefydlu trefniadau unedig a phwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith ar y tir ac yn nyfroedd Cymru. Mae creu cyfundrefn rhoi caniatâd unedig yn dangos yn glir ddyheadau a gallu Llywodraeth Cymru i ysgwyddo rhagor o gyfrifoldeb datganoledig mewn perthynas ag ynni a seilwaith arall.

**Ffigur 3.3: Manteision Opsiwn (a) a (b)**

<b>Opsiwn (a): Defnyddio cyfundrefnau rhoi caniatâd sydd eisoes yn bodoli.</b>	<b>Opsiwn (b): Cyflwyno trefniadau rhoi caniatâd unedig a phwrpasol.</b>
Mae'n debygol y bydd datblygwyr yn gyfarwydd â rhai o'r cyfundrefnau rhoi caniatâd sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys DAC, gorchmynion diwygio a grymuso harborau a chaniatadau o dan y Ddeddf Trydan.	Gallai Cymru gael mantais o gael cyfundrefn rhoi caniatâd fodern a chyflymach, sy'n rhoi mwy o sicrwydd ac yn arwain at benderfyniadau cyflymach, gan annog datblygiadau ynni a seilwaith priodol. Mae hyn yn cael gwared ar y broblem ynglŷn â natur anrhagweladwy'r trefniadau presennol.
Ychydig iawn o newid fydd ei angen i'r ddeddfwriaeth bresennol, sydd felly'n arbed amser a chost i bob parti yn y byrdymor.	Gellid sicrhau mwy o gysondeb ym maes rhoi caniatâd ynni a mathau eraill o seilwaith mawr yng Nghymru, sy'n cynnig mwy o eglurder o ran y broses gywir. Byddai dewis proses o'r fath yn cyfleu'r neges bod Cymru'n agored ar gyfer busnes.
Dim ond nifer fach o brosiectau sy'n ceisio caniatâd ar hyn o bryd. Byddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau llai o darfu yn y byrdymor.	Ceir potensial i symleiddio'r broses rhwng cynhyrchu ar y tir ac ar y môr.
	Gellir llunio proses fwy hyblyg ar gyfer rhoi caniatâd sy'n gallu ymateb yn well i newidiadau, heriau a chostau yn y dyfodol.
	Gallai cyfundrefn rhoi caniatâd unedig alluogi'r datblygwr i gyfuno caniatadau cysylltiedig neu atodol mewn un caniatâd. Mae'r dull 'siop un stop' wedi'i brofi a'i gefnogi gan y diwydiant datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Prin iawn y byddai angen addasiadau gan ddatblygwyr i sefydlu proses debyg.
	Gall cyfundrefn rhoi caniatâd dameidiog nad yw'n unedig olygu bod awdurdodiadau a thrwyddedau eraill yn achosi oedi yn y broses o roi cynllun ar waith.
	Gall cadw cyfundrefnau sydd eisoes yn bodoli, sy'n haenog ac yn dod o dan Ddeddfau ar wahân, fod yn ddryslyd i randdeiliaid.

- 3.23 Gall defnyddio prosesau sydd eisoes yn bodoli, wedi'u haddasu, fod yn ateb byrdymor digonol. Fodd bynnag, ni all ddarparu'r dull 'siop un stop' y mae'r diwydiant datblygu yn ei gefnogi, a bydd y prosesau sydd eisoes yn bodoli yn dal i fod yn gymharol gymhleth ac anhygyrch i gymunedau a defnyddwyr eraill. Bydd proses bwrpasol yn helpu Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion Cymru o ran seilwaith a gellir ei haddasu yn ôl anghenion y dyfodol.
- 3.24 Bydd proses rhoi caniatâd unedig yn datrys rhai o'r problemau sy'n gysylltiedig â chyfundrefnau rhoi caniatâd tameidiog, a gall sicrhau dull sy'n haws i ddatblygwyr a chymunedau ei ddefnyddio. Mae rhai mathau penodol o ddatblygiad yn cwmpasu ardaloedd ar y tir ac ar y môr (fel morlynnoedd llanw a newidiadau i harbyrau) ac maent yn ddarostyngedig i awdurdodaethau ar

wahân. Byddai proses unedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfuno caniatadau ac awdurdodiadau eraill sydd eu hangen i hwyluso datblygiad mewn dull 'siop un stop' sy'n hanfodol ar gyfer cyflenwi seilwaith yng Nghymru.

- 3.25 Ar gyfer y prosiectau seilwaith hynny sy'n dal i fod yn arwyddocaol o ran eu cyfraniad at economi Cymru, ond nad ydynt mor gymhleth o ran eu heffeithiau na'r caniatadau sydd eu hangen (er enghraifft, storio ynni a llinellau trydan uwchben), ceir cyfle o hyd i ailystyried yr ystod o brosesau rhoi caniatâd sydd wedi'u datganoli ar hyn o bryd a darparu cyfundrefn rhoi caniatâd haenog a chymesur o fewn un broses gwneud cais.

### **Egwyddorion**

- 3.26 Mae seilwaith cydnerth i ddarparu dŵr, ynni a thrafnidiaeth yn hanfodol i sicrhau ffyniant i bawb. Heb y pethau hyn, byddai problemau fel mwy o lygredd, prinder ynni a thagfeydd yn digwydd. Dylai seilwaith yng Nghymru ategu a dangos ein huchelgais i sicrhau ffyniant i bawb. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall seilwaith o'r fath gael effeithiau anghymesur ar gymunedau cyfagos.

- 3.27 Yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd o'r trefniadau rhoi caniatâd presennol, dylai unrhyw gyfundrefn yn y dyfodol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru gynnwys y nodweddion canlynol:

*Proses dryloyw, cyson a syml, ond trwyadl, sy'n atgyfnerthu rôl cymunedau lleol*

- 3.28 Un agwedd sylfaenol ar y gyfundrefn rhoi caniatâd yw'r ffordd y mae cymunedau'n lleisio'u barn ar gynigion ar gyfer datblygu seilwaith a all gael effaith arnynt o bosibl. Ein nod yw creu proses effeithiol o ymgysylltu â'r gymuned. Rydym yn cynnig cyflwyno proses unedig gwbl newydd yn lle cyfundrefnau rhoi caniatâd lluosog. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau ynghylch seilwaith mewn modd amserol, effeithlon, cyson a rhagweladwy. Drwy wneud hynny, byddai gallu'r cyhoedd a chymunedau i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses o roi caniatâd i brosiectau seilwaith yn symlach ac yn well.
- 3.29 Rhaid i benderfyniadau ynghylch prosiectau seilwaith sicrhau bod buddiannau cymunedau lleol yn cael eu hystyried. Er bod manteision clir yn gysylltiedig â chefnogi'r broses o ddarparu seilwaith i Gymru yn ei chyfanrwydd, mae'n bosibl y bydd unrhyw ganlyniadau negyddol yn effeithio ar y bobl sy'n byw agosaf ato. Bydd y trefniadau rhoi caniatâd arfaethedig yn sicrhau bod buddiannau cymunedau yn cael eu hystyried. Hefyd, bydd gan ACLlau rôl gynrychioladol gref yn y broses o helpu i lywio seilwaith yn eu cyfryw ardaloedd.
- 3.30 Er mwyn helpu i gyflawni'r amcan hwn, cynigir y dylid sicrhau ceisiadau o safon uchel drwy ei gwneud hi'n ofynnol cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais, sy'n bodloni gofynion sylfaenol ac yn annog safonau arfer gorau. At hynny, byddwn yn gosod cyfyngiadau o ran i ba raddau y gellir newid cais ar ôl

ei gyflwyno er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd i bob parti o ran yr hyn sydd dan sylw.

- 3.31 Cynhelir y broses rhoi caniatâd arfaethedig o fewn amserlen statudol a bydd yn cynnwys camau cyson y bydd cymunedau, ACLlau ac ymgylgoreion yn eu cymryd ym mhob achos. Bydd yn ofynnol i'r partïon hyn gael eu cynnwys cyn i gais gael ei gyflwyno er mwyn sicrhau y gellir ffurfio unrhyw gynllun gyda'u sylwadau mewn golwg. Bydd cyfle pellach i wneud sylwadau ar ôl i gais gael ei gyflwyno. Hefyd, bydd yn ofynnol i ACLlau gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol, sy'n dogfennu'r effaith ar yr ardal leol ac yn sicrhau y gellir ystyried barn y bobl leol.
- 3.32 Yn ystod y broses o archwilio cynnig, rydym yn bwriadu cyflwyno'r gallu i aelodau o'r cyhoedd siarad fel rhan o drafodaeth llawr agored, gan sicrhau eu bod yn cymryd amlycach yn y broses. Bydd hyn yn sicrhau cyfle teg i'r rhai sydd â diddordeb mewn cynigion datblygu gael eu clywed.

*Bod yn addas at y diben i Gymru a gallu wynebu heriau yn y dyfodol*

- 3.33 Fel arfer, mae Llywodraeth y DU yn rhoi caniatâd seilwaith o dan Ddeddf 2008, ond fe'i hatodir gan gyfundrefnau eraill. Er bod y trefniant rhoi caniatâd hwn yn gweithio'n dda ar lefel Cymru a Lloegr, mae angen dull mwy cymesur a hyblyg ar gyfer y brosiectau sy'n cael eu cydsynio yng Nghymru. Mae'r gallu i ymateb ac addasu yn unol â newidiadau mewn amgylchiadau yn bodloni'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- 3.34 Yn gyntaf, o ran yr hyn a gwmpesir gan y broses, mae technoleg yn datblygu'n gyflym iawn ac mae Cymru'n ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n codi yn sgil twf gwyrdd a'r economi gylchol. Mae sicrhau bod y broses rhoi caniatâd gywir ar waith ar gyfer technolegau unigol yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw cynllunio'n rhwystr rhag datblygu economaidd. Yn unol â hynny, rydym yn cynnig cyflwyno proses unedig ymatebol y gellir newid ei throthwyon mynediad mewn ymateb i dueddiadau technolegol a ffactorau eraill.
- 3.35 Yn ail, mae angen hyblygrwydd o ran y broses ei hun. Rhagwelir y gallai cyfundrefn rhoi caniatâd unedig gwmpasu nifer o fathau o brosiect o feintiau amrywiol. Yn unol â hynny, rydym yn bwriadu cyflwyno archwiliad hyblyg ar gyfer cynlluniau. Gall y dull cymesur hwn fod yn fodd i archwilio a gwneud mathau penodol o benderfyniadau yn gyflym, lle bo'r effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn gyfyngedig. Yn yr un modd, lle bo cynigion unigol yn gymhleth, gellir cyflawni mwy o waith craffu, gan aros o fewn amserlen statudol benodedig a phendant ar yr un pryd.

*Symleiddio ac uno'r broses gwneud penderfyniadau*

- 3.36 Mae gwersi wedi'u dysgu o gael cyfundrefn rhoi caniatâd dameidiog yng Nghymru. Er enghraifft, mae cynlluniau mawr sy'n bwysig i economi Cymru a'n sicrwydd ynni wedi bod yn destun oedi am fod angen caniatadau eraill ar ôl cael caniatâd datblygu. Gall cyfundrefn rhoi caniatâd dameidiog nad yw'n

unedig olygu bod caniatadau, awdurdodiadau a thrwyddedau eraill yn achosi oedi yn y broses o roi cynllun ar waith.

- 3.37 Rydym yn cynnig helpu datblygwyr i wella'r ffordd y caiff ceisiadau eu paratoi drwy gyflwyno siop un stop wedi'i symleiddio. Rydym yn bwriadu gwneud y siop un stop hon yn llawer ehangach a mwy integredig na'r prosesau presennol ar gyfer penderfynu ar ganiatâd cynllunio ar gyfer DAC. Bydd y dull hwn yn galluogi datblygwyr i wneud cais am yr amryw ganiatadau eraill sy'n ofynnol i roi cynllun ar waith, petaent yn dymuno. Bydd hyn o fudd i gymunedau am ei fod yn eu galluogi i ymgorffori'r holl sylwadau y maent yn bwriadu eu gwneud ar gynllun fel rhan o broses gwneud cais unedig. Bydd cael gwared ar gyfundrefnau sy'n gorgyffwrdd yn golygu bod llai o waith yn cael ei ddyblygu gan bob parti yn ogystal â lleihau dryswch a blinder ymgynghori ymhlith cymunedau.
- 3.38 Er y gall fod angen archwiliadau hwy o dan y dull hwn, ni fyddai angen yr amser a'r ymdrech a gymerir i gael caniatadau, trwyddedau ac awdurdodiadau ychwanegol. Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael i ganolbwyntio ar y cynlluniau a materion lle mae craffu a phrofi cyhoeddus yn hanfodol.

#### *Gwella safonau presennol gwasanaethau*

- 3.39 I ddangos bod Cymru'n agored i fusnes ac er mwyn ysgogi datblygiad economaidd, mae'n bwysig cynnig cyfundrefn rhoi caniatâd sy'n darparu gwasanaeth o safon uchel. O ganlyniad i Ddeddf Cymru, mae'r broses o roi caniatâd yng Nghymru wedi cael ei gosod mewn cyfundrefnau sydd eisoes yn bodoli nad ydynt yn cynnig yr un sicrwydd o ran amserlenni â Deddf 2008.
- 3.40 I unioni hyn, cynnigir y dylid cyflwyno amserlen statudol sy'n gysylltiedig ag unrhyw gais o dan y gyfundrefn unedig. Nod y cynnig hwn yw lleihau'r amser a gymerir rhwng cyflwyno'r cais a gwneud penderfyniad i lai na blwyddyn ym mhob achos, gyda thargedau statudol byrrach i achosion llai cymhleth. Nod y dull rhoi caniatâd hwn yw gwneud Cymru'n fwy cystadleuol yn economaidd a chefnogi'r broses o newid i economi carbon isel.

#### *Cynnig sicrwydd wrth wneud penderfyniadau*

- 3.41 Bydd proses rhoi caniatâd effeithlon ond yn gweithio'n effeithiol os bydd polisi clir yn sail iddi. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd o ran canlyniadau ac amserlenni, a byddai hyn yn annog rhagor o fuddsoddiad yng Nghymru. Mae gan bawb sy'n rhan o'r broses gynllunio hawl i ddeall y rhesymau dros benderfyniadau a gallant ddisgwyl atebolrwydd gan lunwyr polisïau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- 3.42 Drwy sefydlu egwyddor datblygiad penodol mewn polisi, ni fydd angen ymarfer dadleuon o'r fath ar ôl i gais gael ei wneud a gellir defnyddio archwiliad i drafod materion eraill o bwys megis effeithiau penodol y cynnig ac unrhyw hawliau tir.

- 3.43 Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn cynnig y dylid defnyddio fframweithiau polisi cenedlaethol sydd eisoes yn bodoli, a rhai sy'n dod i'r amlwg, fel Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, Polisi Cynllunio Cymru a pholisïau eraill perthnasol sy'n benodol i bynciau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru i lywio'r broses gwneud penderfyniadau. I wneud penderfyniadau, bydd Gweinidogion Cymru yn gweithio o fewn fframwaith deddfwriaethol a pholisi clir sy'n ystyried angen ar lefel genedlaethol. Credwn fod y dull hwn yn rhoi mwy o dryloywder ac yn sicrhau bod gwahaniaeth clir rhwng pennu polisiau a gwneud penderfyniadau.

### **Gwireddu'r egwyddorion**

- 3.44 Gwnaed newidiadau i'r broses gynllunio drwy gyflwyno a gweithredu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a rhaglen Cynllunio Cadarnhaol sydd wedi'i hategu.
- 3.45 Cyflwynwyd y broses bresennol ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau DAC ym mis Mawrth 2016. Roedd y broses hon yn lliniaru nifer o broblemau mewn perthynas â pherfformiad ACLlau o ran rhoi caniatâd ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy, yn gosod nifer o ganiatadau mewn un penderfyniad ar gyfer prosiectau cymwys ac yn rhoi mwy o sicrwydd drwy gyflwyno terfyn amser statudol.
- 3.46 Wrth i'r broses o wneud cais cynllunio ar gyfer DAC gael ei sefydlu, mae angen gwneud newidiadau er mwyn adlewyrchu pwerau datganoledig. Bydd y diwygiadau DAC yn sail i broses gydlynol a dull cryfach a fydd yn helpu i sicrhau ystod eang o fuddiannau i unigolion, cymunedau, busnesau, cymdeithas a'r amgylchedd.
- 3.47 Er bod y broses bresennol ar gyfer rhoi caniatâd DAC wedi uno cyfundrefn dameidiog yn rhannol, fe'i cynlluniwyd at ddiben penodol ac ar gyfer ystod o brosiectau ac ni all ddarparu proses rhoi caniatâd unedig ar gyfer pob math o brosiect sydd newydd gael ei ddatganoli. Mae hyn yn rhannol oherwydd ei natur gyfyngedig, sef y ffaith mai caniatâd cynllunio o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ydyw yn bennaf. Mae'r cyfyngiad hwn yn golygu'r canlynol:
- Ni all y broses rhoi caniatâd bresennol ar gyfer DAC gwmpasu prosiectau ar y môr, gan fod terfyn y system gynllunio yn dod i ben ar y marc distyll;
  - Ni all y trothwyon a'r meini prawf ar gyfer DAC gwmpasu rhai mathau penodol o seilwaith, fel priffyrdd mawr neu harbyrau, oherwydd rhoddir caniatâd ar eu cyfer o dan gyfundrefnau gwahanol;
  - Gan mai caniatâd cynllunio ydyw, prin yw'r cyfle i greu 'siop un stop' gwirioneddol, a dim ond rhai o'r awdurdodiadau neu gymeradwyaethau eraill sydd eu hangen i roi prosiect ar waith sy'n ddigon cydnaws i wneud cais amdanynt ar yr un pryd a'u rhoi gan yr un awdurdod;
  - Nid oes unrhyw bwerau cydnaws dros gaffael gorfodol neu ffyrddfreintiau angenrheidiol ac nid yw'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn cynnig digon o gwmpas i alluogi ymgeiswyr i ddechrau achosion o'r fath;
  - Nid yw'r broses bresennol yn ddigon hyblyg i sicrhau allbynnau gwahanol, yn dibynnu ar ofynion y datblygwr.

- 3.48 Yn ein barn ni, mae angen gwneud newidiadau er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru gyfundrefn ymarferol a chyson ar waith i dderbyn y cyfrifoldebau hynny sydd newydd gael eu datganoli ac i adlewyrchu dyheadau Cymru ar gyfer datganoli rhagor o bwerau.
- 3.49 Mae'r broses DCO o dan Ddeddf 2008 wedi llwyddo i roi sicrwydd i gymunedau a datblygwyr, gan gynnig dull 'siop un stop' a fframwaith cyson ar gyfer gwneud penderfyniadau. I ategu hyn, mae DAC yng Nghymru wedi llwyddo i symleiddio'r broses gynllunio ar gyfer y prosiectau llai hynny a sicrhau bod modd ymgysylltu'n fwy â'r gymuned. Mae gan y ddwy broses hyn, yn ogystal â phrosesau eraill sydd eisoes yn bodoli fel Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau a chaniatadau o dan y Ddeddf Trydan, nodweddion y gellir eu trosglwyddo i drefniant rhoi caniatâd newydd sy'n diwallu anghenion Cymru.
- 3.50 Yn unol â hynny, cynigir y dylid creu un broses rhoi caniatâd unedig yng Nghymru sy'n adeiladu ar egwyddorion DAC ac sydd â chwmpas ehangach i gynnwys mathau eraill o ganiatâd. Gan y bydd y broses yn cwmpasu amrywiaeth eang o seilwaith, rhaid iddi fod yn hyblyg a gallu amrywio ei hallbwn a'i hamserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau i gyfateb i'r math o brosiect a'i nodweddion.
- 3.51 Bydd y broses yn siop un stop, lle bydd y datblygwr yn gofyn am gael cynnwys awdurdodiadau neu gymeradwyaethau eraill fel rhan o'r caniatâd. Bydd yn ymgorffori'r agweddau hynny ar ymgynghori â'r gymuned sydd wedi gweithio'n dda mewn cyfundrefnau eraill. Bydd y trefniadau newydd yn disodli'r broses DAC bresennol yn ei chyfanrwydd ac yn cael gwared ar brosesau rheoleiddio eraill yn rhannol. Credwn fod hwn yn gam angenrheidiol i ddarparu proses rhoi caniatâd effeithlon a pharhaol.
- 3.52 Bydd gweddill y papur ymgynghori hwn yn nodi sut y bydd proses o'r fath yn gweithio, ei manteision a pha brosiectau penodol a gwmpesir ganddi.

### **Cwestiynau'r ymgynghoriad**

6. **A ydych yn cytuno â'r egwyddorion (a nodir ym *Mharagraffau 3.26 i 3.43*) a fydd yn sail i broses unedig ar gyfer rhoi caniatâd? Os nad ydych, pam?**
7. **A ydych yn cytuno â'n cynigion i gael gwared ar y broses o roi caniatâd seilwaith o'r Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a nodir o dan broses Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a rhoi cyfundrefn gwbl newydd ar gyfer rhoi caniatâd ar waith yn ei lle?**

## 4. Prosiectau cymwys

### Trosolwg

- 4.1 Ym Mhennod 3, gwnaethom nodi ein ffordd o feddwl a'n hegwyddorion ar gyfer gwella'r ffordd yr ymdrinnir â phrosiectau seilwaith. Gan ystyried anghenion mathau amrywiol o seilwaith, mae'r bennod hon yn nodi trothwyon a meini prawf dangosol ar gyfer prosiectau y bydd yn fwyaf priodol eu cwmpasu o fewn trefniant newydd ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith.
- 4.2 Mae Pennod 5 o'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r broses ar gyfer penderfynu ar y prosiectau hyn, a fydd yn arwain at roi Caniatâd Seilwaith yng Nghymru ("CSC"). Bydd y bennod hon yn nodi'r prosiectau y bydd proses CSC yn eu cwmpasu. Gelwir y prosiectau hyn yn Brosiectau Seilwaith yng Nghymru ("PSC"). Bydd y broses PSC yn disodli'r broses DAC bresennol, yn ogystal â fframweithiau statudol eraill. Dangosir y newid arfaethedig yn *Ffigurau 4.1 a 4.2*.

**Ffigur 4.1: Newidiadau i'r prosesau rhoi caniatâd sy'n codi yn sgil Deddf Cymru 2017 (gan gynnwys trefniadau interim a nodir yn Rhan 1 o'r papur ymgynghori hwn)**

	Allbwn is	Allbwn uwch
Ynni (ar y tir)	PP DAC	DCO
Ynni (gwynt ar y tir)	PP DAC	
Ynni (ar y môr)	ML EA*	DCO
Llinellau uwchben penodol	PP EA	
Porthladdoedd a Harbyrau	HO*	

**Ffigur 4.2: Y broses newydd ar gyfer CSC**

	Allbwn is	Allbwn uwch
Ynni (ar y tir)	PP CSC	DCO
Ynni (gwynt ar y tir)	PP CSC	
Ynni (ar y môr)	ML CSC	DCO
Llinellau uwchben	PP CSC	
Porthladdoedd a Harbyrau	HRO*	CSC

PP	a.57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Caniatâd Cynllunio)
DAC	a.62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol)
DCO	a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008 (Gorchymyn Caniatâd Datblygu)
ML	a.65 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Trwydded Forol)
EA	a.36 o Ddeddf Trydan 1989 (Caniatâd i adeiladu a gweithredu)
EA	a.37 o Ddeddf Trydan 1989 (Caniatâd i adeiladu a gweithredu)
HRO	a.14/a.16 Deddf Harbyrau 1964 (Gorchymyn Diwygio Harbwr)
CSC	Caniatâd Seilwaith yng Nghymru Newydd

\* Mae Adran 22 a S.32 o Ddeddf Cymru 2017 yn cynnwys 'porthladdoedd ymddiriedol neilltuedig' o'r rhai sydd wedi'u datganoli. Mae un porthladd o'r fath yn gymwys yng Nghymru, sef porthladd Aberdaugleddau.

- 4.3 Ar y cyfan, y mathau o ddatblygiad a ddiffinnir fel PSC ac felly y bydd angen CSC arnynt fydd y rhai sydd o'r pwys mwyaf i Gymru oherwydd eu buddiannau a'u heffeithiau posibl, er ei bod yn debygol na fydd llawer ohonynt. Mae'n bosibl y bydd nifer o broblemau technegol yn codi yn sgil y rhain a gall



fod angen cyfres o ganiatadau eraill i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, ni fyddai prosiectau o'r fath yn cynnwys rhai sydd ar raddfa fach a fyddai ond yn arwain at effeithiau a buddiannau lleol.

### **Meini prawf cymhwyso**

4.4 Yn y bennod hon, rydym yn nodi dull tair haen o ddynodi prosiectau PSC.

#### Y maen prawf cymhwyso cyntaf: Trothwyon a meini prawf gorfodol

- 4.5 Gan adeiladu ar y broses DAC bresennol, byddwn yn parhau i gynnig bod Gweinidogion Cymru yn ymdrin â cheisiadau ar gyfer prosiectau ynni, dŵr, gwastraff a thrafnidiaeth o arwyddocâd cenedlaethol yng Nghymru. Mae seilwaith o'r fath yn hanfodol i sicrhau ffyniant i bawb.
- 4.6 Credwn ei bod yn bwysig rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau o ran pa broses yw'r broses gywir ar gyfer penderfynu ynghylch seilwaith mawr. Ar gyfer rhai categorïau datblygu, fel cynhyrchu ynni, rheilffyrdd a chronfeydd dŵr, mae'r broses DAC bresennol eisoes yn nodi trothwyon gofynnol<sup>26</sup> sy'n ysgogi'r angen i wneud cais yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.
- 4.7 Cafodd y dadleuon ar gyfer cwmpasu prosiectau cynhyrchu ynni ar y tir a mathau eraill o seilwaith eu hymarfer fel rhan o'r papurau ymgynghori ynghylch Cynllunio Cadarnhaol<sup>27</sup> a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol<sup>28</sup>. Yn y pen draw, penderfynwyd y byddai'r rhan fwyaf o achosion DAC yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad arnynt, naill ai o ganlyniad i gael eu galw i mewn neu fel rhan o apêl ar ôl cael eu gwrthod gan yr ACLI, petaent yn symud drwy'r system Cynllunio Gwlad a Thref. Ni welwn reswm pam na ddylai'r rhesymeg hon barhau i fod yn gymwys i PSCau, yn enwedig os yw'n gysylltiedig â swyddogaethau datganoledig pellach.
- 4.8 Mae profiad o'r broses bresennol ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau ar gyfer DAC a thrafodaethau â'r diwydiant datblygu wedi dangos y dylai'r trothwyon DAC presennol gael eu hadolygu a'u trosglwyddo i broses CSC newydd. Mae gwaith ymchwil<sup>29</sup>, sy'n mireinio ac yn dadansoddi perfformiad ACLIau o ran penderfynu ar brosiectau DAC ac yn adeiladu ar ein sail dystiolaeth flaenorol, wedi'i gwblhau. Rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau â nifer o randdeiliaid a darpar ddatblygwyr technolegau sy'n dod i'r amlwg er mwyn pennu effeithiau'r technolegau hyn, gyda'r nod o ffurfio barn resymegol ar b'un a ddylent gael eu cwmpasu fel PSCau o fewn proses rhoi caniatâd seilwaith well.
- 4.9 Ar gyfer cyfundrefnau eraill, nad ydynt yn rhan o'r broses DAC ar hyn o bryd, fel rhoi caniatâd ar gyfer porthladdoedd a harbyrau a phrosiectau priffyrdd, mae trothwyon wedi'u pennu ar hyn o bryd ar gyfer rhoi caniatâd i brosiectau

<sup>26</sup> Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) 2016

<sup>27</sup> [Llywodraeth Cymru – Cynllunio Cadarnhaol, 2013](#)

<sup>28</sup> [Llywodraeth Cymru – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, 2015](#)

<sup>29</sup> [Llywodraeth Cymru – Ymchwil i'r Trothwyon a'r Meini Prawf ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru \(Wedi ei Ragnodi o dan a.62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990\), 2017](#)

o'r fath yng Nghymru, ond gall y gweithdrefnau fod yn wahanol yn dibynnu ar pwy yw'r ymgeisydd. Awgryma ein tystiolaeth fod y prosesau rhoi caniatâd presennol yn gweithio yn eu cyfanrwydd ar gyfer y rhain ac yn arwain at ganlyniadau amserol. Fodd bynnag, nid yw amseriad na sicrwydd y cyfundrefnau hynny'n foddhaol ar gyfer prosiectau ar raddfa fwy, yn enwedig lle bo effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.

4.10 Cynigir y dylid pennu cyfres o drothwyon a meini prawf drwy adeiladu ar y rhai sydd eisoes yn bodoli a datblygu trothwyon newydd a phriodol lle nad ydynt yn bodoli eto. Bydd datblygu trothwyon newydd yn osgoi'r angen i gynnwys prosiectau bach y mae eu buddiannau a'u heffeithiau ar raddfa leol. Mae ein trothwyon DAC gorfodol arfaethedig yn ystyried y canlynol:

- P'un a yw'r datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol oherwydd ei gymhlethdod a'i effeithiau;
- P'un ai prosiect seilwaith neu brosiect o natur strategol ydyw;
- P'un a oes angen caniatadau eraill ar y prosiect fel arfer, yn ogystal â'r caniatâd datblygu, i'w roi ar waith;
- Perfformiad yr awdurdod rhoi caniatâd presennol o ran rhoi caniatâd ar gyfer y prosiect hwnnw.

#### Yr ail faen prawf cymhwyso: Trothwyon a meini prawf dewisol

4.11 Mae ein profiad a'n hymchwil<sup>30</sup> wedi awgrymu nad yw allbwn prosiect o reidrwydd yn pennu graddfa ei effeithiau. Ar gyfer mathau penodol o brosiect, mae'n bosibl na fydd trothwy meintiol syml yn ddigon i bennu p'un a yw prosiect o arwyddocâd a chymhlethdod o'r fath yn deilwng o gael caniatâd drwy broses rhoi caniatâd unedig.

4.12 Mae gan y broses DAC bresennol amserlen statudol o 36 wythnos<sup>31</sup> o dderbyn cais i wneud penderfyniad ond 8 neu 16 wythnos sydd gan ACLlau<sup>32</sup> i benderfynu ar gais cynllunio, yn dibynnu ar b'un a yw'r datblygiad dan sylw yn gymwys fel datblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhesymau dros y broses DAC yn seiliedig ar bryderon ynghylch amseru penderfyniadau gan ACLlau ar brosiectau seilwaith<sup>33</sup>.

4.13 O ystyried y terfynau amser statudol ac yn seiliedig ar y profiad o'r broses bresennol ar gyfer penderfynu ar brosiectau DAC, rydym wedi ein darbwyllo nad yw o reidrwydd yn gyfrwng addas na chymesur ar gyfer rhoi caniatâd i rai o'r prosiectau hynny a gwmpesir fel rhan o'r trothwyon DAC ar hyn o bryd yn hytrach na'r prosesau lleol a weinyddir gan yr ACLI. Mae'n bosibl ei bod yn well gwneud penderfyniadau ynghylch rhai ceisiadau ar lefel leol o hyd.

4.14 Er enghraifft, gall y broses bresennol ar gyfer penderfynu ar brosiectau DAC gwmpasu gorsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir â chynhwysedd o 20MW. Fel arfer, bydd datblygiad o'r fath yn arwain at effeithiau economaidd ac

<sup>30</sup> [Llywodraeth Cymru – Ymchwil i'r Trothwyon a'r Meini Prawf ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru \(Wedi ei Ragnodi o dan a.62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990\), 2017](#)

<sup>31</sup> A.62L o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

<sup>32</sup> Erthygl 22 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

<sup>33</sup> [Llywodraeth Cymru – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, 2015](#)

amgylcheddol sylweddol ac awgryma'r dystiolaeth fod perfformiad ACLlau o ran rhoi caniatâd i ddatblygiadau o'r fath wedi bod yn anfoddhaol. Mae'r broses bresennol hefyd yn cwmpasu technoleg carbon isel arall fel storio mewn batris â'r un allbwn. Fodd bynnag, prin yw effaith, ôl troed ac effeithiau amgylcheddol technoleg batris fel arfer, ond eto fe'i cwmpesir fel prosiectau DAC. At hynny, awgryma ein dystiolaeth fod perfformiad ACLlau o ran rhoi caniatâd i gynlluniau batris cyn 2016 yn dda a bod caniatâd o'r fath wedi bod yn cael ei roi o fewn eu hamserlenni statudol byrrach.

- 4.15 Mae'r enghraifft hon yn dangos nad yw trothwy gorfodol pendant o reidrwydd yn briodol ym mhob achos ac efallai na fydd yn ymateb yn dda i dechnolegau sy'n newid. I rai datblygwyr, mae'r broses DAC wedi eu hatal rhag cyflwyno prosiectau o'r fath, gan nad yw'r gost na'r amser yn gydnaws â'r elw llai sy'n gysylltiedig â datblygu ar raddfa fach. Nid yw hyn yn cyfleu'r neges gywir bod Cymru'n agored i dechnolegau newydd a rhai sy'n datblygu, ac nid yw'n adlewyrchu amcanion y Llywodraeth o ran Twf Gwyrdd.
- 4.16 Er bod yn rhaid i ni hyrwyddo sicrwydd fel rhan o'r broses gywir i bob parti, mae'n amlwg bod angen rhywfaint o hyblygrwydd wrth nodi pa brosiectau sy'n gymwys ar gyfer proses rhoi caniatâd unedig a mwy trwyadl.
- 4.17 Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno haen o drothwyon a meini prawf PSC dewisol sy'n dal i fod yn yr un categorïau â'r trothwyon a'r meini prawf gorfodol hynny ar gyfer prosiectau seilwaith, ond oddi tanynt. Ar gyfer y prosiectau dewisol hyn, credwn mai mater i'r datblygwr yw penderfynu pa broses fydd fwyaf addas i'r math o ddatblygiad, ac rydym yn dal i gynnig y dylai cymunedau fod yn ymwybodol o'r broses a ddefnyddir i fwrw ymlaen â chais ar gam cynnar. Fodd bynnag, er tegwch i gymunedau, rydym yn cynnig y dylid gwahardd ymgeiswyr rhag gwneud cais dewisol i'r awdurdod rhoi caniatâd arferol ochr yn ochr â chais arall.
- 4.18 Credwn y bydd y dull gweithredu hwn mewn perthynas â'r trothwyon a'r meini prawf yn galluogi'r prosiectau mwy cymhleth hynny i fynd rhagddynt drwy broses rhoi caniatâd unedig, tra gall y prosiectau llai cymhleth hynny nad oes angen amryw ganiatadau eraill arnynt barhau i fynd at yr ACLI am benderfyniad amserol.

#### Y trydydd maen prawf cymhwys: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru

- 4.19 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru ("FfDC") yw'r cynllun defnydd tir cenedlaethol i Gymru. Bydd y cynllun yn nodi ble mae angen twf a seilwaith sydd o bwys cenedlaethol a sut mae'r system gynllunio'n helpu i'w cyflenwi.
- 4.20 Mae pwerau sydd eisoes yn bodoli<sup>34</sup> yn galluogi datblygiadau sydd wedi'u dynodi o fewn y FfDC i gael eu dynodi'n ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, ac felly fynd rhagddynt o dan y broses rhoi caniatâd ar gyfer DAC. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch unrhyw ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol a nodir yn y FfDC ond nas cwmpesir gan y

<sup>34</sup> A.62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

trothwyon a'r meini prawf ar gyfer DAC yn dal i gael ei wneud ar lefel genedlaethol.

- 4.21 Ni welwn unrhyw reswm dros newid y sefyllfa hon ac rydym yn cynnig y dylai penderfyniadau ynghylch datblygiadau y dynodir eu bod o arwyddocâd cenedlaethol barhau i gael eu gwneud ar lefel leol, ond drwy'r trefniadau CSC newydd hyn. Rydym hefyd yn cynnig y dylai unrhyw ddynodiad yn y FfDC fod yn drech na'r gallu i gyflwyno cais i'r awdurdod rhoi caniatâd arferol o dan ein cynigion ar gyfer prosiectau seilwaith dewisol. Bydd yn ofynnol i bob prosiect a ddynodir yn y FfDC fel prosiect o arwyddocâd cenedlaethol fynd drwy'r trefniadau seilwaith cenedlaethol, ni waeth p'un a yw'n fath o ddatblygiad y nodir ei fod yn 'dewisol' mewn deddfwriaeth.

### Sut y caiff prosiectau eu nodi

#### Meini prawf gorfodol a dewisol

- 4.22 Y bwriad yw nodi'r meini prawf penodedig ar gyfer PSC mewn deddfwriaeth, gyda'r opsiwn i newid trothwyon a meini prawf y prosiectau drwy offeryn statudol. Nod hyn yw rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr, gan allu ymateb yn gyflym i newidiadau mewn amgylchiadau ar yr un pryd, er enghraifft cyflwyno technolegau newydd neu lle y caiff rhagor o bwerau mewn perthynas ag ynni a phrosiectau seilwaith eraill eu datganoli i Gymru yn y dyfodol o bosibl.
- 4.23 Wrth nodi trothwyon a meini prawf, ni fyddwn yn effeithio ar unrhyw hawliau datblygu presennol a ganiateir sydd gan ymgymerydd statudol a phersonau eraill. Mae'r prosiectau a nodir yn y rhestr isod yn gymwys i ddatblygu ar y tir ac ar y môr, a byddant yn cael eu hadolygu'n gyson.

**Ffigur 4.3: Trothwyon PSC gorfodol a dewisol arfaethedig**

Y math o ddatblygiad	Trothwy PSC gorfodol arfaethedig	Trothwy PSC dewisol arfaethedig
<b>1. Seilwaith trydan</b>		
<b>1A. Gorsafoedd cynhyrchu ar y tir (ac eithrio'r rhai sy'n cynhyrchu o wynt ar y tir a nodir yn 1C a dosbarthiadau storio ynni fel y'u nodir yn 1D);</b>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle y disgwylir y bydd ganddi gynhwysedd cynhyrchu gosodedig rhwng 50MW a 350MW</p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle y disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gynhwysedd gosodedig rhwng 10MW a 50MW.</p> <p><b>Newid neu ymestyn:</b></p> <p>Newid neu ymestyn gorsaf gynhyrchu lle bo hynny'n cynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu gosodedig 10MW o leiaf, ond ni chaiff effaith yr estyniad gynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu cyffredinol y tu hwnt i 350MW.</p>

<p><b>1B. Gorsafodd cynhyrchu ar y môr</b></p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle y disgwylir y bydd ganddi gynhwysedd cynhyrchu gosodedig rhwng 50MW a 350MW</p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle y disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gynhwysedd gosodedig rhwng 1MW a 50MW.</p> <p><b>Newid neu ymestyn:</b></p> <p>Newid neu ymestyn gorsaf gynhyrchu lle bo hynny'n cynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu gosodedig 1MW o leiaf, ond ni chaiff effaith yr estyniad gynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu cyffredinol y tu hwnt i 350MW.</p>
<p><b>1C. Gorsafodd cynhyrchu gwynt ar y tir</b></p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle y disgwylir y bydd ganddi gynhwysedd cynhyrchu gosodedig dros 50MW.</p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle y disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gynhwysedd gosodedig rhwng 10MW a 50MW.</p> <p><b>Newid neu ymestyn:</b></p> <p>Newid neu ymestyn gorsaf gynhyrchu lle bo hynny'n cynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu gosodedig 10MW o leiaf.</p>
<p><b>1D. Storio ynni, ac eithrio pwmp-storio hydrodrydanol.</b></p>	<p>Nid oes trothwy gorfodol wedi'i osod.</p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Adeiladu cyfleuster storio, lle y disgwylir y bydd ganddo gynhwysedd storio rhwng 10MW a 350MW.</p> <p><b>Newid neu ymestyn:</b></p> <p>Newid neu ymestyn cyfleuster storio, lle bo hynny'n cynyddu'r cynhwysedd storio 10MW o leiaf, ond ni chaiff effaith yr estyniad gynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu cyffredinol y tu hwnt i 350MW.</p>
<p><b>1E. Llinellau trydan uwchben sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu sy'n cyfateb i ddisgrifiad a nodir yn 1A-1D.</b></p>	<p><b>Gosod:</b></p> <p>Disgwylir y bydd gan y llinell drydan uwchben foltedd nominal o 132KV ac y bydd o leiaf 2KM o hyd</p>	<p><b>Gosod:</b></p> <p>Disgwylir y bydd gan y llinell drydan uwchben foltedd nominal o lai na 132KV; neu</p> <p>Disgwylir y bydd gan y llinell drydan uwchben foltedd nominal o 132KV ac y bydd yn llai na 2KM o hyd.</p>

		<p><b>Newid neu uwchraddio:</b></p> <p>Unrhyw newid neu estyniad i linell drydan uwchben hyd at ac yn cynnwys 132KV.</p>
<p><b>2. Olew, nwy a mwynau</b></p>		
<p><b>2A. Cyfleusterau storio nwy tanddaearol</b></p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Cyflawni gweithrediadau at ddiben creu cyfleusterau storio nwy tanddaearol ar gyfer storio nwy dan ddaear mewn ceudodau neu mewn strata hydraidd naturiol;</p> <p>Mae'r datblygiad yn dechrau defnyddio cyfleusterau storio nwy tanddaearol gan gludwr nwy, ar gyfer storio nwy dan ddaear heb ddefnyddio strata hydraidd naturiol; neu</p> <p>Mae'r datblygiad yn dechrau defnyddio cyfleusterau storio nwy tanddaearol gan ddatblygwr nad yw'n gludwr nwy, ar gyfer storio nwy dan ddaear mewn strata hydraidd naturiol neu mewn ceudodau.</p> <p>Lle mae'r canlynol yn wir:</p> <p>Mae gan y cyfleuster gynhwysedd gweithio o 43 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu uchafswm cyfradd llif o 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf y dydd.</p> <p><b>Newid:</b></p> <p>Disgwylir i'r newid gynyddu'r cynhwysedd gweithio 43 o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu gynyddu'r uchafswm cyfradd llif 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf y dydd.</p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Cyflawni gweithrediadau at ddiben creu cyfleusterau storio nwy tanddaearol ar gyfer storio nwy dan ddaear mewn ceudodau neu mewn strata hydraidd naturiol;</p> <p>Mae'r datblygiad yn dechrau defnyddio cyfleusterau storio nwy tanddaearol gan gludwr nwy, ar gyfer storio nwy dan ddaear heb ddefnyddio strata hydraidd naturiol; neu</p> <p>Mae'r datblygiad yn dechrau defnyddio cyfleusterau storio nwy tanddaearol gan ddatblygwr nad yw'n gludwr nwy, ar gyfer storio nwy dan ddaear mewn strata hydraidd naturiol neu mewn ceudodau.</p> <p>Lle mae'r canlynol yn wir:</p> <p>Mae gan y cyfleuster gynhwysedd gweithio o 10 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu uchafswm cyfradd llif o 1 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf y dydd.</p> <p><b>Newid:</b></p> <p>Disgwylir i'r newid gynyddu'r cynhwysedd gweithio 10 o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu gynyddu'r uchafswm cyfradd llif 1 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf y dydd.</p>
<p><b>2B. Cyfleusterau nwy naturiol hylifedig</b></p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Disgwylir y bydd y cynhwysedd storio yn 43 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu y bydd yr uchafswm cyfradd llif yn 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf y dydd; neu</p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Disgwylir y bydd y cynhwysedd storio yn 10 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu y bydd yr uchafswm cyfradd llif yn 1 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf y dydd; neu</p>

	<p><b>Newid:</b></p> <p>Disgwylir i'r cynhwysedd storio presennol gynyddu 43 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu gael uchafswm cyfradd llif o 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf yn fwy y dydd.</p>	<p><b>Newid:</b></p> <p>Disgwylir i'r cynhwysedd storio presennol gynyddu 10 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu gael uchafswm cyfradd llif o 10 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf yn fwy y dydd.</p>
<p><b>2C. Cyfleusterau derbyn nwy</b></p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Disgwylir y bydd uchafswm cyfradd llif y cyfleuster yn fwy na 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol y dydd; neu</p> <p><b>Newid:</b></p> <p>Disgwylir y bydd uchafswm cyfradd llif y cyfleuster presennol yn cynyddu o leiaf 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol y dydd.</p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Disgwylir y bydd uchafswm cyfradd llif y cyfleuster yn fwy nag 1 miliwn o fetrau ciwbig safonol y dydd; neu</p> <p><b>Newid:</b></p> <p>Disgwylir y bydd uchafswm cyfradd llif y cyfleuster presennol yn fwy nag 1 miliwn o fetrau ciwbig safonol y dydd.</p>
<p><b>2D. Olew neu nwy anghonfensiynol</b></p>	<p>Datblygiad sy'n cynnwys archwilio, arfarnu neu gynhyrchu methan haen lo neu nwy neu olew siâl ar y tir gan ddefnyddio technegau echdynnu anghonfensiynol, gan gynnwys hollti hydroleg, ond nad yw'n cynnwys gwneud tyllau turio archwiliol heb ddefnyddio technegau echdynnu anghonfensiynol o'r fath.</p>	<p>Dim trothwy dewisol.</p>
<p><b>2E. Nwyeiddio glo tanddaearol</b></p>	<p>Datblygiad sy'n gysylltiedig â nwyeiddio glo yn y strata, heb gynnwys drilio tyllau turio at ddiben samplu craidd yn unig.</p>	<p>Dim trothwy dewisol.</p>
<p><b>2F. Cloddio glo brig</b></p>	<p>Datblygiad sy'n cynnwys cloddio a gweithio glo o'r ddaear drwy gloddio brig neu drwy fenthyg ar safle newydd.</p>	<p>Dim trothwy dewisol.</p>
<p><b>3. Trafnidiaeth</b></p>		
<p><b>3A. Priffyrdd</b></p>	<p><b>Adeiladu neu newid:</b></p> <p>Caiff y briffordd ei hadeiladu gan neu o ran Weinidogion Cymru, ac mae'r maes datblygu yn fwy na:</p> <p>a) Yn achos traffyrdd, 15 hectar;</p> <p>b) Yn achos unrhyw briffordd arall, lle disgwylir i derfyn cyflymder cyfartalog yr ardal ddatblygedig fod yn 50 milltir yr</p>	<p><b>Newidiad a gwella:</b></p> <p>Unrhyw newid i briffordd a wneir gan neu o ran Weinidogion Cymru, lle bo'r gwelliant neu'r newid yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.</p>



	awr neu fwy, 12.5 hectar;  c) Yn achos unrhyw briffordd arall, 7.5 hectar.	
<b>3B. Rheilffyrdd sy'n dechrau, yn gorffen ac yn aros yng Nghymru</b>	<b>Adeiladu:</b>  Caiff y gwaith adeiladu ei gyflawni gan weithredwr cymeradwy ac mae'n cynnwys darn di-dor o drac sy'n fwy na 2KM o hyd.  <b>Newid:</b>  Caiff y newid ei wneud gan weithredwr cymeradwy ac mae'n cynnwys darn di-dor o drac sy'n fwy na 2KM o hyd.	<b>Adeiladu:</b>  Caiff y gwaith adeiladu ei gyflawni gan weithredwr cymeradwy ac mae'n cynnwys darn di-dor o drac sydd hyd at 2KM o hyd.  <b>Newid:</b>  Caiff y newid ei wneud gan weithredwr cymeradwy ac mae'n cynnwys darn di-dor o drac sydd hyd at 2KM o hyd.
<b>3C. Cyfnewidfeydd nwyddau rheilffordd</b>	<b>Adeiladu:</b>  Pan gaiff ei hadeiladu, disgwylir i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd allu ymdrin ag o leiaf bedwar trên nwyddau y dydd.	<b>Adeiladu:</b>  Pan gaiff ei hadeiladu, disgwylir i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd allu ymdrin â hyd at bedwar trên nwyddau y dydd.  <b>Newid:</b>  Newid y disgwylir iddo gynyddu nifer y trenau nwyddau yr ymdrinnir â nhw bob dydd.
<b>3D. Porthladdoedd a Harbyrau</b>	Adeiladu neu newid cyfleusterau harbwr a fydd yn arwain at gynnydd blynyddol yn y gallu i ymdrin â'r canlynol:  a) yn achos cyfleusterau ar gyfer llongau cynwysyddion, 50,000 o Unedau sy'n Gyfwerth â Deg Troedfedd;  b) yn achos cyfleusterau ar gyfer llongau gyrru mewn ac allan, 25,000 o unedau; neu  c) yn achos cyfleusterau ar gyfer llongau cargo o unrhyw ddisgrifiad arall, 500,000 o dunelli.	<b>Gwaith:</b>  Disgwylir i'r cyfleusterau harbwr, ar ôl iddynt gael eu hadeiladu, arwain at weithrediad effeithlon yr harbwr, a disgwylir y bydd y cyfleusterau'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.
<b>3E. Meysydd Awyr</b>	<b>Adeiladu:</b>  Disgwylir i'r maes awyr, ar ôl iddo gael ei adeiladu, allu darparu'r canlynol:  Gwasanaethau teithwyr awyr i filiwn o deithwyr y flwyddyn o	<b>Adeiladu:</b>  Disgwylir i'r maes awyr, ar ôl iddo gael ei adeiladu, allu darparu'r canlynol:  Gwasanaethau teithwyr awyr i hyd at filiwn o deithwyr y



	<p>leiaf, neu</p> <p>Gwasanaethau cludo cargo awyr ar gyfer o leiaf 5,000 o symudiadau trafndiaeth awyr awyrennau cargo y flwyddyn.</p> <p><b>Newidiad a gwella:</b></p> <p>Disgwylir i'r maes awyr, ar ôl iddo gael ei newid neu ei wella, gynyddu nifer y canlynol:</p> <p>Gwasanaethau teithwyr awyr o leiaf filiwn o deithwyr y flwyddyn, neu</p> <p>Wasanaethau cludo cargo awyr o leiaf 5,000 o symudiadau trafndiaeth awyr awyrennau cargo y flwyddyn.</p>	<p>flwyddyn, neu</p> <p>Gwasanaethau cludo cargo awyr ar gyfer hyd at 5,000 o symudiadau trafndiaeth awyr awyrennau cargo y flwyddyn.</p> <p><b>Newidiad a gwella:</b></p> <p>Disgwylir i'r maes awyr, ar ôl iddo gael ei newid neu ei wella, gynyddu nifer y canlynol:</p> <p>Gwasanaethau teithwyr awyr i hyd at filiwn o deithwyr y flwyddyn, neu</p> <p>Wasanaethau cludo cargo awyr hyd at 5,000 o symudiadau trafndiaeth awyr awyrennau cargo y flwyddyn.</p>
<b>4. Dŵr</b>		
<b>4A. Argaeau a chronfeydd dŵr</b>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Disgwylir i gyfaint y dŵr a gaiff ei ddal yn ôl gan yr argae neu ei storio yn y gronfa ddŵr fod yn fwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig o ddŵr.</p> <p><b>Newid:</b></p> <p>Disgwylir i gyfaint ychwanegol y dŵr a gaiff ei ddal yn ôl gan yr argae neu ei storio yn y gronfa ddŵr o ganlyniad i'r newid fod yn fwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig.</p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Disgwylir i gyfaint y dŵr a gaiff ei ddal yn ôl gan yr argae neu ei storio yn y gronfa ddŵr fod yn fwy nag 1 miliwn o fetrau ciwbig o ddŵr.</p> <p><b>Newid:</b></p> <p>Disgwylir i gyfaint ychwanegol y dŵr a gaiff ei ddal yn ôl gan yr argae neu ei storio yn y gronfa ddŵr o ganlyniad i'r newid fod yn fwy nag 1 miliwn o fetrau ciwbig.</p>
<b>4B. Trosglwyddo adnoddau dŵr</b>	<p>Disgwylir i gyfaint y dŵr a gaiff ei drosglwyddo o ganlyniad i'r datblygiad fod yn fwy na 100 miliwn o fetrau ciwbig y flwyddyn rhwng:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Basnau afonydd yng Nghymru;</li> <li>• Ardaloedd ymgymerydd dŵr yng Nghymru; neu</li> <li>• Fasn afon yng Nghymru ac ardal ymgymerydd dŵr yng Nghymru.</li> </ul> <p>Nid yw'r datblygiad yn ymwneud â throsglwyddo dŵr yfed/</p>	<p>Ni chynigir unrhyw drothwyon dewisol.</p>

<p><b>4C. Gweithfeydd trin dŵr gwastraff</b></p>	<p><b>Adeiladu gweithfeydd trin dŵr gwastraff:</b></p> <p>Disgwylir y bydd gan y gwaith gynhwysedd sy'n fwy na chyfwerth poblogaeth o 500,000.</p> <p><b>Adeiladu seilwaith ar gyfer trosglwyddo neu storio dŵr gwastraff:</b></p> <p>Prif ddiben y seilwaith fydd naill ai:</p> <p>(i) trosglwyddo dŵr gwastraff i'w drin, neu</p> <p>(ii) storio dŵr gwastraff cyn ei drin,</p> <p>neu'r ddau, a</p> <p>disgwylir y bydd gan y seilwaith gynhwysedd ar gyfer storio mwy na 350,000 o fetrau ciwbig o ddŵr gwastraff.</p> <p><b>Newid gweithfeydd trin dŵr gwastraff sydd eisoes yn bodoli:</b></p> <p>Disgwylir y bydd y newid yn cynyddu cynhwysedd y gwaith mwy na chyfwerth poblogaeth o 500,000.</p> <p><b>Newid seilwaith ar gyfer trosglwyddo neu storio dŵr gwastraff:</b></p> <p>Prif ddiben y seilwaith fydd naill ai:</p> <p>(i) trosglwyddo dŵr gwastraff i'w drin, neu</p> <p>(ii) storio dŵr gwastraff cyn ei drin,</p> <p>neu'r ddau, a</p> <p>disgwylir y bydd y newid yn cynyddu cynhwysedd y seilwaith ar gyfer storio dŵr gwastraff mwy na 350,000 o fetrau ciwbig.</p>	<p>Ni chynigir unrhyw drothwyon dewisol.</p>
--	---	--

5. Gwastraff		
<p><b>5A. Cyfleusterau gwastraff peryglus</b></p>	<p><b>Adeiladu:</b></p> <p>Safleoedd tirlenwi neu gyfleusterau storio dwfn sydd â chynhwysedd o fwy na 100,000 o dunelli o wastraff peryglus y flwyddyn. Mewn unrhyw achos arall, cyfleusterau sydd â chynhwysedd o fwy na 30,000 o dunelli o wastraff peryglus y flwyddyn.</p> <p><b>Newid:</b></p> <p>Disgwylir y bydd y newid i safle tirlenwi neu gyfleuster storio dwfn yn cynyddu'r cynhwysedd mwy na 100,000 o dunelli o wastraff peryglus y flwyddyn. Mewn unrhyw achos arall, disgwylir i gynhwysedd y cyfleuster gynyddu 30,000 o dunelli o wastraff peryglus y flwyddyn.</p>	<p>Ni chynigir unrhyw drothwyon dewisol.</p>
<p><b>5B. Gwaredu gwastraff ymbelydrol yn derfynol drwy ddulliau daearegol</b></p>	<p>Datblygiad sy'n cynnwys creu un neu fwy o dyllau turio, a chyflawni unrhyw waith cloddio neu adeiladu cysylltiedig, yn bennaf at ddiben casglu gwybodaeth, data neu samplau er mwyn pennu pa mor addas yw safle ar gyfer y gwaith adeiladu neu ei ddefnyddio fel cyfleuster gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol sy'n fwy na 200 metr o ddyfnder.</p>	<p>Ni chynigir unrhyw drothwyon dewisol.</p>

## Rhesymau

### Seilwaith Trydan

#### *Cynhyrchu ar y tir a storio*

- 4.24 Ar hyn o bryd, mae'r broses DAC yn pennu trothwy cynhyrchu trydan gofynnol o 10MW. Ar gyfer mathau penodol o brosiect cynhyrchu, awgryma ein hymchwil fod y trothwy gorfodol hwn yn rhy isel. Yn hanesyddol, mae Llywodraeth y DU wedi pennu trothwy gofynnol o dros 50MW sy'n tybio bod datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol. O ystyried y newid arfaethedig yn y broses rhoi caniatâd o system seiliedig ar gynllunio i broses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith â throthwyon dewisol, gwelwn resymau cadarn dros bennu trothwy gorfodol o 50MW ar gyfer PSC. Yn ein barn ni, mae'r ffigur hwn yn taro'r cydbwysedd cywir o ran yr amser a gymerir i wneud

penderfyniadau ynghylch datblygiad o'r fath, yr effeithiau economaidd ac amgylcheddol a'r gofyniad i gael caniatadau atodol.

- 4.25 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod technolegau storio'n datblygu a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni Cymru ac yn helpu'r broses o newid i economi carbon isel. Hoffem weld storio yn dod yn rhan gyffredin a dichonadwy o'n rhwydweithiau ynni ac rydym yn cefnogi'r broses o gael gwared ar rwystrau i dechnoleg o'r fath.
- 4.26 Fel y nodwyd yn Rhan 1 o'r ymgynghoriad hwn, at ddiben rhoi caniatâd, mae technolegau storio yn gyfystyr â chynhyrchu ynni<sup>35</sup>, ond mae angen trin prosiectau o'r fath yn wahanol i brosiectau cynhyrchu confensiynol. Y rheswm dros hyn yw perfformiad prosiectau o'r fath o ran cael caniatâd ar lefel leol ac, yn aml, effeithiau bach prosiectau o'r fath. Er ein bod yn ystyried mai is-set o gynhyrchu ynni yw storio, rydym yn cynnig na ddylid cwmpasu storio yn orfodol fel PSC. Ar y cyfan, credwn mai'r ateb hwn fydd yn darparu'r trefniant rhoi caniatâd mwyaf amserol ac effeithlon i ddatblygwyr a chymunedau. Os caiff prosiectau storio mwy cymhleth eu cyflwyno, bydd yr opsiwn yn dal ar gael i ddatblygwyr gyflwyno'r cynllun fel PSC drwy broses CSC.
- 4.27 Wrth ffurfio'r farn hon, rydym wedi penderfynu ar un eithriad. Bydd pwmp-storio hydrodrydanol yn cael ei gwmpasu fel PSC. At hynny, bydd gwaith i hwyluso gorsafoedd cynhyrchu o'r fath yn cynnwys effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol posibl y bydd angen craffu arnynt ar lefel genedlaethol. O ystyried cynhwysedd cyfartalog uchel a phwysigrwydd pwmp-storio hydrodrydanol i'r grid, credwn fod i brosiectau o'r fath arwyddocâd cenedlaethol a bwriadwn gwmpasu prosiectau o'r fath o fewn y trothwy ar gyfer cynhyrchu confensiynol.
- 4.28 Gall fod achosion lle y bydd cynllun storio a chynllun cynhyrchu confensiynol yn cael eu cyflwyno gyda'i gilydd fel un prosiect. Yn debyg i Ran 1 o'r papur ymgynghori hwn, dim ond yr orsaf gynhyrchu gonfensiynol fydd yn cael ei thrin fel PSC at ddibenion proses CSC. Byddai'r ymgeisydd yn gallu cyflwyno'r elfen storio fel caniatâd eilaidd sy'n gysylltiedig â'r prosiect (gweler *Paragraff 5.4*).
- 4.29 Mae ein hymchwil<sup>36</sup> yn parhau i awgrymu bod perfformiad ACLlau o ran rhoi caniatâd i brosiectau cynhyrchu ynni rhwng 10MW a 50MW yn gallu bod yn wael, ac mae'r amser a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer rhai technolegau penodol wedi cymryd yn hirach na'r targedau a nodir mewn deddfwriaeth, sef 8 ac 16 wythnos, yn gyson<sup>37</sup>. Er hynny, rydym yn ymwybodol bod yr amser a gymerir ar gyfer rhai technolegau penodol, fel ynni solar a thyrbinau bach, yn llai na'r amserlen statudol ar gyfer DAC, sef 36 wythnos. At hynny, mae effeithiau economaidd ac amgylcheddol cynlluniau o'r fath ar lefel leol yn bennaf.

<sup>35</sup> [Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol – A Smart, Flexible Energy System: A call for evidence, 2016](#)

<sup>36</sup> [Llywodraeth Cymru – Ymchwili i'r Trothwyon a'r Meini Prawf ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru \(Wedi ei Ragnodi o dan a.62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990\), 2017](#)

<sup>37</sup> Erthygl 22 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

- 4.30 Er mwyn rhoi dewis i'r datblygwr, rydym yn cynnig y gellir ystyried bod datblygiad sy'n cynnwys gorsaf gynhyrchu ag allbwn rhwng 10MW a 50MW yn PSC dewisol. Bydd hyn yn sicrhau y gall ACLlau barhau i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau o natur leol, tra bydd datblygiadau sy'n cael effeithiau mwy ac y gall fod angen dull siop un stop ar eu cyfer yn gallu mynd drwy broses CSC.

#### *Cynhyrchu ar y môr*

- 4.31 Ar gyfer cynhyrchu ar y môr, mae Deddf Cymru yn rhoi datblygiadau o'r fath mewn sefyllfa sy'n golygu bod angen caniatâd i adeiladu gorsaf gynhyrchu o dan y Ddeddf Trydan<sup>38</sup> a Thrwydded Forol<sup>39</sup>, os yw ei allu cynhyrchu dros 1MW. Awgryma ein tystiolaeth y gall fod oedi yn y broses o roi'r caniatadau hyn ar gyfer prosiectau cynhyrchu o bob maint, gyda'r rhan fwyaf o achosion yn cymryd dros flwyddyn. Mae'r mater hwn yn arbennig o gyffredin yn achos technoleg brawf o dan 5MW, lle mae'r effeithiau'n llai sicr, yn bennaf oherwydd natur nofel y dechnoleg. Credwn fod datblygu ynni adnewyddadwy ar y môr a thechnolegau newydd yn agwedd allweddol ar y gwaith o ysgogi twf gwyrdd a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, a dylid annog technoleg o'r fath.
- 4.32 I gyflawni ein hamcanion, cynigir y dylid cwmpasu ystod eang o ganiatadau dewisol ar y môr gyda throthwy gofynnol o 1MW, er mwyn sicrhau proses rhoi caniatâd gyflymach. Bydd yn parhau i fod yn ofynnol i geisiadau o dan 1MW gael Trwydded Forol yn unig. Hefyd, cynigir y dylid pennu trothwy PSC gorfodol o 50MW, sy'n gyfwerth â'r trefniant ar y tir, er mwyn sicrhau rhywfaint o gysondeb lle bo technolegau'n cwmpasu ardaloedd ar y tir ac ar y môr. Mae hyn er mwyn atal y prosesau rhoi caniatâd ar gyfer prosiectau canolig eu maint sy'n defnyddio'r tir a'r môr rhag mynd yn dameidiog.
- 4.33 O ganlyniad i'r newidiadau hyn, rydym yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer ychwanegu rhagor o haenau at y broses gynllunio ar y môr. Nid yw'r newidiadau uchod wedi mynd i'r afael â rôl y Ddeddf Trydan eto, a fyddai'n dal i fodoli ar y môr ar gyfer cynlluniau dros 1MW. Gan ddefnyddio dull newydd ac er mwyn sicrhau rhywfaint o symlrwydd, cynigir y dylid cael gwared ar y gofyniad i gael caniatâd i adeiladu gorsaf gynhyrchu o dan y Ddeddf honno lle mae gennym gymhwysedd deddfwriaethol i wneud hynny. Felly, hyd at 50MW, cynigion mai dim ond Trwydded Forol sy'n ofynnol, ac eithrio lle mae'r datblygwr yn dewis yr opsiwn i wneud cais fel PSC o dan broses CSC. Gan fod y Drwydded Forol yn ystyried effeithiau'r cynllun ar yr amgylchedd morol yn ogystal â materion technegol eraill, ni welwn unrhyw reswm dros ddyblygu proses o'r fath o dan y Ddeddf Trydan, nag i ychwanegu gofynion ychwanegol iddo.

#### *Llinellau trydan uwchben*

- 4.34 Mae Deddf Cymru yn darparu pwerau i roi caniatâd ar gyfer llinellau trydan uwchben hyd at ac yn cynnwys 132KV os ydynt yn gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu datganoledig yng Nghymru ac i bennu sut y caiff caniatadau o'r fath eu rhoi. Ar hyn o bryd, mae caniatâd ar gyfer llinellau o'r fath yn cael ei roi o

<sup>38</sup> A.36 o Ddeddf Trydan 1989

<sup>39</sup> A.62 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

dan y Ddeddf Trydan<sup>40</sup> (hyd at 132KV) neu Ddeddf 2008 (132KV a throsodd). Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n rhoi'r ddau fath hyn o ganiatâd. Yn ddiodyn, mae Deddf Cymru'n gosod y broses o roi caniatâd ar gyfer y llinellau trydan hyn yn y system Cynllunio Gwlad a Thref i ACLlâu benderfynu ar brosiectau o'r fath. Nid yw Llywodraeth Cymru'n gallu defnyddio cyfundrefnau'r Ddeddf Trydan na Deddf 2008 ar gyfer llinellau trydan uwchben.

- 4.35 Yn Rhan 1 o'r papur ymgynghori hwn, rydym wedi amlinellu'r problemau sy'n gysylltiedig â gosod llinellau trydan uwchben yn y gyfundrefn gynllunio (*Paragraffau 2.11 i 2.18*), yn enwedig y gofyniad i gael caniatâd gan nifer o ACLlâu os ydynt yn llinellau hir, a gwnaethom benderfynu gosod yr holl brosesau rhoi caniatâd ar gyfer llinellau uwchben sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig yng Nghymru yn y broses rhoi caniatâd DAC bresennol, yn y byrdymor.
- 4.36 Rydym yn ymwybodol o'r problemau posibl sy'n gysylltiedig â'i gwneud yn orfodol i bob llinell drydan uwchben sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig yng Nghymru fynd rhagddi drwy broses genedlaethol o roi caniatâd seilwaith. Felly, rydym yn cynnig trefniant mwy hyblyg.
- 4.37 Gall llinellau trydan 132KV fod hyd at tua 30 cilomedr o hyd, sef yr uchafswm hyd y gallai'r amledd ei ganiatáu. Fodd bynnag, nid yw allbwn llinell drydan o reidrwydd yn pennu sut y gall edrych. Yn dibynnu ar nifer o ffactorau peirianeg, gall llinell uwchben hyd at ac yn cynnwys 132KV fod yn llinell ddiniwed ar strwythur pren, neu gael ei gosod ar beilon delltog sydd i'w gweld yn gliriach. Gan ystyried yr amgylchiadau hyn, a ategir gan y dystiolaeth uchod, ni welwn ffordd glir o wahaniaethu rhwng prosiectau cenedlaethol a lleol.
- 4.38 Rydym yn cynnig y dylid defnyddio cynseiliau sydd eisoes yn bodoli a nodir yn Neddf 2008 i bennu trothwy PSC gorfodol ar gyfer llinellau trydan uwchben 132KV. Credwn fod hwn yn ddull cymesur sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gwmpasu'r prosiectau mwy cymhleth hynny y gall fod angen caniatadau arnynt eraill ochr yn ochr â'r caniatâd dan sylw. Hyd at 132KV, rydym yn cynnig y dylid rhoi'r dewis i ymgeiswyr o'r fath naill ai wneud cais yn lleol neu drwy broses CSC, gan ei bod yn bosibl bod y broses fwyaf priodol yn dibynnu ar yr hyd a'r ateb o ran peirianeg.
- 4.39 Mae ein pwerau newydd ond yn ymestyn i linellau trydan uwchben lle y bônt yn gysylltiedig â gorsafedd cynhyrchu datganoledig yng Nghymru; mae'r pwerau newydd yn gyfyng ac mae'n debygol y bydd nifer y ceisiadau yr ymdrinnir â nhw bob blwyddyn yn fach. Ni chredwn y byddai'n gymesur ychwanegu haen newydd o roi caniatâd ar gyfer prosiectau o'r fath. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall ymgorffori llinellau trydan uwchben ym mhroses CSC arwain at gyfnod penderfynu hwy i ddatblygwyr na'r hyn y maent yn ei wynebu ar hyn o bryd. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn cynnig rhai addasiadau i'r CSC (*Gweler paragraff 5.10*) er mwyn sicrhau proses rhoi caniatâd gyflymach yn gyffredinol.

---

<sup>40</sup> A.37 o Ddeddf Trydan 1989

**Ffigur 4.4: Darlun o'r trefniadau rhoi caniatâd trydan presennol, y trefniadau interim (Rhan 1 o'r ymgynghoriad hwn) a'r trefniadau hirdymor (Rhan 2)**

		Nawr	1 Ebrill 2019	Gweithredu CSC
Cynhyrchu ar y tir	10MW-50MW	DAC		PP or CSC
	50MW-350MW (heb gynnwys gwynt)	DCO	DAC	CSC
	Gwynt ar y tir dros 50MW	DAC		CSC
Cynhyrchu ar y môr	O dan 1MW	ML		
	1MW-50MW	EA*	EA*	ML or CSC
	50MW-100MW	EA*	EA*	CSC
	100MW-350MW	DCO*	EA*	CSC
Llinellau uwchben	O dan 132KV	EA	DAC	PP or CSC
	132KV	DCO	DAC	CSC

**Y math o ganiatâd**

**Awdurdod rhoi caniatâd**

<b>ML</b>	a.65 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Trwydded Forol)	Gweinidogion Cymru
<b>PP</b>	a.57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Caniatâd Cynllunio)	Gweinidogion Cymru
<b>EA</b>	a.36 o Ddeddf Trydan 1989 (Caniatâd i adeiladu a gweithredu)	Gweinidogion Cymru
<b>DAC</b>	a.62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol)	Gweinidogion Cymru
<b>CSC</b>	Caniatâd Seilwaith yng Nghymru Newydd	Gweinidogion Cymru
<b>EA</b>	a.36 o Ddeddf Trydan 1989 (Caniatâd i adeiladu a gweithredu)	Ysgrifennydd Gwladol
<b>EA</b>	a.37 o Ddeddf Trydan 1989 (Caniatâd i adeiladu a gweithredu)	Ysgrifennydd Gwladol
<b>DCO</b>	a.31 o Ddeddf Cynllunio 2008 (Gorchymyn Caniatâd Datblygu)	Ysgrifennydd Gwladol

\* Bydd angen Trwydded Morol ar wahân o dan Ddeddf Mynediad i'r Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ar gyfer yr holl orsafoedd cynhyrchu alltraeth ac ar gyfer rhan fwyaf o gweithfeydd mewn dyfroedd mewn porthladdoedd a harbyrau

*Mae'r rhan â llinellau yn dynodi'r gallu i ddewis gwneud cais am y naill ganiatâd neu'r llall*

Olew, nwy a mwynau

- 4.40 Cyn 2016, roedd seilwaith cyflenwad nwy yn cael ei gwmpasu gan nifer o brosesau rhoi caniatâd a oedd wedi'u rhannu rhwng Gweinidogion Cymru ac ACLlau. Gwnaed newidiadau i'r broses gynllunio yn 2016, gan arwain at bwynt cyswllt unedig ar gyfer caniatâd o'r fath uwchlaw trothwy penodol drwy ddynodi statws DAC.
- 4.41 Mae nwy yn gyfrannwr pwysig i gymysgedd ynni Cymru ac mae gallu derbyn a storio nwy yn ddiogel yn rhan bwysig o'r broses o sicrhau cyflenwadau ynni, o ystyried y ddibyniaeth gynyddol ar fewnforio nwy. Nid yw'r sefyllfa hon wedi newid ers i'r trothwyon DAC gael eu pennu yn 2016. Nid ydym yn cynnig newid y trothwyon gorfodol hynny at ddiben PSC lle y bo'n ymwneud â chyfleusterau storio nwy tanddaearol, cyfleusterau Nwy Naturiol Hylifedig a chyfleusterau derbyn nwy. Mae rhai meini prawf dewisol nominal wedi cael eu

pennu ar gyfer y categorïau hynny er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd seilwaith nwy o bob maint i'r angen cenedlaethol am gyflenwadau ynni sicr.

- 4.42 Credwn y dylid ystyried bod ceisiadau ar gyfer archwilio, arfarnu neu gynhyrchu olew a nwy anghonfensiynol yn ogystal â rhai ar gyfer nweiddio glo tanddaearol yn geisiadau PSC at ddiben rhoi caniatâd yn genedlaethol. Hefyd, mae'r gofyniad presennol i hysbysu<sup>41</sup> Gweinidogion Cymru am unrhyw geisiadau ar gyfer y ddau fath o echdynnu yn oedi'r broses ymhellach. Byddai categoreiddio'r rhain fel PSC yn rhoi mwy o sicrwydd i gymunedau a'r diwydiant datblygu.
- 4.43 Mae cynhyrchu glo wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i ddatgarboneiddio cyflenwad ynni. Dangosodd ein hymchwil mai'r amser a gymerir ar gyfartaledd i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cloddio glo brig yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yw 60 wythnos, ac mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau naill ai'n destun apêl ar ôl cael eu gwrthod neu'n cael eu galw i mewn gan Weinidogion Cymru. Er nad yw Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o safleoedd cloddio glo brig a gyflwynir yn y dyfodol, byddai'n ddoeth i unrhyw ddatblygiad sy'n cynnwys cloddio a gweithio glo o'r ddaear drwy gloddio brig neu fenthyg ar safle newydd gael eu hystyried yn ddatblygiadau PSC oherwydd yr effeithiau sy'n gysylltiedig â nhw.

### Trafnidiaeth

- 4.44 Mae gweithredwyr seilwaith trafndiaeth yn cael budd o hawliau datblygu a ganiateir eang eu cwmpas<sup>42</sup> a fydd yn ei galluogi i gyflawni gwaith heb fod angen caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, bydd angen caniatâd datblygu ar gyfer mathau penodol o waith ar gyfer rheilffyrdd, priffyrdd, cyfleusterau maes awyr a chyfleusterau porthladd newydd neu estynedig.
- 4.45 Mae caniatadau ar gyfer seilwaith trafndiaeth wedi'u gwasgaru dros nifer o gyfundrefnau. Mae angen amrywiaeth o orchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 ar gyfer ffyrdd newydd, yn dibynnu ar eu math a'u maint, mae angen gorchmynion diwygio harbyrau neu gorchmynion grymuso o dan Ddeddf Harbyrau 1964 neu Ddeddfau preifat ar gyfer mathau penodol o waith ar borthladdoedd a harbyrau, mae angen caniatâd o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ar gyfer gwaith newydd ar reilffyrdd a meysydd awyr, neu gellir cael Gorchmyn o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 sy'n rhoi amryw ganiatadau ar gyfer gwaith ar y rhan fwyaf o ddulliau o drafnidiaeth.
- 4.46 Oherwydd y dirwedd gymhleth ac anghyson hon ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith trafndiaeth, ceir cyfyngiadau ar allu proses newydd i wneud gwelliannau effeithlonrwydd. Gallai'r gwahanol weithdrefnau ar draws nifer o gyfundrefnau beri i brosiectau amrywiol gael eu trin yn wahanol. Lle bo angen ceisiadau o dan nifer o wahanol gyfundrefnau ar gyfer prosiect seilwaith integredig mawr, fel maes awyr â ffordd gysylltiedig a datblygiad rheilffordd, byddai risg o ddryswch i hyrwyddwr cynlluniau, cymunedau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fel ei gilydd. Gall hyn achosi oedi sylweddol yn y

<sup>41</sup> Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015 a Chyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (nweiddio glo tanddaearol) (Cymru) 2016

<sup>42</sup> Rhannau 13, 17, 18 a 29 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995



broses o roi caniatâd. Gallai proses rhoi caniatâd unedig sicrhau bod seilwaith trafndiaeth wir yn cael ei integreiddio.

- 4.47 Mae Deddf Cymru yn datganoli pwerau deddfwriaethol a gweithredol dros reoleiddio'r rhan fwyaf o harbyrau yng Nghymru<sup>43</sup> i Weinidogion Cymru. Nid yn unig y mae hyn yn gyfle i ailystyried p'un a yw proses o'r fath yn briodol ar gyfer gwaith mawr, ond mae hefyd gyfle i integreiddio seilwaith arall y mae gan Gymru bwerau datganoledig drosto mewn proses rhoi caniatâd unedig.

#### *Priffyrdd*

- 4.48 Mae'r rhan fwyaf o brosiectau seilwaith mawr yng Nghymru yn cynnwys priffyrdd, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhai hynny'n cael caniatâd drwy orchymyn, neu nifer o orchmyinion, o dan Deddf Priffyrdd 1980. Er bod dros gant o gynlluniau gwella ffyrdd yng Nghymru bob blwyddyn, mae nifer fach ohonynt yn cynnwys gwaith cyfalaf ar gyfer ffyrdd newydd a phrosiectau sydd o bwysigrwydd strategol.

- 4.49 Lle y cynigir gwaith cyfalaf, gall fod angen nifer o orchmyinion. Mae hyn yn cynnwys o leiaf un o'r canlynol neu, mewn rhai achosion, bob un ohonynt:

- Gorchmyinion Cefnffyrdd<sup>44</sup>;
- Gorchmyinion Atodol ar gyfer Cefnffyrdd a Ffyrdd Dosbarthiadol;<sup>45</sup>
- Gorchmyinion Awdurdodi Ffyrdd Arbennig<sup>46</sup>
- Gorchmyinion Atodol sy'n gysylltiedig â Ffyrdd Arbennig<sup>47</sup>
- Gorchmyinion ar gyfer cynlluniau sy'n darparu ar gyfer adeiladu pontydd dros ddyfroedd mordwyadwy neu dwneli oddi tanynt<sup>48</sup>;
- Gorchmyinion sy'n awdurdodi gwyradau i gyrsiau dŵr mordwyadwy ac anfordwyadwy<sup>49</sup>;
- Gorchmyinion Tollau<sup>50</sup>;
- Gorchmyinion Prynu Gorfodol<sup>51</sup>;
- Gorchmyinion Amrywio<sup>52</sup>.

- 4.50 Gall yr angen am nifer o Orchmyinion fod yn anodd i gymunedau ei ddeall ac mae'n aneffeithlon i hyrwyddwyr prosiectau. Mae'r prosiect cyfalaf diweddaraf a hyrwyddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â choridor yr M4 o amgylch Casnewydd, nad oes penderfyniad wedi'i wneud yn ei gylch eto. Roedd y prosiect yn cynnwys 12 o orchmyinion drafft, sy'n cynnwys gorchmyinion diwygio a gyhoeddwyd rhwng mis Medi 2016 a mis Mawrth 2017. Mae'r ymchwiliad cyhoeddus, a ddechreuodd ar 28 Chwefror 2017, wedi mynd y tu hwnt i'r amser archwilio a amcangyfrifwyd, sef 5 mis, ac nid oes penderfyniad terfynol ynghylch y cynllun wedi'i wneud eto ar adeg

---

<sup>43</sup> A.29-38 o Deddf Cymru 2017

<sup>44</sup> A.10 o Ddeddf Priffyrdd 1980

<sup>45</sup> A.14 o Ddeddf Priffyrdd 1980

<sup>46</sup> A.16 o Ddeddf Priffyrdd 1980

<sup>47</sup> A.18 o Ddeddf Priffyrdd 1980

<sup>48</sup> A.106 o Ddeddf Priffyrdd 1980

<sup>49</sup> A.108 neu A.100 o Ddeddf Priffyrdd 1980

<sup>50</sup> A.6 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991

<sup>51</sup> A.239, A.240, A.250, A.260 o'r Ddeddf Priffyrdd ac A.2 o Ddeddf Caffael Tir 1981.

<sup>52</sup> A.16, A.17, A.19, A.106 o Ddeddf Priffyrdd 1980

ysgrifennu'r papur hwn. O ystyried y cyfnod hir a chymhlethdod yr achos hwn, mae cymunedau wedi'i chael hi'n anodd cynnal eu cyfraniad.

- 4.51 Byddai'r hyrwyddwr a'r cymunedau yn cael budd o gyfundrefn symlach a mwy hygyrch sy'n fodd i archwilio'n effeithlon o fewn amserlen benodedig. Rydym yn ystyried bod hyn yn wir ar gyfer gwaith mawr yn y dyfodol a gaiff ei hyrwyddo gan Weinidogion Cymru. At hynny, byddai datgysylltu cynlluniau mawr oddi wrth Ddeddf Priffyrdd 1980 yn golygu bod modd gwahanu dyletswyddau'n ymarferol mewn ffordd well rhwng hyrwyddwr y cynllun a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Yn unol â hynny, rydym yn cynnig cynnwys prosiectau gwella priffyrdd mawr fel PSC.
- 4.52 Bwriedir i'r trothwyon sy'n ymwneud â phriffyrdd ddal y prosiectau hynny sydd o bwys i Gymru ac maent wedi'u seilio ar yr ardal waith safonol sy'n ofynnol i adeiladu neu newid cyffordd sengl ar y gwahanol gategorïau ffyrdd o fewn rhwydwaith ffyrdd Cymru.

#### *Porthladdoedd a harborau*

- 4.53 Wrth gael pwerau datganoledig newydd mewn perthynas â phorthladdoedd a harbyrau, rydym wedi ystyried cynlluniau o'r fath i'w cynnwys ym mhroses CSC. Gellir ymgymryd â gwaith ar borthladdoedd a harbyrau drwy nifer o brosesau. Caiff hawliau datblygu a ganiateir eu harfer lle y bônt ar gael, gellir cael caniatâd cynllunio ar gyfer mathau penodol o waith, a gellir cael Trwyddedau Morol ar gyfer mathau penodol o waith morol. Hefyd, gellir cael Gorchymyn Adolygu neu Grymuso Harbwr ar gyfer gwaith gwella mawr yn ogystal â newidiadau anniriaethol i harbyrau. Mae hyn yn creu tirwedd rhoi caniatâd gymhleth.
- 4.54 Hefyd, bydd angen i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau harbwr gael trwydded forol, a allai arwain at ddyblygu'r wybodaeth a'r gweithgarwch sydd eu hangen, yn enwedig mewn achosion lle mae angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Yn ogystal â hynny, mae harbyrau'n parhau i arallgyfeirio ac, yn aml, byddai angen i welliannau mawr gynnwys cysylltiadau â dulliau trafndiaeth eraill fel rheilffyrdd neu elfen o ynni adnewyddadwy sy'n ymestyn ar y tir ac ar y môr. Gellir cyflawni rhai o'r gwelliannau hyn drwy Orchymyn Diwygio neu Grymuso Harbwr, ond nid ydynt yn drech na'r angen am ganiatâd o dan y Ddeddf Trydan neu orchmynion o dan y Ddeddf Priffyrdd. At hynny, nid yw'r broses gwneud gorchmynion o dan y darpariaethau hyn yn cynnwys amserlenni statudol na phendant.
- 4.55 Mae angen sicrwydd o ran pryd y caiff penderfyniad ei wneud er mwyn cadw ein porthladdoedd a'n harbyrau'n gystadleuol a sicrhau eu bod yn gallu ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau. Yn unol â hynny, rydym yn cynnig cwmpasu gwaith ar harbyrau fel PSC. Ceir anhawster cysylltiedig o ran nodi trothwy clir mewn perthynas â phorthladdoedd a harbyrau. Mae'r broses DCO ar gyfer porthladdoedd a harbyrau yn Lloegr yn defnyddio dulliau mesur lluosog sy'n cynnwys symud llongau neu ddeunyddiau drwy'r porthladd neu'r harbwr. Gall y symudiadau hyn fod yn oddrychol yn dibynnu ar effeithlonrwydd y porthladd.

- 4.56 Mewn ymateb i'r broblem hon, rydym yn cynnig y dylid pennu trothwyon sydd wedi'u cysylltu'n agos â gweithgareddau presennol porthladdoedd mawr datganoledig yng Nghymru, sef Caergybi, Abergwaun, Casnewydd, Caerdydd, Abertawe a Phort Talbot. Mae'r dull gweithredu hwn yn cydnabod y byddai unrhyw ddatblygiadau i gyfleusterau harbwr, i bob pwrpas, yn cynyddu cynhwysedd porthladd i lefel sy'n gyfwerth â phorthladd mawr yng Nghymru, neu'n uwch na hynny, ac yn cael effaith sylweddol ac economi a seilwaith Cymru. Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno cyfundrefn ddewisol ar gyfer porthladdoedd a harbyrau sy'n cymhwyso hyrwyddwyr i wneud cais drwy broses CSC os yw eu cynllun yn cynnwys gwaith a fydd, os caiff ei gyflawni, yn arwain at weithrediad effeithlon yr harbwr ac sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Drwy wneud cais drwy broses CSC, ni fyddai angen cael y caniatadau eraill ar wahan (a nodir ym *Mharagraff 5.4*).

#### *Rheilffyrdd a Maesydd Awyr*

- 4.57 Nodwyd trothwyon fel rhan o'r broses o roi caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer DAC yn 2016<sup>53</sup>. Rydym yn parhau i ystyried bod prosiectau o'r fath yn gyfranwyr pwysig i seilwaith Cymru ac nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y dylai'r trothwyon hynny newid at ddibenion PSCau.

#### Dŵr

- 4.58 Mae trothwyon wedi'u nodi mewn perthynas ag argaeau a chronfeydd dŵr, cyfleusterau trin dŵr gwastraff a throsglwyddo adnoddau dŵr sy'n adlewyrchu'r trothwyon DAC presennol. Yn y pen draw, pennwyd y trothwyon hyn am ei bod yn debygol y bydd angen nifer o ganiatadau cysylltiedig ar gyfer datblygiadau o'r fath, ac am fod y datblygiadau hyn yn debygol o fod yn her i ACLlau. Byddai proses rhoi caniatâd fwy unedig yn lliniaru unrhyw broblemau o ran amseru a chymhlethdod.
- 4.59 Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad<sup>54</sup> a oedd yn cynnig newidiadau i'r trothwyon ar gyfer argaeau a chronfeydd dŵr a throsglwyddo adnoddau dŵr, a chyflwynodd drothwy newydd ar gyfer dihalwyno dŵr. Mae'r dystiolaeth sy'n sail i'r trothwyon hyn yn ymwneud i raddau helaeth â sicrhau cydnerthedd dŵr hirdymor yn Lloegr. Nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth hyd yma yng Nghymru sy'n golygu bod angen adolygu'r trothwyon DAC am y rheswm hwn.
- 4.60 Er hynny, byddwn yn monitro dadansoddiad Llywodraeth y DU a'r ymateb i'w hymgynghoriad. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau a thystiolaeth ar b'un a yw'n werth nodi trothwyon sy'n cyfateb i rai Llywodraeth y DU, yn enwedig lle bo prosiect yn croesi ffiniau.

---

<sup>53</sup> Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) 2016

<sup>54</sup> Llywodraeth y DU, 'Developing a national policy statement for water resources and proposed amendments to the Planning Act 2008'

## Gwastraff

### *Gwaredu Daearegol*

- 4.61 Polisi Llywodraeth Cymru yw mai dim ond drwy gymorth partneriaeth wirfoddol a chymuned neu gymunedau sy'n barod i gynnig y lleoliad y gellir gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ddaearegol<sup>55</sup>. Er nad oes safleoedd penodol wedi'u nodi hyd yma, gellid cyflwyno a dewis lleoliad yng Nghymru petai cymuned yn barod cynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol.
- 4.62 Byddai effeithiau lleol helaeth yn ystod y gwaith o adeiladu cyfleuster gwaredu daearegol ynghyd ag effeithiau gweithredol parhaus sy'n gysylltiedig â throsglwyddo a lleoli gwastraff, a disgwylir iddynt bara mwy na 100 mlynedd. Mae'n debygol mai unrhyw gyfleuster gwaredu daearegol a nodir fyddai'r unig safle o'i fath yn y DU a byddai'n derbyn yr holl wastraff uwch ei actifedd a gynhyrchir gan Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. O ystyried maint, hirhoedledd a phwysigrwydd cenedlaethol unrhyw gyfleuster o'r fath, byddai'n briodol mai PSC yw'r broses rhoi caniatâd ar gyfer safle o'r fath, wedi'i gwmpasu gan drefniadau CSC.
- 4.63 Byddai'r cam ymchwilio yn rhan annatod o'r broses dewis safle a dylunio, a byddai'n destun awdurdodiad fesul cam tuag at y gwaith terfynol o ddatblygu'r cyfleuster gwaredu daearegol. Gall hyn gynnwys tyllau profi dwfn mewn un neu fwy o ardaloedd ACLlau. Ystyrir bod gwaith profi o'r fath o arwyddocâd cenedlaethol ynddo'i hun. Yn unol â hynny, lluniwyd meini prawf sy'n cwmpasu'r holl waith sy'n gysylltiedig â'r broses o ddewis safle a datblygu cyfleuster gwaredu daearegol.

### *Gwastraff peryglus*

- 4.64 Mae trothwyon pellach mewn perthynas â gwaredu gwastraff peryglus wedi cael eu nodi, sy'n adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y broses o wneud cais cynllunio ar gyfer DAC. Ni welwn unrhyw reswm dros newid y trothwyon hynny at ddibenion PSC.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

8. **A ydych yn cytuno ag egwyddor trothwyon dewisol ar gyfer Prosiectau Seilwaith yng Nghymru?**
9. **A ydych yn cytuno mai Gweinidogion Cymru, yn y pen draw, a ddylai benderfynu fesul achos p'un a yw Prosiect Seilwaith dewisol yng Nghymru yn gymwys fel y cyfryw ai peidio? Os nad ydych, pam?**
10. **A ydych yn cytuno y dylai dynodiad yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru fod yn faen prawf o ran p'un a yw datblygiad yn gymwys fel Prosiect Seilwaith yng Nghymru? Os nad ydych, pam?**

<sup>55</sup> [Polisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd, 2015](#)

- 11. A ydych yn cytuno â'r trothwyon gorfodol a dewisol arfaethedig ar gyfer Prosiectau Seilwaith yng Nghymru? Os nad ydych, pam?**
- 12. A ydych yn cytuno â'n cynigion i gael gwared ar yr angen am ganiatâd o dan Ddeddf Trydan 1989 ar gyfer pob datblygiad yn ardal glannau Cymru? Os nad ydych, pam?**

## 5. Y broses rhoi caniatâd unedig

### Caniatâd Seilwaith yng Nghymru

#### Trosolwg

- 5.1 Rydym yn cynnig sefydlu Caniatâd Seilwaith yng Nghymru (“CSC”), sy'n gwireddu ein olwg o ran creu un broses unedig ar gyfer rhoi caniatâd. Bwriedir i'r CSC fod yn ganiatâd ystwyth a hyblyg o ran proses, sy'n gallu sicrhau gwelliannau sylweddol o ran cyflymder, tryloywder a rhagweladwyedd penderfyniadau o gymharu â'r prosesau presennol.
- 5.2 Bydd y CSC yn ein galluogi i ddwyn ynghyd yr ystod o awdurdodiadau, trwyddedau a chaniatadau sydd eu hangen i gyflawni prosiectau y rhagnodir eu bod yn PSCau, a bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried prosiectau mewn modd cyfannol. Lle y bo'n ofynnol, gall y broses ddarparu'r holl awdurdodiadau sydd eu hangen i fwrw ymlaen. Byddai hyn yn symleiddio'r broses i ddatblygwyr, cymunedau ac ymgyngoreion.

#### Cwmpas

- 5.3 Lle y gwneir cais amdano, bydd y CSC arfaethedig yn disodli amryw gyfundrefnau rhoi caniatâd yng Nghymru a gall roi darpariaeth i hyrwyddwr cynllun sy'n cyfateb i'r canlynol:
- Caniatâd cynllunio<sup>56</sup>;
  - Gorchmynion sy'n gysylltiedig â phriffyrdd<sup>57</sup>;
  - Gorchmynion diwygio harbyrau neu orchmynion grymuso<sup>58</sup>;
  - Caniatadau i adeiladu gorsafoedd cynhyrchu a llinellau trydan uwchben.<sup>59</sup>
- 5.4 Drwy gael gwared ar y gallu i wneud cais am y caniatadau hynny, bydd gweithdrefn gyson ar gyfer pob math o seilwaith. Ochr yn ochr â hyn, cynigir hefyd y dylid rhoi opsiwn i hyrwyddwyr cynlluniau symleiddio'r gwahanol ganiatadau eilaidd sydd eu hangen i roi cynllun ar waith a'u cynnwys mewn un prif ganiatâd. Gall y caniatadau eraill hyn gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:
- Gorchmynion prynu gorfodol;
  - Ffyrddfreintiau angenrheidiol<sup>60</sup>;
  - Gorchmynion cwmpo neu docio coed<sup>61</sup>;
  - Trwyddedau morol;
  - Caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad cysylltiedig;
  - Caniatâd adeilad rhestredig;
  - Caniatâd heneb restredig;

<sup>56</sup> A.57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

<sup>57</sup> A.10, a.14, a.16, a.17, a.18, a.19, a.106, a.100, a.108, a.239, a.240, a.250, a.260 o Ddeddf Priffyrdd 1980, a.6 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ac a.2 o Ddeddf Caffael Tir 1981

<sup>58</sup> A.14 ac a.16 o Ddeddf Harbyrau 1964

<sup>59</sup> A.36 ac a.37 o Ddeddf Trydan 1989

<sup>60</sup> Paragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf Trydan 1989

<sup>61</sup> Paragraff 9 o Atodlen 4 i Ddeddf Trydan 1989

- Caniatadau ar gyfer gwaith ar dir comin neu ddadgofrestru neu gyfnewid tir comin;
- Cau neu wyro priffyrdd;
- Caniatâd sylweddau peryglus;
- Caniatâd ar gyfer gwaith ar goed a warchodir;
- Trwyddedau amgylcheddol;
- Caniatadau ar gyfer cronni neu dynnu dŵr;
- Cysylltiadau newydd i garthffosydd cyhoeddus;
- Trwyddedau ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, planhigion a mathau eraill o fywyd gwyllt.

5.5 Pan fydd caniatadau eraill yn cael eu cynnwys mewn CSC, gall y CSC gynnwys amodau y gall y caniatâd eilaidd fod wedi'u cynnwys fel arall. Nid y bwriad yw gwanhau'r safonau asesu a chraffu ar y caniatadau hyn lle cant eu gwneud ochr yn ochr a CSC. Byddem yn croesawu sylwadau ar ba ganiatadau penodol y dylid eu cynnwys yn y broses neu beidio eu cynnwys ynddi.

#### *Ffurf*

- 5.6 Un o'r prif feirniadaethau o gyfundrefnau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yw natur gymhleth yr allbwn ac, o bryd i'w gilydd, gall gymunedau ei chael hi'n anodd deall beth mae caniatâd yn ei olygu. At hynny, ceir awdurdodau eraill ar wahân i'r awdurdod rhoi caniatâd a all fod yn gyfrifol am gyflawni amodau, a gall yr amser a gymerir iddynt ddeall dogfennau penderfyniadau cymhleth ac anghyfarwydd achosi aneffeithlonrwydd.
- 5.7 Er mwyn cynnig rhywbeth sy'n gyfarwydd i gymunedau a'r awdurdodau hynny y mae'n rhaid iddynt gyflawni amodau neu fonitro unrhyw ganiatâd, rydym yn cynnig y dylid tybio bod y CSC ar ffurf caniatâd safonedig ag amodau. Credwn y bydd manteision sylweddol i'r dull gweithredu hwn o ran hygyrchedd penderfyniadau, cost drafftio ac amseroldeb o ran gwneud penderfyniadau.
- 5.8 Er hynny, rydym yn deall y bydd achlysuron pan fydd angen offeryn statudol. Bydd proses CSC yn cael ei caniatáu trwy offeryn statudol o dan amgylchiadau penodedig. Er mwyn sicrhau ei bod yn glir i hyrwyddwyr p'un a oes angen caniatâd safonedig neu offeryn statudol, byddwn yn nodi meini prawf clir mewn deddfwriaeth sy'n gwneud offeryn statudol yn ofynnol o dan amgylchiadau diffiniedig. Rydym yn rhagweld y byddant wedi'u cyfyngu i amgylchiadau lle y bydd y prosiect arfaethedig yn effeithio ar hawliau tir, er enghraifft lle bo'r caniatâd yn cynnwys caffael gorfodol a lle bo angen gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol mewn rhyw ffordd.
- 5.9 O ystyried y gwahanol lefelau o gymhlethdod sy'n gysylltiedig ag offeryn statudol a chaniatâd safonedig, er lles hyblygrwydd rydym yn cynnig dwy amserlen statudol ar wahân (gweler *paragraff 5.51*) y mae'n rhaid gwneud penderfyniadau oddi mewn iddynt.

### *Ystwythder*

- 5.10 Er mwyn darparu cyfundrefn ystwyth, rydym yn ystyried ffyrdd o ychwanegu elfennau llwybr carlam ar gyfer dosbarthiadau neu fathau penodol o PSC, er mwyn sicrhau proses gwneud penderfyniadau fwy cymesur. Lle yr ystyrir nad yw ceisiadau'n ddadleuol nac yn destun gwrthwynebiadau, byddwn yn ystyried systemau sy'n cyflymu'r broses gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys dirprwyo rhai swyddogaethau gwneud penderfyniadau i'r Arolygydd sy'n archwilio'r cais a llai o ofynion o ran ymgynghori o dan amgylchiadau sydd wedi'u diffinio'n glir.

### *Didueddrwydd*

- 5.11 Er mai i Weinidogion Cymru y byddai ceisiadau'n cael eu cyflwyno ac mai nhw fydd yn gwneud y penderfyniadau, mewn enw, yn y pen draw, rydym yn cynnig y dylai ceisiadau gael eu harchwilio a'u gweinyddu gan Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru, gyda'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau'n cael ei chadw i un o Weinidogion Cymru. Rydym hefyd yn cynnig y gallu i benodi mwy nag un Arolygydd gyda Phrif Arolygydd yn adrodd i Weinidogion Cymru ar gyfer achosion mwy cymhleth.

### *Sicrwydd wrth wneud penderfyniadau*

- 5.12 Er mwyn rhoi lefel o sicrwydd i unrhyw ddatblygwr sy'n dymuno hyrwyddo prosiect seilwaith yng Nghymru ac er mwyn sicrhau bod cymunedau'n ymwybodol o'r rhesymau dros benderfyniadau, mae'n hanfodol i broses rhoi caniatâd effeithlon wneud penderfyniadau'n seiliedig ar bolisi sydd ar gael i'r cyhoedd ac sydd eisoes wedi bod drwy broses graffu briodol ac yn sefydlu egwyddor datblygu.
- 5.13 Mae Llywodraeth Cymru yn llunio cynlluniau statudol. Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ("FfDC") a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru ("CMCC"). Er nad yw'r naill gynllun na'r llall wedi'u mabwysiadu eto, maent yn cael eu llunio i ategu ei gilydd o ran amcanion a pholisïau. Bwriedir i Lywodraeth Cymru fabwysiadu'r ddau cyn 2020, sy'n debygol o fod cyn i broses CSC ddod i rym.
- 5.14 Bydd y FfDC yn nodi fframwaith defnydd tir 20 mlynedd i Gymru ac yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Bydd yn gweithredu ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru a bwriedir iddo gefnogi strategaethau cenedlaethol mewn perthynas â'r economi, trafnidiaeth, yr amgylchedd, tai, ynni a diwylliant a sicrhau y gellir eu cyflawni drwy'r system gynllunio. Bydd y FfDC yn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau ynghylch PSCau.
- 5.15 Ochr yn ochr â'r FfDC, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn llunio'r CMCC cyntaf. Diben y cynllun hwn yw rheoli gweithgareddau morol mewn ffordd gynaliadwy, gan ystyried blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd y cynllun yn cwmpasu ardal glannau ac ardal môr mawr Cymru. Lle y bydd unrhyw benderfyniad neu awdurdodiad yn cael ei wneud yn yr ardal y



mae CMCC yn effeithio arni, rhaid i'r awdurdod dan sylw wneud penderfyniad yn unol â CMCC, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall<sup>62</sup>.

- 5.16 Bwriedir i'r naill gynllun a'r llall nodi ble y bydd datblygiadau yng Nghymru a'i dyfroedd yn digwydd a byddant yn darparu polisiâu penodol i arwain datblygiadau. Credwn y bydd y FfDC a CMCC yn darparu'r brif sail polisi ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch proses CSC.
- 5.17 Mae defnyddio system o ddatganiadau polisi seiliedig ar bynciau sy'n ategu'r FfDC a CMCC wedi cael ei ystyried, yn debyg i Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU wrth wneud penderfyniadau ynghylch Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Er nad ydym yn ystyried mai datganiadau o'r fath fydd y brif sail polisi ar gyfer gwneud penderfyniadau, rydym yn cydnabod y gall newidiadau mewn amgylchiadau olygu bod angen llunio polisi pellach. Lle bo angen, caiff datganiadau polisi seiliedig ar bynciau ychwanegol eu llunio a bydd y datganiadau hyn yn y brif ystyriaeth, yn enwedig yn achos ardaloedd nad yw'r FfDC na CMCC yn eu cwmpasu.
- 5.18 O ran craffu, mae'r FfDC yn destun proses benodedig a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol, sy'n golygu bod angen craffu gorfodol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru<sup>63</sup>. Bwriedir i CMCC fod yn destun craffu gan y Cynulliad hefyd.
- 5.19 Er y bydd ystyriaethau perthnasol eraill, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïâu cenedlaethol, rydym yn cynnig y bydd gan y FfDC a CMCC uchafiaeth yn y broses gwneud penderfyniadau.

### **Gwasanaethau cyn gwneud cais a chyflwyno'r cais**

#### *Trosolwg*

- 5.20 Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr baratoi ceisiadau o safon bendant cyn eu cyflwyno. Bydd cynnig gwasanaethau cyn gwneud cais a'i gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gynnal ymgynghoriadau cyn gwneud cais ar gamau rhagarweiniol proses CSC yn helpu i sicrhau bod ceisiadau am ganiatâd yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth ac yn gyflym ar ôl iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol am benderfyniad oherwydd gellir codi a thrafod unrhyw faterion sylweddol cyn yr adeg hon. At hynny, bydd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygwyr ymgysylltu â chymunedau lleol yn gynnar. Amlinellir ein cynigion isod:

#### *Gwasanaethau cyn gwneud cais*

- 5.21 Mae darparu gwasanaethau cyn gwneud cais yn gwella safon ceisiadau ac yn hwyluso penderfyniadau cyflymach.
- 5.22 Cyn cyflwyno cais, mae'r rhan fwyaf o ddatblygwyr yn cael budd o ddefnyddio gwasanaeth cyn gwneud cais sy'n gyfle iddynt drafod eu cynnig datblygu yn

<sup>62</sup> A.58(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

<sup>63</sup> A.3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015

fanwl, cael gwybodaeth am y safle a'r ardal leol, nodi'r fframwaith polisi perthnasol a chael adborth cychwynnol ar eu cynnig datblygu. Gall y wybodaeth hon fod o gymorth wrth ddatblygu cynnig er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyflawn yn cael ei rhoi i'r gymuned a'r awdurdod sy'n penderfynu a sicrhau bod y cais yn mynd drwy'r broses archwilio yn fwy hwylus.

5.23 Yn debyg i'r broses DAC bresennol, rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i ACLI(au) a Gweinidogion Cymru ddarparu gwasanaethau cyn gwneud cais i ddarpar ymgeiswyr o dan amgylchiadau diffiniedig ar gais. Bydd Gweinidogion Cymru a'r ACLI(au) yn cael eu had-dalu'n briodol am roi'r cyngor hwn. Rydym yn cynnig y gellir gwneud cais am wasanaethau cyn gwneud cais ar unrhyw adeg cyn gwneud cais am brosiect seilwaith, gan gynnwys cyn unrhyw ymgynghoriad neu hysbysiad ffurfiol ynghylch prosiect arfaethedig. Rydym hefyd yn cynnig y dylai'r gwasanaethau gan Weinidogion Cymru gynnwys cyngor am deilyngdod cynllun arfaethedig.

5.24 Er lles tryloywder a llywodraethu agored, cynhelir cofnod cyhoeddus a fydd yn cynnwys manylion unrhyw wasanaethau cyn gwneud cais a ddarparwyd.

#### *Hysbysu cyn gwneud cais*

5.25 Mae sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid perthnasol yn gallu llywio datblygiadau arfaethedig cyn gynted â phosibl yn helpu i sicrhau y gellir bwrw ymlaen â'r cynlluniau gorau ac y gellir gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau mewn modd amserol.

5.26 Cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad cyn gwneud cais, bydd yn ofynnol i ddarpar ymgeiswyr hysbysu Gweinidogion Cymru ac ACLI(au) yr ardal(oedd) lle mae safle'r datblygiad wedi'i leoli, neu'r ACLI(au) agosaf ar gyfer datblygiadau ar y môr, am eu bwriad i gyflwyno cais am PSC. Rydym yn bwriadu cynnwys gofyniad i'r ymgeisydd nodi manylion sut mae'n bwriadu cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais yn ogystal ag amserlen ddangosol.

5.27 Ceir terfyn amser ar gyfer hysbysu ynghylch y bwriad i wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y broses DAC bresennol. Fodd bynnag, mae nifer o hysbysiadau wedi dod i ben ac mae wedi bod yn ofynnol i ymgeiswyr ailhysbysu Gweinidogion Cymru, sy'n gallu achosi dryswch a chost ychwanegol yn ogystal â bod yn anghynhyrchiol. Gan ein bod yn parhau i werthfawrogi cael ein hysbysu ar gam cynnar o brosiect arfaethedig, nid ydym yn cynnig y dylai'r hysbysiad fod yn destun terfyn amser ar gyfer gwneud cais. Fodd bynnag, er mwyn taro'r cydbwysedd cywir a rhoi sicrwydd i gymunedau ynglŷn ag amserlenni, rydym yn rhagweld y byddwn yn gosod rhai amodau ar ein gofynion o ran ymgynghori cyn gwneud cais.

#### *Gofynion ymgynghori*

5.28 Ymgynghori trylwyr gan y datblygwr cyn gwneud cais yw'r sail ar gyfer cyfundrefn rhoi caniatâd effeithlon.

5.29 Awgryma ein tystiolaeth fod cyswllt clir rhwng safon y gwaith paratoi a'r ymgynghori cyn gwneud cais a hyd a chymhlethdod y broses archwilio i'r

datblygwr. Gall ymgynghori da cyn gwneud cais helpu cymunedau ac ymgynghoreion i ddeall cynnig yn well fel y gallant gyfrannu at y broses rhoi caniatâd mewn ffordd wybodus a chynhyrchiol.

- 5.30 Mae'n hanfodol bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid perthnasol yn cael gwybod cyn gynted â phosibl am ddatblygiadau arfaethedig sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn golygu y gellir eu cynnwys ac ymgysylltu â nhw yn fwy effeithiol. Gan fod pob cynllun yn wahanol ac y bydd angen lefel wahanol o ymgysylltu ar bob un, nid ydym yn cynnig gosod gofynion rhagnodol ar ymgeiswyr i gynnal ymgynghoriadau systematig fesul cam. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu i ddatblygwyr fodloni dau brif ofyniad:
- 5.31 Yn gyntaf, ar ôl i'r ymgeisydd hysbysu Gweinidogion Cymru, rhaid i'r ymgeisydd greu a chynnal gwefan benodol nes y bydd cais yn cael ei gyflwyno, sy'n nodi manylion y datblygiad seilwaith arfaethedig. Amcan y gofyniad i gynnal gwefan yw sicrhau bod y gymuned ac ymgynghoreion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt prosiect arfaethedig yn rheolaidd a'u bod yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau neu ofynion y gallant wneud sylwadau arnynt.
- 5.32 Yn ail, er mwyn sicrhau safon ofynnol ar gyfer ymgynghori, cyn cyflwyno cais, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyhoeddi'r cais drafft y maent yn bwriadu ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a chynnal ymgynghoriad yn ei gylch. Dyma'r gofyniad sylfaenol ac ni ddylid ystyried bod bodloni'r gofynion sylfaenol yn sicrhau y bydd y cais yn cael ei archwilio'n hwylus ac yn llwyddiannus.
- 5.33 Nod y cam statudol hwn yw sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid perthnasol wedi gwneud sylwadau a bod y sylwadau hyn wedi cael eu hystyried. Ar ôl cynnal ymgynghoriad ynghylch manylion llawn y drafft, dylai darpar ymgeiswyr fod mewn sefyllfa i gyflwyno cais sydd fwyaf addas i'r ardal leol.
- 5.34 Y bwriad yw y bydd yr ymgeisydd wedi datblygu ei gynllun yn barhaus ac wedi ymgynghori â chymunedau a rhanddeiliaid ar adegau amrywiol cyn y cam hwn, yn unol ag arfer gorau a'i amserlen benodedig. Gall methu ag ymgynghori'n effeithiol a datrys problemau effeithio ar siawns yr ymgeisydd o lwyddo ar y cam archwilio.
- 5.35 I sicrhau bod yr holl waith ymgynghori a gyflawnir yn cael ei ddogfennu, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n dogfennu sut y cafodd unrhyw sylwadau a dderbyniwyd eu hystyried ar ôl cyflwyno'r cynllun llawn i Weinidogion Cymru. Bydd adroddiad o'r fath yn dangos lle mae'r darpar ymgeisydd wedi mynd i'r afael â sylwadau a dderbyniwyd a lle nad yw wedi gwneud hynny, gan roi cyfle iddo gyfiawnhau unrhyw achosion lle nad yw wedi gweithredu.

#### *Cyflwyno cais*

- 5.36 Er mwyn rhoi sicrwydd i'r gymuned ynglŷn ag amserlenni, rydym yn cynnig ei bod yn rhaid i gais am CSC gael ei gyflwyno o fewn blwyddyn i ddechrau'r cam ymgynghori cyn gwneud cais statudol. Mae'r cyfnod hwn yn benodedig

er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yr ymgynghorir yn ei chylch fel rhan o gais drafft yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol ar adeg cyflwyno'r cais. Os bydd yr ymgeisydd yn methu â gwneud hyn, bydd angen iddo gynnal y cam ymgynghori statudol eto.

- 5.37 Rydym yn cynnig gosod gofynion dilysu sylfaenol craidd ar gyfer pob cais, ynghyd â gofynion ychwanegol yn dibynnu ar y math o ddatblygiad a ph'un a oes angen caniatadau, awdurdodiadau neu drwyddedau ychwanegol. Ar gyfer pob cais newydd, rydym yn cynnig ei bod yn rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno drafft o'i ganiatâd. Mewn rhai achosion (a amlinellir ym *Mharagraff* 5.9), gall y caniatâd fod yn offeryn statudol.

### **Asesu ac archwilio**

#### *Trosolwg*

- 5.38 Bydd proses effeithlon yn sicrhau bod pob cais am seilwaith yng Nghymru yn cael ei archwilio gan ddefnyddio'r dull mwyaf priodol, cymesur ac amserol gan sicrhau bod adroddiadau o safon yn cael eu paratoi er mwyn arwain at broses gwneud penderfyniadau gadarn. Mae ein cynigion ar gyfer archwilio yn adeiladu ar ddiwygiadau cynllunio blaenorol yn yr ystyr eu bod yn mabwysiadu'r egwyddor mai'r Arolygydd sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y dull archwilio mwyaf priodol. I gyrraedd y cam hwn, gall Gweinidogion Cymru ofyn am sylwadau gan ymgynghoreion, ACLlau a chymunedau ar y cynnig datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn deall y prif effeithiau ac yn gallu eu harchwilio'n unol â hynny.

#### *Y weithdrefn gychwynnol*

- 5.39 Fel gyda'r broses bresennol ar gyfer penderfynu ynghylch DAC, rydym yn cynnig nodi cyfnod cychwynnol ar gyfer derbyn cais CSC, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth amgylcheddol a gyflwynir gydag ef yn briodol a bod y cais yn gallu symud ymlaen i'r cam archwilio. Ar ôl cael ei dderbyn, bydd y cyfnod statudol ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch y cais yn dechrau.
- 5.40 I lywio'r ffordd y caiff y cais ei archwilio ac er mwyn nodi'r prif faterion, rydym yn cynnig cyfnod cychwynnol o hysbysebu a hysbysu gan wahodd sylwadau gan gymunedau ac ymgynghoreion statudol. Y gallu i wneud sylwadau ar gais a gyflwynwyd ar y cam hwn yw'r cyfle olaf i wneud sylwadau ar y cynllun gan y byddai trafodaethau wedi'u cynnal a sylwadau wedi'u cyfnewid ar y cam cyn gwneud cais.
- 5.41 Caiff y broses hon ei gweithredu'n ddigidol. Lle y bo modd, byddwn yn sicrhau y gellir bodloni gofynion hysbysu mewn perthynas â'r ymgynghoriad ac arddangos dogfennau ar-lein, gan gadw'r cyfleuster sy'n galluogi pobl i gymryd rhan neu gael eu hysbysu mewn ffyrdd mwy confensiynol lle na allant wneud hynny ar-lein.

- 5.42 Cafodd y gofyniad i ymgynghoreion ddarparu ymateb o sylwedd i geisiadau cynllunio ei gyflwyno gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015<sup>64</sup>. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau ymatebion o safon barhaus gan ymgynghoreion statudol. Ni welwn unrhyw reswm dros beidio â chynnwys y gofyniad i ymgynghoreion statudol ddarparu ymateb o sylwedd mewn proses rhoi caniatâd seilwaith newydd.
- 5.43 O dan y broses DAC bresennol, mae'n ofynnol i'r ACLI gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol ("LIR") sy'n dogfennu gwybodaeth ffeithiol am effaith y datblygiad yn ystod gweithdrefn gychwynnol y cais. Rydym yn bwriadu cadw'r gofyniad hwn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall yr amserlenni ar gyfer cyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol fod yn fyr o dan rai amgylchiadau, gan arwain at sensitifrwydd gwleidyddol. Byddem yn croesawu sylwadau ar amserlenni priodol ar gyfer cyflwyno adroddiad o'r fath.

### *Archwilio*

- 5.44 Bydd proses effeithlon yn archwilio ceisiadau yn ffordd fwyaf priodol, cymesur ac amserol gan sicrhau bod adroddiadau o safon yn cael eu paratoi er mwyn arwain at broses gwneud penderfyniadau gadarn. Bydd ein cynigion ar gyfer archwilio yn adeiladu ar ddiwygiadau cynllunio blaenorol yn yr ystyr eu bod yn mabwysiadu'r egwyddor mai'r Arolygydd sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y dull archwilio mwyaf priodol.
- 5.45 Rydym yn cynnig amrywiad o'r prosesau presennol, sef y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud asesiad cychwynnol o'r prif faterion sy'n deillio o gais, gyda'r bwriad o nodi amserlen ar gyfer archwilio. Bydd yr amserlen yn nodi erbyn pryd y bydd angen cyflwyno sylwadau pellach â therfyn geiriau, pryd y caiff gwrandawiadau eu cynnal, a chwmpas y gwrandawiadau hynny. Rydym yn cynnig y dylai ceisiadau gael eu harchwilio gan ddefnyddio un o'r gweithdrefnau canlynol, neu unrhyw gyfuniad ohonynt, yn unol ag amserlen a bennir gan yr Arolygydd a benodwyd:
- Sylwadau ysgrifenedig;
  - Gwrandawriad cyn archwilio;
  - Gwrandawriad llawr agored;
  - Gwrandawriad pwnc-benodol.
- 5.46 Er mwyn cynnwys y gymuned yn fwy yn y broses, rydym yn bwriadu cyflwyno gwrandawiadau llawr agored. Y bwriad yw cael gwared ar y ffurfioldeb sydd fel arfer yn gysylltiedig ag ymchwiliadau a mynd i'r afael â materion penodol drwy gynnal gwrandawiadau yn unig. Credwn fod hyn yn ffordd o'i gwneud yn haws i bobl gymryd rhan mewn digwyddiadau archwilio. Fodd bynnag, bydd Arolygwyr yn cadw'r gallu i ganiatáu croesholi mewn gwrandawiadau lle bo hynny'n ddefnyddiol ac yn angenrheidiol, er enghraifft mewn achos Prynu Gorfodol.

### *Amrywio ceisiadau*

---

<sup>64</sup> A.37 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015

- 5.47 Mae'r broses bresennol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau NSIP a DAC wedi llwyddo i gyfyngu newidiadau i gynlluniau ar ôl iddynt gael eu derbyn, gan roi rhywfaint o sicrwydd i gymunedau ac ymgynghoreion ynglŷn â sut y bydd y cynllun yn edrych drwy gydol y broses benderfynu. Er hynny, gallwn ragweld amgylchiadau lle y bydd angen newid cynllun yn dilyn sylwadau a wnaed gan gymunedau, ymgynghoreion ac ACLlau. Yn unol â hynny, cynigir y dylid caniatáu cyfnod i wneud amrywiadau, yn debyg i'r broses DAC.
- 5.48 Er mwyn sicrhau lefel o sicrwydd ac i gyfyngu ar gwmpas y newidiadau, byddant wedi'u cyfyngu i fân newidiadau neu newidiadau amherthnasol. Ar y cyfan, ni fydd newidiadau sy'n newid hawliau tir, yn gwneud newidiadau i'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, yn ysgogi'r angen am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd neu'n cael mwy o effaith ar gymunedau neu fusnesau yn cael eu derbyn. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu yn ôl eu disgrisiwn p'un a ddylid derbyn yr amrywiad arfaethedig.

## **Penderfyniadau**

### *Ystyriaethau*

- 5.49 Ar ôl i gais gael ei archwilio, bydd yn ofynnol i'r Arolygydd nodi ei gasgliadau a'i argymhellion i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad terfynol p'un a ddylid rhoi neu wrthod caniatâd. Bydd hyn yn gweithio mewn ffordd debyg i geisiadau DAC. Fodd bynnag, gallwn gadw'r gallu i'w gwneud yn ofynnol bod yr Arolygydd yn penderfynu ynghylch dosbarthiadau penodol o ganiatâd seilwaith fel rhan o broses 'llwybr carlam' (gweler *Paragraff 5.10*).
- 5.50 Rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud yn unol â'r cynlluniau cenedlaethol, sef y FfDC (ar y tir) a CMCC (ar y môr) ac unrhyw ddatganiad polisi pwnc ychwanegol, ac eithrio lle bo ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Gall yr ystyriaethau hynny gynnwys y canlynol:
- Polisi Cynllunio Cymru neu unrhyw ddatganiadau polisi seiliedig ar bynciau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
  - Unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar a geir;
  - Yr Adroddiad ar yr Effaith Leol, sy'n ddatgan y bolisi lleol a strategol perthansol;
  - Y Gymraeg; neu
  - Ystyriaethau perthnasol eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

### *Amserlenni statudol*

- 5.51 Gan fod y broses yn seiliedig ar roi sicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau, rydym yn cynnig amserlen statudol ar gyfer penderfynu ar gais. Cynigiwn eu bod fel a ganlyn:
- 52 wythnos o dderbyn ceisiadau i wneud penderfyniadau lle bo angen offeryn statudol;
  - 36 wythnos o dderbyn ceisiadau i wneud penderfyniadau lle nad oes angen offeryn statudol.

- 5.52 Cynigir dwy amserlen ar wahân ac amserlen hwy yn seiliedig ar y cymhlethdod sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â rhoi caniatâd i brosiect drwy offeryn statudol. Fel arfer, byddai achosion o'r fath yn ymyrryd ar hawliau statudol a hawliau tir, a all olygu bod angen eu hystyried a'u harchwilio'n fanylach. Cynigir dwy amserlen ar wahân i adlewyrchu ehangder prosiectau y gellir penderfynu arnynt drwy'r broses.

#### *Herio penderfyniadau*

- 5.53 Er mwyn rhoi hyder i gymunedau bod ceisiadau am CSCau yn cael eu harchwilio'n briodol a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n deg i bawb dan sylw, dylai fod cyfle i herio penderfyniadau. Byddai penderfyniadau Gweinidogion Cymru yn cael eu herio'n gyfreithiol drwy'r broses Adolygiad Barnwrol. Byddai'r cyfle hwn i herio ar gael i'r gymuned neu unrhyw berson neu grŵp arall y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt oherwydd annhegwch gweithdrefnol, afresymoldeb neu anghyfreithlondeb. Rhaid i unrhyw her gael ei chyflwyno o fewn chwe wythnos i benderfyniad.

#### **Ar ôl rhoi caniatâd**

#### *Gorfodi ac Amodau*

- 5.54 Yn achos cais a gymeradwyir am CSC, rydym yn cynnig y caiff Gweinidogion Cymru nodi unrhyw amodau, a all gynnwys mesurau lliniaru, y mae'n rhaid i dderbynydd y caniatâd gydymffurfio â nhw. Byddai unrhyw amodau'n parhau i fod yn destun y profion a nodir yn y Cylchlythyr amodau<sup>65</sup>. Hefyd, caiff Gweinidogion Cymru atodi amodau a fyddai, fel arall, yn cael eu hatodi i unrhyw ganiatâd eilaidd y gwneir cais amdano fel rhan o'r CSC fel arfer. Yr awdurdod gorfodi perthnasol fydd yn bennaf gyfrifol am gyflawni amodau o hyd, sef yr ACLI ar y tir a Gweinidogion Cymru ar y môr, ond gellir dirprwyo swyddogaethau i gyrrff eraill fel y nodir yn y caniatâd.
- 5.55 O ran gorfodi penderfyniadau, yr ACLI yw'r awdurdod mwyaf priodol i fonitro cynlluniau ar y tir a gymeradwywyd am fod ganddynt bresenoldeb yn y gymuned leol, mantais logistaidd a'r sgiliau angenrheidiol a'r wybodaeth leol i bennu p'un a oes unrhyw amodau wedi cael eu torri. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi mwyaf priodol ar y môr, am eu bod yn arbenigo mewn gorfodi trwyddedau morol.

#### *Newidiadau i ganiatadau, gan gynnwys amodau*

- 5.56 Rydym yn cydnabod y gall yr amgylchiadau newid ar ôl rhoi caniatâd. Er mai bwriad camau rhagarweiniol y broses yw rhoi sicrwydd ynglŷn â'r caniatâd sydd wedi cael ei roi, rydym yn deall y gellir cyflawni arbedion effeithlonrwydd o ran y gwaith dylunio a lliniaru effeithiau'n well ar ôl i gynllun gael caniatâd. Gall achosion o'r fath godi yn sgil datblygiadau technolegol neu lle y darganfyddir effeithiau newydd cyn y gwaith adeiladu.

---

<sup>65</sup> Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu.

- 5.57 Gan ystyried mai Gweinidogion Cymru a oedd wedi ymdrin â'r caniatâd gwreiddiol, credwn ei bod yn rhesymegol iddynt ymdrin ag unrhyw amrywiadau i amodau neu'r cynllun yn ei gyfanrwydd ar ôl y penderfyniad. Byddai'r union ffordd yr ymdrinnir ag unrhyw amrywiad yn dibynnu ar yr effaith bosibl. Er enghraifft, lle bo amrywiad yn arwain at fwy o effeithiau amgylcheddol neu'n effeithio ymhellach ar hawliau tir, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddefnyddio'r un dull gweithredu cyffredinol â'r caniatâd cychwynnol. Fodd bynnag, lle bo'r amrywiad yn gymharol fach ei natur, byddwn yn defnyddio gweithdrefnau wedi'u cyflymu sy'n cyfyngu'r cwmpas ar gyfer ymgynghori i'r partïon perthnasol ac yn arwain at benderfyniad cyflym o ran derbyn neu wrthod sy'n sicrhau y gall y datblygiad fynd rhagddo â sicrwydd.
- 5.58 Byddwn yn parhau i ddatblygu ffyrdd o ddarparu proses rhoi caniatâd seilwaith ar y llwybr carlam a byddem yn croesawu sylwadau ynghylch sut y gellir darparu proses syml ar gyfer newidiadau.

### **Ffioedd a chostau**

#### *Ffioedd*

- 5.59 Mae'r broses bresennol ar gyfer penderfynu p'un a oes angen caniatâd cynllunio ar brosiectau DAC yn cael ei gweithredu ar sail adennill costau'n llawn. Yn unol ag egwyddorion arian cyhoeddus<sup>66</sup> sy'n ymwneud â phennu costau am wasanaeth, ac er mwyn darparu trefniadau sy'n diwallu ac yn cydbwysu anghenion rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y diwydiant datblygu a chymunedau, byddwn yn parhau i anelu at adennill costau'n llawn, gan gynnwys cost safonol cyfalaf.
- 5.60 O ystyried natur amrywiol PSCau, rydym yn cynnig y dylai unrhyw ffioedd fod yn seiliedig ar y math o archwiliad sydd dan sylw, a'i hyd, a byddant yn gyfuniad o ffioedd sefydlog ac amrywiadwy. Defnyddir ffioedd sefydlog lle y bo modd os oes elfen safonedig i'r broses rhoi caniatâd. Fodd bynnag, gan y gall archwiliadau amrywio o brosiect i brosiect, ceir elfen amrywiadwy sylweddol sy'n seiliedig ar gyfradd ddyddiol.
- 5.61 Er bod ein cynigion ar gyfer ffioedd yn cynnig y cyfle gorau i adennill costau'n llawn, rydym yn cydnabod na fydd hyn yn rhoi sicrwydd ynglŷn â lefel debygol y ffi i'r datblygwr. Er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd i ddatblygwyr at ddibenion rheoli cyllideb, bwriedir i Weinidogion Cymru roi amcan o'r ffi ar ôl i'r dull archwilio gael ei amserlenni a'i nodi'n llawn.
- 5.62 Lle y ceir PSCau dewisol a all fynd rhagddynt drwy broses CSC neu drwy'r awdurdod rhoi caniatâd arferol, rydym yn cydnabod y bydd angen i'r datblygwr ddewis y broses fwyaf addas i'w dilyn. Er y bydd ffordd wahanol o gyfrifo ffioedd ar gyfer ceisiadau am CSC o gymharu â cheisiadau cynllunio, Gorchmynion Diwygio neu Grymuso Harborau a Thrwyddedau Morol, ein nod yw sicrhau nad yw lefel debygol y ffioedd a'r costau yn ffactor wrth benderfynu pa broses i'w dilyn. Rydym am sicrhau bod y datblygwr yn dewis y dull rhoi caniatâd yn seiliedig ar y broses yn unig.

<sup>66</sup> Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (Adran 6), Ionawr 2016



- 5.63 Ar ôl i CSC gael ei dderbyn, bydd angen cyfraniad gan unrhyw ACLI perthnasol ar ffurf Adroddiad o'r Effaith Leol ("LIR"). Rydym yn cydnabod mai'r ACLI a fyddai'n penderfynu ar y rhan fwyaf o geisiadau am PSCau pe na bai proses CSC ar waith, a bydd cost ynghlwm wrth y gwaith o lunio LIR. Rydym yn bwriadu ad-dalu'r ACLI â ffi sefydlog am lunio'r LIR. Byddwn yn parhau i weithio gydag ACLlau i bennu'r gwir gost yr ânt iddi yn sgil llunio LIR.
- 5.64 Bydd proses arfaethedig CSC yn cynnwys gwaith arferol i ymgynghoreion statudol ac ACLlau, megis ymateb i ymholiadau cyn gwneud cais, ymateb i yngyngoriadau ar sail statudol a, lle y bo angen, cymryd rhan mewn archwiliad. Bydd yn agored i'r partion wneud trefniadau gyda'r ymgeisydd ar ffurf Cytundeb Perfformiad Cynllunio, sicrhau'r adnoddau a'r cyfranogiad perthnasol, a helpu'r ymgeisydd i roi penderfyniad cadarn iddynt. Byddwn yn cyflwyno system codi tâl wedi'i ffurfioli ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais ar gyfer Gweinidogion Cymru ac ACLlau.
- 5.65 Ar ôl i unrhyw CSC gael ei roi, gellir atodi amodau i'r caniatâd sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod, fel Gweinidogion Cymru, ACLI neu ymgynghorai statudol, roi rhagor o wybodaeth. Rydym wedi cael tystiolaeth sy'n awgrymu y gall fod llawer o waith ynghlwm wrth gyflawni amodau. Er mwyn sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu i ddatblygwyr ac adennill cost y gwaith dan sylw, rydym yn cynnig cyflwyno system codi tâl ar gyfer cyflawni unrhyw amod sy'n gysylltiedig â CSC.

#### *Costau*

- 5.66 Y tu hwnt i'r gofyniad am ffioedd, gall fod achlysuron prin wrth benderfynu ar CSC pan geir ymddygiad afresymol sy'n golygu bod partion yn mynd i gostau gwastraffus a diangen. Mae'n rhesymegol i'r gyfundrefn gostau fod yn gymwys i broses CSC. Drwy wneud hyn, bydd ymddygiad y partion sy'n cymryd rhan yn y broses yn cael ei reoleiddio a bydd costau'r rhai y mae ymddygiad afresymol wedi effeithio arnynt yn cael eu hadennill. Mae newidiadau diweddar i'r gyfundrefn gostau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyfarnu costau ac mae angen i unrhyw geisiadau am gostau gael eu gwneud cyn gynted â phosibl. Rydym yn cynnig y bydd y newidiadau hyn a'r canllawiau perthnasol<sup>67</sup> yn parhau i fod yn gymwys at ddiben proses CSC.

#### **Caffael gorfodol**

- 5.67 Credwn fod pwerau caffael gorfodol yn adnodd pwysig i ddod a'r tir sydd ei angen i gyflenwi seilwaith modern a chysylltiedig ynghyd. Mae'r pwerau hyn yn darparu ar gyfer caffael tir neu hawliau tir yn orfodol, diddymu hawliau cyhoeddus neu ymyrryd â nhw a meddiannu tir dros dro. Ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, mae'r ystod hon o bwerau'n hanfodol lle nad yw'n ymarferol caffael yr holl dir neu hawliau sydd eu hangen ar gyfer cynllun drwy gytundeb, neu lle y byddai'r cynllun yn effeithio ar gyfarpar ymgwymerwyr statudol.

#### *Cyflwyno a chyn cyflwyno*

<sup>67</sup> [Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Rheoli Datblygu, Adran 12 Atodiad – Dyfarnu Costau](#)

- 5.68 Lle bo ymgeiswyr yn ceisio'r hawl hon, bydd y CSC drafft ar ffurf offeryn statudol (gweler *Paragraff 5.8*), a bydd y cais yn amodol ar yr amserlen 52 wythnos statudol. Fel gofyniad, caiff Gweinidogion Cymru ond awdurdodi caffael tir yn orfodol os ydynt yn fodlon bod achos cymhellol dros wneud hynny sydd er budd y cyhoedd, bod y weithdrefn berthnasol mewn perthynas â chaffael gorfodol wedi cael ei dilyn a:
- bod angen y tir ar gyfer datblygiad y mae'r CSC yn ymwneud ag ef;
  - bod angen y tir i hwyluso'r datblygiad CSC neu ei fod yn gysylltiedig ag ef; neu
  - mai tir a roddir yn gyfnewid am dir y gorchymyn ydyw, megis tir comin, man agored neu randiroedd.
- 5.69 Er mwyn bwrw ymlaen â chaffael gorfodol fel rhan o gais CSC, rhaid i'r ymgeisydd gynnwys gwybodaeth atodol gyda'i gais. Mae hyn yn cynnwys:
- **Datganiad o resymau** yn cyfiawnhau'r pwerau caffael gorfodol a geisir a pham mae achos cymhellol sydd er budd y cyhoedd;
  - **Datganiad ariannu** yn nodi sut y dylai'r caffael gorfodol gael ei ariannu, gan nodi gwarant atebolrwydd a mathau amgen o sicrwydd;
  - **Cynlluniau manwl** yn nodi'r tir i'w gaffael;
  - **Llyfr cyfeirio** yn nodi, ymhlith pethau eraill, pwy yr effeithir arnynt a phwy fydd yn cael eu cynnwys;
  - **Tystiolaeth groesgyfeirio** o sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriad cyn gwneud cais a sylwadau berthnasol sydd wedi'i wneud ar cais CSC a dderbyniwyd gan y rhai yr effeithir arnynt, yn erbyn eu mynegrif yn y llyfr cyfeirio.
- 5.70 I gyrraedd y cam hwn yn y broses o gyflwyno, disgwylir i'r ymgeisydd fod wedi gwneud ymchwiliadau rhesymol a diwyd ar y cam cyn gwneud cais o ran pwy sydd â buddiannau yn y tir berthnasol a natur eu buddiannau. Rydym yn bwriadu rhoi pwerau i ddarpar ymgeiswyr allu cael y wybodaeth hon yn ogystal â hawliau mynediad i arolygu neu brisio tir.
- 5.71 Cyn cyflwyno, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gynnal cam statudol o ymgynghori cyn gwneud cais (gweler *Paragraff 5.28 i 5.35*) a chyflwyno adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n dogfennu'r ymgynghoriad hwn. Bydd yn ofynnol ymgynghori â'r rhai sydd â buddiannau mewn tir berthnasol y gall caffael gorfodol effeithio arnynt o bosibl fel rhan o'r ymgynghoriad cyn gwneud cais hwn, ac i'w sylwadau ar y datblygiad ac unrhyw elfen caffael gorfodol gael eu cynnwys yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad a'u croesgyfeirio yn erbyn y llyfr cyfeirio.
- 5.72 Gall fod achlysuron pan gaiff partiön ychwanegol sydd â buddiant yn y tir berthnasol eu nodi yn ystod y broses statudol o ymgynghori cyn gwneud cais. Caiff y personau newydd hynny eu nodi yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad. Bydd yn ofynnol cynnal ymgynghoriad gydag unrhyw bersonau newydd y nodwyd bod ganddynt fuddiant, fel nad yw'r personau hynny o dan anfantais nac yn cael eu trin yn annheg. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau penodol lle nad oedd modd ymgynghori neu lle bo gwallau gwirioneddol yn y llyfr cyfeirio,

gall Gweinidogion Cymru hepgor y gofyniad i ymgynghori a chaniatáu trefniadau ymgynghori amgen ar gyfer y personau hynny yr effeithir arnynt heb effeithio ar eu buddiannau.

#### *Y weithdrefn gychwynol a'r archwiliad*

- 5.73 Er mwyn i sylwadau gael eu gwneud ar y cynllun terfynol, bydd yn ofynnol i'r personau hynny sydd â buddiant ac sydd wedi'u nodi yn y llyfr cyfeirio gael cyfle i wneud sylwadau, yn yr un ffordd ag yr ymgynghorir ag ymgynghoreion statudol a chymunedau (gweler *Paragraffau 5.39 i 5.43*). Gan y bydd y cais yn cynnwys newid arfaethedig i hawliau tir, gall y personau hynny sydd â buddiant yn y tir perthnasol ofyn am gael cynnal gwrandawriad ar y materion sy'n ymwneud â chaffael gorfodol.
- 5.74 Yn y pen draw, Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am bennu'r dull ar gyfer archwilio cais CSC (gweler *Paragraff 5.45*) ac ni welwn angen cymhellol i roi hawl i ymddangos gerbron Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, lle bo person y mae caffael gorfodol yn effeithio arno yn gofyn am hynny, mae Gweinidogion Cymru yn debygol o gytuno i'r cais hwn, oni bai ei bod yn amlwg bod y materion yn ddigon syml i'w datrys drwy sylwadau ysgrifenedig. Bydd gwrandawiadau caffael gorfodol yn dilyn proses debyg i wrandawiadau pwnc-benodol.

#### *Awdurdodi caffael gorfodol*

- 5.75 Lle bo Gweinidogion Cymru yn penderfynu caniatáu caffael gorfodol fel rhan o CSC, gyda newid neu hebdo, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno hysbysiad caffael gorfodol i'r personau hynny yr effeithir arnynt. Rydym yn bwriadu rhagnodi gofynion cyhoeddusrwydd ar gyfer yr hysbysiad hwn, gan gynnwys y rhwymedigaeth i'w arddangos ar y safle neu'n agos ato ac mewn papur newydd lleol er mwyn i bobl ei weld. Er mwyn gweithredu'r hysbysiad caffael gorfodol a throsglwyddo perchenogaeth y tir i'r ymgeisydd, rhaid cyflwyno hysbysiad i drin<sup>68</sup> o fewn pum mlynedd i'r dyddiad y caiff y CSC ei roi. Bydd yr un cyfnod hefyd yn berthnasol i ddatganiadau breinio<sup>69</sup>.
- 5.76 Gan nad oes gan Weinidogion Cymru gymhwysedd datganoledig dros lefel yr iawndal am gaffael gorfodol, ni chaiff CSC gynnwys darpariaeth i addasu nac eithrio iawndal.

#### **Cwestiynau'r ymgynghoriad**

13. **A ydych yn cytuno â'n cynigion i Ganiatâd Seilwaith yng Nghymru naill ai fod ar ffurf caniatâd safonedig neu offeryn statudol, yn dibynnu ar y math o gais a wneir? Os nad ydych, pam?**
14. **A ydych yn cytuno â'r syniad o roi rhai dosbarthiadau penodol o ddatblygiadau ar y llwybr carlam? Os ydych, nodwch ble y gall hyn fod yn addas.**

<sup>68</sup> A.5 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965

<sup>69</sup> A.4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981

15. **A ydych yn cytuno â'n cynigion i ddatgymhwyso'r angen am rai awdurdodiadau penodol sy'n gysylltiedig â'r prif ddatblygiad? Os ydych, nodwch pa awdurdodiadau y gellir eu cynnwys mewn Caniatâd Seilwaith yng Nghymru?**
16. **A ydych yn cytuno y dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a datganiadau polisi sy'n seiliedig ar bynciau fod yn sail polisi ar gyfer penderfynu p'un a ddylai Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol fynd rhagddynt ai peidio? Os nad ydych, pam?**
17. **A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch defnyddio ymgynghoriadau cyn ymgeisio yn sail i broses rhoi Caniatâd Seilwaith yng Nghymru? Os nad ydych, pam?**
18. **A ydych yn cytuno â'n cynigion i gael gwared ar ymchwiliadau o'r broses ar gyfer penderfynu ynghylch Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac i wrandawiadau yn unig gael eu cynnal yn eu lle? Os nad ydych, pam?**
19. **A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch amrywiadau yn ystod y broses benderfynu ac amrywiadau ar ôl caniatâd? Os nad ydych, pam? Os ydych yn cytuno, awgrymwch ffyrdd o roi'r amrywiadau hynny ar y llwybr carlam.**
20. **A ydych yn cytuno mai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yw'r awdurdod gorfodi ar y tir perthnasol ac mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi ar y môr perthnasol? Os nad ydych, pam?**
21. **A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch caffael tir yn orfodol? Os nad ydych, pam?**
22. **A hoffech wneud unrhyw sylwadau eraill ar Rannau 1 a 2 o'r ymgynghoriad hwn?**

## **RHAN 3 – DIWYGIADAU I'R GYFUNDREFN BRYNU GORFODOL YNG NGHYMRU**

### **6 Dirprwyo penderfyniadau a dyfarnu costau**

#### **Diwygiadau i'r broses prynu gorfodol**

- 6.1 Yn amodol ar rai eithriadau, yn fwyaf nodedig at y dibenion hyn o dan Ddeddf Trydan 1989, rhaid i bob gorchymyn prynu gorfodol ("GBG") yng Nghymru gael ei gyflwyno gan awdurdodau caffael i Weinidogion Cymru i'w cadarnhau. Mewn achosion lle nad oes gwrthwynebiadau yn weddill a bod gofynion penodol eraill wedi'u bodloni, mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn i alluogi awdurdodau caffael i gadarnhau eu gorchymynion eu hunain.
- 6.2 Os bydd GBG a gyflwynir i Weinidogion Cymru yn cael ei herio, caiff Arolygydd ei benodi i gynnal ymchwiliad neu i ystyried yr achos drwy sylwadau ysgrifenedig. Yn aml, mewn achosion syml nad ydynt yn codi materion sy'n bwysig y tu hwnt i'r ardal leol, mae'n annhebygol y bydd y llythyr penderfyniad Gweinidogol yn ychwanegu unrhyw beth sylweddol at ganfyddiadau a chasgliadau'r Arolygydd. Ond, ym mhob achos, rhaid i'r Arolygydd baratoi adroddiad sy'n cynnwys argymhelliad i Weinidogion Cymru a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae hyn yn ychwanegu oedi diangen at y broses o hyd at 12 wythnos.
- 6.3 Mae Deddf Tai a Chynllunio 2016 yn diwygio y Deddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981") i alluogi Gweinidogion Cymru i benodi Arolygydd i wneud y penderfyniad i naill ai cadarnhau neu beidio GBG anweinidogol, lle nad yw'r awdurdod caffael yn un o Weinidogion Cymru ac mae Adran 13A o Ddeddf 1981 yn gymwys. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu penodi Arolygydd i weithredu ar eu rhan mewn perthynas a:
- (a) GBG unigol, penodol sydd ddim yn anweinidogol;
  - (d) Disgrifiad o fathau penodol o GBG anweinidogol<sup>70</sup>.
- 6.4 Bydd gan Weinidogion Cymru hefyd y gallu i ganslo penodiad Arolygydd ar unrhyw adeg.
- 6.5 Credwn ei bod yn briodol dirprwyo penderfyniadau gan Arolygydd o dan rai amgylchiadau penodol. Gall Weinidogion Cymru benderfynu yn erbyn dirprwyo unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â GBG anweinidogol y maent yn gyfrifol am ei gadarnhau. Fel y cyfryw, yn yr ymgynghoriad hoffem glywed safbwyntiau ar y meini prawf i'w defnyddio ar gyfer dirprwyo achosion o GBG anweinidogol i Arolygydd benderfynu arnynt.
- 6.6 Er mai diben dirprwyo yw symleiddio a chyflymu'r broses gwneud penderfyniadau, caiff pob achos GBG ei ystyried ar sail ei rinweddau ei hun.

---

<sup>70</sup> H.y. GBG wedi'i wneud o dan pwerau wahanol. H.y. Adran 226 o'r Deddf Cynllunio Tref a Gwledig 1990; Adran 47 o'r Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cynladwy) 1990; Adran 250 o'r Deddf Priffyrdd 1980; Adran 17 o'r Deddf Tai 1985; Adran 121 o'r Deddf Llywodraeth Lleol 1972 ayyb.

Os bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried, ar unrhyw adeg cyn bod penderfyniad terfynol wedi'i wneud, fod GBG yn codi materion y dylent eu hystyried, cânt ganslo penodiad Arolygydd ac "adennill" yr achos i benderfynu arnynt eu hunain. Mae hyn yn golygu bod modd ystyried achosion eithriadol lle, er enghraifft, mae mater newydd pwysig wedi dod i'r amlwg yn ystod y broses gadarnhau, sy'n golygu y dylai Gweinidogion Cymru perthnasol wneud y penderfyniad yn uniongyrchol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr Arolygydd yn cyflwyno adroddiad ac argymhelliad i Weinidogion Cymru a fydd yn penderfynu p'un a ddylid cadarnhau'r GBG ai peidio.

*Meini prawf ar gyfer dirprwyo achosion GBG anweinidogol i Arolygydd benderfynu arnynt*

6.7 Mae'r meini prawf arfaethedig ar gyfer dirprwyo yn seiliedig ar amllder a chymhlethdod y gwahanol fathau o GBG anweinidogol, a wneir o dan bwerau galluogi gwahanol, a dderbyniodd Gweinidogion Cymru i'w gadarnhau dros y 10 mlynedd diwethaf ac a oedd yn destun ymholiad cyhoeddus. Mae hefyd wedi'i seilio ar y meini prawf a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru wrth ystyried ceisiadau galw i mewn a dirprwyo apeliadau cynllunio i Arolygwyr<sup>71</sup>.

6.8 Rydym yn cynnig y meini prawf canlynol:

*"Bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried addasrwydd pob gorchymyn prynu gorfodol (GBG) anweinidogol wedi'i wneud o dan bwerau gwahanol i gael ei ddirprwyo i Arolygydd wneud penderfyniad ynghylch ei gadarnhau.*

- GBGs a wneir o dan Ddeddf Tai 1985;
- GBGs a wneir o dan Ddeddf Priffyrdd 1980;
- GBGs a wneir o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;
- GBGs a wneir o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.

*Defnyddir y pwerau hyn yn ddetholus a chaiff pob achos ei ystyried yn unigol. Ar y cyfan, dim ond os nad yw GBG yn codi materion sy'n bwysig y tu hwnt i'r ardal leol yr ystyrir bod dirprwyo i Arolygydd yn briodol. Gellid ystyried ei bod yn briodol dirprwyo i Arolygydd wneud penderfyniad, er enghraifft, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn ymddangos yn annhebygol y bydd GBG yn:*

- *gwrthdaro â pholisïau cenedlaethol;*
- *codi materion newydd;*
- *yn destun cryn ddadlau y tu hwnt i'r ardal leol;*
- *yn arwain at effeithiau eang y tu hwnt i'r ardal leol;*
- *yn codi anawsterau cyfreithiol sylweddol".*

6.9 Mater i Ysgrifenyddion Cabinet unigol fydd ystyried, yn erbyn y meini prawf arfaethedig, p'un a ddylid dirprwyo penderfyniad gan Arolygydd ar GBG anweinidogol y maent yn gweithredu fel yr awdurdod cadarnhau ar ei gyfer.

---

<sup>71</sup> A.77 ac A.78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

## Ymchwiliadau Prynu Gorfodol: Dyfarnu Costau

- 6.10 Ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus i brynu tir yn orfodol, y sefyllfa bresennol yng Nghymru yw bod yn rhaid i wrthwynebwyr llwyddiannus i GBG<sup>72</sup> (neu wrthwynebwyr aflwyddiannus os yw'r awdurdod caffael wedi ymddwyn yn afresymol) ymddangos mewn ymchwiliad er mwyn i gostau gael eu dyfarnu iddynt o dan adran 5 o Ddeddf Caffael Tir 1981.
- 6.11 Rydym yn cynnig ehangu'r pŵer i ddyfarnu costau yng Nghymru o dan adran 5 o Ddeddf Caffael Tir 1981. Mae hwn yn ymwneud yn benodol a GBG sy'n cael eu gwneud i:
- i) Hwyluso datblygiad a dibenion cynllunio eraill<sup>73</sup>; neu
  - ii) At dibenion priffyrdd<sup>74</sup>
- 6.12 os caiff ymchwiliad GBG ei ganslo, neu os bydd parti yn peidio ag ymddangos mewn ymchwiliad GBG. Gall y sefyllfaoedd hyn godi os nad yw awdurdod caffael yn dymuno bwrw ymlaen â GBG mwyach, neu os yw gwrthwynebydd wedi dod i gytundeb â'r awdurdod caffael i beidio â chynnwys ei dir mewn gorchymyn.
- 6.12 Ar hyn o bryd, os bydd awdurdod caffael yn tynnu bygythiad prynu gorfodol yn ôl cyn i ymchwiliad GBG a drefnwyd gael ei gynnal, ac na ellir dod i gytundeb ynghylch costau, yr unig gam y gall tirseiddiannwr ei gymryd yw mynnu bod ymchwiliad GBG yn cael ei gynnal. Gall hyn olygu bod y partiön yn mynd i gostau ychwanegol sylweddol a bod Arolygydd yn cael ei gyflogi am amser diangen am nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yng Nghymru yn caniatáu dyfarnu costau heb i ymchwiliad GBG gael ei gynnal.
- 6.13 O dan y ddeddfwriaeth bresennol yng Nghymru, os dyfernir bod awdurdod caffael wedi ymddwyn yn afresymol, er enghraifft, celu gwybodaeth, byddai'n rhaid i dirfeddiannwr fynd i ymchwiliad GBG a chyflwyno sylwadau i fod yn gymwys i gostau gael eu dyfarnu iddo. Yn yr achos hwn, byddai'r tirseiddiannwr yn mynd i gostau ychwanegol oherwydd yr angen i gyflwyno achos a bod yn bresennol mewn ymchwiliad. Nid yw'n anghyffredin i'r gost ychwanegol hon beidio â chael ei hystyried wrth ddyfarnu costau ac anaml y mae tirseiddianwyr yn adennill 100% o'r costau yn yr achos hwn.
- 6.14 Bydd ehangu'r pŵer yng Nghymru i adennill costau ynglŷn a:
- i) Hwyluso datblygiad a dibenion cynllunio eraill<sup>75</sup>; neu
  - ii) At dibenion priffyrdd<sup>76</sup>

gan bartiön nad ydynt yn bresennol mewn ymchwiliad GBG neu os caiff ymchwiliad GBG ei ganslo yn sicrhau nad yw'r gweithdrefnau pwysig hyn yn cael eu camddefnyddio at ddibenion masnachol. Gall hyn oedi'r achos yn

<sup>72</sup> Mae hyn yn golygu person a lwyddodd, drwy amddiffyn ei hawliau neu ddiogelu ei fuddiannau, i'w dileu o CPO.

<sup>73</sup> Fel y ddiffynir dan Adran 246(1) o'r Deddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990.

<sup>74</sup> Defnydd pwerau GBG o dan y Deddf Priffyrdd 1980.

<sup>75</sup> Fel y ddiffynir dan Adran 246(1) o'r Deddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990.

<sup>76</sup> Defnydd pwerau GBG o dan y Deddf Priffyrdd 1980.

ddiangen a thanseilio cyfreithlondeb cynigion a thegwch gweithdrefnol. Bydd hefyd yn golygu bod modd dyfarnu costau o blaid hawlydd heb i ymchwiliad GBG gael ei gynnal.

### **Cwestiynau Ymgynghoriad**

- 23. A ydych yn cytuno â'n meini prawf ar gyfer dirprwyo achosion sy'n ymwneud â Gorchmynion Prynu Gorfodol anweinidogol i Arolygydd benderfynu arnynt? Os nad ydych, pam?**
- 24. A ydych yn cytuno â'r bwriad i ddiwygio, drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, adran 5(4) o Ddeddf Caffael Tir 1981 i ehangu'r pŵer i ddyfarnu costau yng Nghymru i bartïon mewn perthynas a gorchmynion prynu gorfodol i hwyluso datblygiad a defnyddiau tir eraill, neu at ddibenion priffyrdd? Os nad ydych, pam?**





## Atodiad A

### Costau

- A1 Er bod Rhan 2 o'r papur ymgynghori hwn yn amlinellu manteision sylweddol i gymunedau a'r diwydiant datblygu, rydym yn rhagweld y bydd rhai costau'n gysylltiedig â'n diwygiadau arfaethedig.

#### *Llywodraeth Cymru*

- A2 Bydd angen i Lywodraeth Cymru dalu costau newydd. Bydd cost weinyddol ychwanegol yn gysylltiedig â chynyddu amrywiaeth a nifer y prosiectau y bydd yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch yn ogystal â chaniatadau ac awdurdodiadau eraill sydd eu hangen ochr yn ochr â'r prif ganiatâd. Hefyd, bydd costau sefydlu untro i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â dylunio proses, drwy lunio deddfwriaeth a chanllawiau.

- A3 Bydd y rhan fwyaf o'r costau parhaus yn cael eu gwrthbwysu drwy gyflwyno ffioedd. Bwriedir i'r rhain adennill yr holl gost weinyddol parhaus sy'n gysylltiedig â darparu proses rhoi caniatâd unedig. O ystyried y bydd nifer o brosesau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu hymgorffori mewn un gyfundrefn rhoi caniatâd, bydd y gost yn llai o ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd a wneir drwy leihau'r baich gweinyddol.

#### *Y Diwydiant Datblygu*

- A4 Mae'n debygol y bydd yn rhaid i ddatblygwyr dalu ffioedd uwch na'r rhai sydd wedi'u pennu ar gyfer y prosesau presennol<sup>77</sup>, nad ydynt yn adlewyrchu costau gwirionedd ar hyn o bryd nac yn debygol o lwyddo i adennill costau'n llawn. Er hynny, gall datblygwr gael nifer o awdurdodiadau ar yr un pryd â'r prif ganiatâd, fel rhan o gyfundrefn siop un stop. Yn unol â hynny, ni fydd y datblygwr yn talu ffioedd am yr awdurdodiadau hynny, ac ni fydd amser yn cael ei dreulio'n gwneud ceisiadau gwahanol amdanynt a chymryd rhan yn y prosesau rhoi caniatâd hynny. Ar y cyfan, ceir potensial i arbed amser a chostau.
- A5 Bwriedir cynnwys camau rhagarweiniol ar ddechrau proses arfaethedig CSC, felly bydd llawer o ymgyngrï cyn i gais gael ei gyflwyno'n ffurfiol. Yn unol â hynny, mae'n debygol y bydd costau sy'n gysylltiedig â chyfathrebu â chymunedau ac ymgynghoreion yn uwch. Mae'n bosibl y bydd costau trosglwyddo'n gysylltiedig ag addasu i broses newydd hefyd. Yn gyfnewid am hynny, mae'n debygol y bydd llai o oedi yn y broses o gael caniatâd am fod amserlenni statudol yn cael eu cynnig. Bydd y gost i'r diwydiant datblygu ac yr economi yn sgil oedi yn llai.

---

<sup>77</sup> Caniatâd Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Caniatadau o dan Ddeddf Trydan 1989, Gorchmynion Diwygio Harbyrau a Gorchmynion Grymuso o dan Ddeddf Harbyrau 1964, Gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 a Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

### *Awdurdodau rhoi caniatâd arferol*

- A6 Bydd costau'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y broses o wneud cais am CSC, er enghraifft yn sgil ymateb i ymgynghoriadau, cymryd rhan ar y cam cyn gwneud cais a chymryd rhan mewn archwiliad. Bydd y costau hyn yn amrywio fesul achos ac yn dibynnu ar bwy yw'r awdurdod rhoi caniatâd arferol. Bydd ACLlau yn ddarostyngedig i rai swyddogaethau statudol y cânt eu had-dalu amdanynt, megis llunio Adroddiad o'r Effaith Leol. Ar hyn o bryd, caiff y swyddogaethau hyn eu cyflawni drwy'r prosesau ar gyfer rhoi caniatâd i brosiectau DAC ac NSIP. Bydd yr awdurdod rhoi caniatâd arferol yn colli refereniw ffioedd am fod ceisiadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.

### *Cymunedau*

- A7 Nid ydym yn rhagweld costau newydd i gymunedau o ganlyniad i broses CSC. Gan fod cyfranogiad yn y broses yn ddewisol, bydd rôl cymunedau a phartïon â buddiant yn aros yn ddiglyfnewid. Fodd bynnag, byddant yn cymryd rhan ar gam cynharach nag a wneir ar hyn o bryd er mwyn sicrhau eu bod yn dylanwadu ar gynllun yn gynnar. At hynny, ni fydd yn ofynnol ymgymryd ag awdurdodiadau sy'n gysylltiedig â'r prif brosiect, petai eu hangen fel rhan o'r CSC.

### *Casgliadau*

- A8 Er y bydd costau a buddion cost i'r grwpiau uchod, caiff y rhain eu gwrthbwysu'n sylweddol gan drefniant rhoi caniatâd siop un stop a fydd yn cyfrannu at y nodau Gweinidogol o annog twf economaidd a gweithio tuag at sicrhau economi carbon isel. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn costio llai i Weinidogion Cymru na defnyddio prosesau sydd eisoes yn bodoli am fod ffioedd gwneud cais cymesur yn cael eu cyflwyno. Hefyd, bydd atebolrwydd democrataidd yn cael ei gadw mewn penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
- A9 Rhoddir caniatâd ar gyfer seilwaith mawr yn ganolog. Bydd yr awdurdod rhoi caniatâd arferol yn gallu canolbwyntio ei adnoddau ar waith achosion amlach a mwy rheolaidd. Bydd hyn yn arwain at effeithlonrwydd gweinyddol i Weinidogion Cymru a'r awdurdodau rhoi caniatâd arferol. Bydd cymunedau a datblygwyr yn elwa'n ariannol ac o ran yr amser a dreulir yn ymdrin â chais unigol, yn hytrach na nifer o ganiatadau ac awdurdodiadau. Yn y pen draw, bydd hyn yn lleihau cost oedi i'r economi.
- A10 Er mwyn ein helpu i ffurfio darlun cyflawn o'r ffordd y bydd ein cynigion yn effeithio ar y grwpiau uchod, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan ymatebwyr sy'n nodi costau yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y broses o roi caniatâd seilwaith.

### Cais am dystiolaeth

- A. A oes gennych unrhyw wybodaeth am gostau a manteision cyfundrefnau presennol ar gyfer rhoi caniatâd? Ymhlith y rhain mae Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, Gorchmynion Diwygio neu Grymuso Harborau, caniatâd i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu a llinellau trydan uwchben, Gorchmynion Trafnidiaeth a Gweithfeydd a Gorchmynion Priffyrdd.**